



Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales

# Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

Adroddiad Blynyddol 2019-2020

Tai

Profadau Niweidiol  
yn ystod Plentyndod

**2050**

**2020**

Ysgogwr Newid

**2015**  
Cenedlaethau'r Dyfodol

Trafnidiaeth

Iechyd

Cynllunio

Sgiliau

Gweithredu heddiw  
*ar gyfer gwell yfory.*

Newid yn yr hinsawdd

# Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

Adroddiad Blynyddol 2019-2020

Rydyn ni wedi cynhyrchu'r ddogfen hon i'w darllen fel cyflwyniad rhyngweithiol.

Lle rydych chi'n gweld yr arwyddion hyn:

Darganfyddwch fwy

[Darllenwch fwy](#)

Tudalen Gynnwys



# Cynnwys

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-2019

Gweithredu heddiw  
*ar gyfer gwell yfory.*

## Pwrpas 1

Amlygu a gweithredu ar y materion pwysig a'r heriau sy'n wynebu cenedlethau'r dyfodol

Tudalen 12

## Pwrpas 3

Creu Mudiad dros Newid

Tudalen 70

## Yn y 12 mis nesaf

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol.  
Beth fyddaf yn ei wneud yn y 12 mis nesaf

Tudalen 92

Adroddiad Atebolrwydd

Tudalen 96

## Pwrpas 2

Cynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Tudalen 54

## Pwrpas 4

Gweithredu'n ogystal â thrafod – Storiâu o'n taith bersonol – ysgwyddo'r newid yr ydym yn dymuno ei weld mewn erail

Tudalen 78

Datganiadau Ariannol

Tudalen 117

## Rhagair

### Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Rwyf wedi bod yn fy swydd fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf Cymru ers 2016. Yn ystod yr amser hwnnw, mae'n deg dweud fy mod wedi siarad â bron pawb yr wyf wedi cwrdd â nhw am genedlaethau'r dyfodol.



O arweinwyr byd-eang, i'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau yng Nghymru, i brif weithredwyr busnesau, i'm siop trin gwallt leol. Mae cenedlaethau'r dyfodol yn fusnes i bawb - mae hynny'n dod yn fwyfwy amlwg p'un a yw llunwyr polisi yn ei hoffi ai peidio. Nid yw cyfawnder rhwng cenedlaethau bellach yn fater arbenigol.

Mae ein cenedlaethau iau yn tynnu sylw at fethiannau penderfyniadau yn y gorffennol, ac yn anffodus, yn aml benderfyniadau yn y presennol sy'n methu ag ystyried eu dyfodol. A gyda mudiadau ieuencid yn adeiladu ledled y byd, ochr yn ochr â gostyngiad yn yr oedran pleidleisio yma yng Nghymru, ni all llunwyr polisi anwybyddu materion sy'n ymwneud â chenedlaethau'r dyfodol mwyach. Mae llawer o wledydd yn ystyried dilyn arweiniad Cymru wrth iddi wella bywydau cenedlaethau'r dyfodol, ond roedden ni'n ddewr i gymryd y cam cyntaf hwnnw.

Yr uchafbwyntiau personol i mi eleni fu cyhoeddi [Teithiau Y Gallu](#) i Greu fel ffynhonnell syniadau ac ysbrydoliaeth ar bob un o'r Nodau; lansio fy mhrosiect peilot [Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol](#); gorffen fy rownd gyntaf o [fonitro ac asesu](#) statudol; gweld arwyddion calonogol o'r Ddeddf yn cael eu hadlewyrchu ym mholsi'r Llywodraeth - o ffocws cryfach ar atal a datgarboneiddio yn y gyllideb, y penderfyniad i beidio ag adeiladu ffordd liniaru'r M4 a sicrhau'r Ddeddf fel rhan allweddol o strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru; cyfarfod a chlywed oddi wrth hyrwyddwyr y Ddeddf o'r gwasanaethau cyhoeddus, busnes, mentrau cymdeithasol a chymunedau; ac wrth gwrs ysgrifennu fy [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#).

Mae'r Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn dwyn ynghyd yr holl ffrydiau gwaith y mae fy nhîm a minnau wedi'u cyflawni yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Fe roddodd gyfle perffaith i mi bwysu a mesur yr hyn a gyflawnwyd hyd yma, gan adlewyrchu'r sgysiau a'r wybodaeth y mae fy swyddfa a minnau wedi'u casglu. Ac mae'n deg dweud bod pethau da yn digwydd. Bod pethau'n newid oherwydd y Ddeddf.

Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion ar feysydd yr wyf yn eu hystyried fel y pethau mwyaf arwyddocaol y dylid eu gwneud yn ystod y pum mlynedd nesaf i helpu Cymru i gyrraedd y nodau llesiant – *a phrofi adferiad yn dilyn COVID-19*. Mae Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu fframwaith ar gyfer y modd y dylem geisio ymateb i'r argyfwng hwn. Mae'n caniatáu i ni wneud y penderfyniadau cywir, i'n helpu i symud tuag at agwedd hirdymor ac ataliol tuag at y modd yr

“ Mae bywyd bob amser yn aros i argyfwng ddigwydd cyn datgelu ei hun ar ei fwyaf. ”

Paul Coelho



ydym yn rhedeg ein cymdeithas a'n gwasanaethau cyhoeddus. Rwy'n annog Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill i ddefnyddio'r Adroddiad wrth i ni weithio tuag at gynllun adferiad i Gymru.

Mae'r Byd wedi newid, a chredaf y gellir ail-lunio cymdeithas yng Nghymru'n sylweddol er gwell. Wrth i ni ddelio â'r argyfwng presennol, rhaid i ni feddwl yn yr hirdymor. Rydyn ni'n cael cyfle i gyflawni newid. Gydag ymagwedd flaengar a chynhwysol, gallwn adeiladu Cymru a fydd o fudd i bawb, gan gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed. Bydd yn cymryd dewrder gwleidyddol i sicrhau'r newid hwnnw.



# Crynodeb Perfformiad

## Sut rydw i'n mesur perfformiad?

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â dod â newid i fywydau pobl a newid ymddygiad. Mae hyn yn gymhleth, yn cymryd amser ac yn her sefydliadol a dynol o iawn. Rwyf wedi dewis dangosyddion perfformiad sy'n caniatáu i mi a'r rhai sydd am graffu ar fy ngwaith weld sut mae fy Swyddfa yn dylanwadu ar yr esblygiad hwn tuag at Gymru fwy cynaliadwy.

### Y mesurau perfformiad strategol ar gyfer fy swyddfa yw:

- 1 Fframio dadl a chael materion ar yr agenda
- 2 Annog ymrwymadau disgysiol gan weinidogion, y Llywodraeth ac eraill
- 3 Sicrhau newid gweithdrefnol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud pethau
- 4 Effeithio ar gynnwys ac ymrwymadau polisi
- 5 Dylanwadu ar newid ymddygiad ymarferol mewn eraill

### Fy rôl

Fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, fy nyletswydd gyffredinol yw hyrwyddo'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Rwy'n hyfforddwr ac yn ffrind beirniadol i gyrff cyhoeddus, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac unrhyw un a all helpu i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Rwy'n cefnogi ac yn herio cyrff cyhoeddus fel eu bod yn cyflawni eu dyletswydd ac yn gwella pob agwedd ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol holl boblogaeth Cymru.

## Beth mae fy nyletswydd yn ei gynnwys?

*"Hyrwyddo'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy, yn benodol i weithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion ac annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor y pethau maen nhw'n eu gwneud."*

*"Monitro ac asesu i ba raddau y mae amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni."*

### Dwi'n gallu:

- Rhoi cyngor i gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Cynnal adolygiadau ar sut mae cyrff cyhoeddus yn ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau.
- Gwneud argymhellion yn dilyn Adolygiad.

I gyflawni fy nyletswydd gyffredinol, mae gen i ystod o **swyddogaethau a phwerau** penodol:

- **Adran 18 (a) Dyletswydd gyffredinol** – Hyrwyddo'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy.
- **Adran 18 (b) Dyletswydd gyffredinol** – Monitro ac asesu i ba raddau mae amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni.
- **Adran 19 (a) Pŵer** - Rhoi cyngor neu gymorth i gyrff cyhoeddus (sy'n cynnwys darparu cyngor ar y newid yn yr hinsawdd).
- **Adran 19 (b) Pŵer** - Rhoi cyngor i Archwilydd Cyffredinol Cymru ar yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy.
- **Adran 19 (c) Pŵer** - Rhoi cyngor i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â pharatoi eu cynllun llesiant lleol.

- **Adran 19 (d) Pŵer** - Rhoi unrhyw gyngor neu gymorth arall i unrhyw berson arall y mae'r Comisiynydd o'r farn ei b/fod yn cymryd camau a allai gyfrannu at gyflawni'r Nodau Llesiant.
- **Adran 19 (e) Pŵer** - Annog arfer gorau mewn cyrff cyhoeddus i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy.
- **Adran 19 (f) Pŵer** - Hyrwyddo ymwybyddiaeth ymysg cyrff cyhoeddus o'r angen i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy.
- **Adran 19 (g) Pŵer** - Annog cyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd a gyda phersonau eraill pe gallai hyn eu cynorthwyo i gyflawni eu hamcanion llesiant.
- **Adran 19 (h) Pŵer** - Gofyn am gyngor panel cyngori mewn perthynas ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd.
- **Adran 20 i 22** - Pŵer i gynnal adolygiadau ac i wneud argymhellion. Mae'n ddyletswydd arnaf hefyd i roi cyngor i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar eu hasesiadau llesiant a'u cynlluniau drafft, a phwerau i dderbyn copïau o adroddiadau ac i ymgynghori â hwy ar wahanol achlysuron.

Rwyf wedi distyllu'r swyddogaethau a'r pwerau hyn yn bedwar Pwrpas Strategol:

### Pwrpas 1

Tynnu sylw at y materion a'r heriau mawr sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol a gweithredu arnynt

### Pwrpas 2

Cefnogi a herio cyrff cyhoeddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

### Pwrpas 3

Creu mudiad ar gyfer newid

### Pwrpas 4

Gweithredu'r trafodaethau – ysgwyddo'r newid yr ydym am ei weld mewn eraill.

Mae fy Adroddiad Perfformiad wedi'i strwythuro o amgylch y pedwar pwrpas hyn.

# Crynodeb o'r hyn a wneuthum yn 2019-20

Yn fy **mhedwaredd flwyddyn**, Ebrill 2019 - Mawrth 2020, gwneuthum lansio Cymru Ein Dyfodol - ymarfer ymgyfrannu blwyddyn o hyd oedd yn adeiladu ar waith blaenorol i gasglu tystiolaeth, safbwyntiau a phrofiad o fywyd go iawn i drwytho fy [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#) cyntaf. Roedd hwn yn ddarn mawr o waith a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020 ond yr ymgymerwyd ag ef i raddau helaeth eleni, gan dynnu ar fy rownd gyntaf o fonitro ac asesu statudol, a mewnelediadau gan fwy na 5,000 o bobl a sefydliadau o Gymru, y DU a thu hwnt. Helpodd Cymru Ein Dyfodol a lansiwyd yng Ngwanwyn 2019 i Junio fy nghanfyddiadau ac argymhellion, a diolchaf yn ddiffuant i'r lluo o sefydliadau ac unigolion a gyfrannodd.

Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer yr hyn yr wyf yn eu hystyried fel y pethau mwyaf



arwyddocaol y dylid eu gwneud yn ystod y pum mlynedd nesaf i helpu Cymru i gyflawni'r nodau llesiant a *chael adferiad yn dilyn COVID-19*. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys nifer o 'Syniadau Arloesol' am sut y gallai Cymru newid er gwell, a gymerwyd o rai o'r enghreifftiau gorau o Gymru ac ar draws y byd.

Dylid darllen fy Adroddiad Blynyddol ar y cyd â'r ddogfen hon.

Cyhoeddais hefyd adnoddau trwy fy mhrosiect **'Teithiau'** Y Gallu i Greu a gwneuthum barhau i gynghori cyrff cyhoeddus i'w galluogi i ddeall y Ddeddf a'i goblygiadau. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno dau 'Labordy Byw' (fy lefel fwyaf manwl o gefnogaeth) ar Brofadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf) a thair (gyda Llywodraeth Cymru).



Yn nhermau'r meysydd lle rwyf yn ceisio sbarduno newid mewn dull rhagweithiol, canolbwyntiaid ar newid y system iechyd, caffael a chyllideb y llywodraeth - gan gynnwys cyhoeddi [cynllun 10 pwynt](#) i ariannu argyfwng hinsawdd Cymru. O ran sgiliau ar gyfer y dyfodol, gweithiais gyda'r Athro Calvin Jones ym Mhrifysgol Caerdydd ar bapur gwyn **'Addysg Addas ar Gyfer y Dyfodol yng Nghymru'** i ysgogi trafodaeth ar sut rydyn ni'n paratoi pobl ifanc gyda'r sgiliau cywir, a lansiis hefyd fy mhrosiect i fy hun - [Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol](#). O ran cynllunio defnydd tir, gwneuthum barhau i gefnogi gweithrediad Polisi Cynllunio Cymru trwy ddarparu her a chyngor ar Framwaith Datblygu Cenedlaethol a Llawlyfr CDLI Llywodraeth Cymru.



## Cyflawniadau mwyaf arwyddocaol

- Newid ymagwedd y Llywodraeth tuag at [Ffordd Liniaru'r M4](#).
- Cynnig ymagwedd newydd tuag at [arholi ac asesu mewn addysg yng Nghymru](#).
- Parhau i helpu i ail-lunio polisi cynllunio cenedlaethol yn unol â'r Ddeddf.
- Sicrhau'r Ddeddf fel rhan allweddol o Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.
- Sicrhau cynnydd yng nghyllid Llywodraeth Cymru tuag at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, yn unol â fy nghyngor yn fy Nghynllun 10 Pwynt.
- Monitro ac asesu cynnydd tuag at gyflawni tua 300 o amcanion llesiant.
- Cyhoeddi cyfres lawn o ganllawiau ac adnoddau ar gyfer unrhyw un a all helpu i gyflawni'r nodau llesiant - fy mhrosiect 'Teithiau' Y Gallu i Greu.
- Lansio [Cymru Ein Dyfodol](#) - ymgyrch i gynnwys pobl yn fy [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#).
- Rhoi cyngor a chymorth i dros 300 o bobl neu sefydliadau sydd wedi gofyn am gefnogaeth.
- Sefydlu'r [Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol](#).

## Adeiladu proffil yng Nghymru a'r byd:

- Enwid fel un o'r [100 Gwneuthurwr Newid Gorau y DU](#) - Big Issue.
- Rhestrwyd yn [Makers and Mavericks List 2019](#).
- Helpu i ddatblygu Biliau Aelodau Preifat yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'r DU.
- Dylanwadu ar ddatblygiad polisi llesiant yng Nghanada, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, y Deyrnas Unedig a Seland Newydd.
- Cynrychioli Cymru yn [Fforwm Gwleidyddol Lefel Uchel y Cenedloedd Unedig](#) a ['One Young World'](#).
- Cael sylw yn [Positive News](#), [The Guardian](#), Channel 4, [BBC Future](#) yng Ngŵyl y Gelli, Llwyfan ['BBC Ideas'](#), Papur Newydd Cenedlaethol De Korea a Financial Times yr Iseldiroedd.

Mae'r datganiadau ariannol yn dangos dadansoddiad o'r gwariant; flwyddyn ar ôl blwyddyn mae'r mwyafrif ohono yn cael ei wario ar dalu ein pobl a'r costau sy'n gysylltiedig ag eiddo. Mae'r Adroddiad Perfformiad yn ei gyfanrwydd yn disgrifio'r hyn y defnyddiwyd y cyllid gennym ar ei gyfer - sef gweithio ar ein pedwar pwrpas strategol, y pethau rydyn ni wedi'u gwneud, y cynnydd rydyn ni wedi'i wneud, yr allbynnau a'r effaith.

# Pwrpas 1

## Tynnu sylw at y materion a'r heriau mawr sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol a gweithredu arnynt

### Fy meysydd ffocws

Yn 2017, nodais feysydd ffocws a allai gael yr effaith fwyaf wrth symud tuag at y weledigaeth a'r nodau llesiant - **sy'n gyferweth â gosod fy amcanion llesiant fy hun.**

Yn fwiadol, ni roddais sylw penodol i amgylchedd, diwylliant, cymuned nac economi fel materion ar wahân, gan fod pob un yn fater anhepgor i'w ystyried wrth wneud penderfyniadau ym mhob maes. Darganfyddais yn fy nadansoddiad o gynnydd yn erbyn y nodau gan gyrrff cyhoeddus, eu bod yn aml iawn yn methu mabwysiadu ymagwedd ddigon integredig yn yr hyn maen nhw'n ei wneud – mewn geiriau eraill, nid yw eu gweithredu ar un mater yn gwneud digon i ysgogi newid ar yr un pryd mewn meysydd eraill. Rwyf wedi ceisio dangos trwy esiampl y gall gweithredu ar faterion polisi penodol arwain at fanteision lluosog i bob un o'r pedwar dimensiwn llesiant.

### Gellir rhannu fy meysydd ffocws yn ddau grŵp:

#### Ein lleoedd a'n seilwaith

1. Trafnidiaeth
2. Cynllunio defnydd tir
3. Tai

#### Ein pobl

4. Atal profadau niweidiol yn ystod plentynod (ACEs)
5. Sgiliau ar gyfer y dyfodol
6. System iechyd a lles

Wrth symud pob un o'r rhain ymlaen yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi ceisio cyfrannu at y nodau llesiant mewn sawl ffordd. Er enghraifft, drwy:

- Ehangu ac egluro beth mae'r nodau'n ei olygu i Gymru.
- Rhoi cyngor a chymorth i gyrrff cyhoeddus.
- Monitro eu cynnydd i sicrhau newid polisi a newid gweithdrefnol.
- Cyhoeddi adnoddau, ymchwil a dadansoddi sy'n arwain at ddylanwadu ar bolisi cenedlaethol neu leol.
- Ymateb i dystiolaeth neu bryderon a godwyd gan y cyhoedd a'u cynrychiolwyr.
- Cydweithio gydag eraill a bwrw mlaen â gwaith ar y cyd.
- Hyrwyddo syniadau arloesol.
- Rhannu astudiaethau achos o Gymru a thu hwnt i helpu teithio llesol.
- Gweithredu yn ogystal â thrafod parthed y modd rwy'n rheoli fy swyddfa fy hun.

Mae darparu cyngor a chymorth i gyrrff cyhoeddus ac unrhyw un a all helpu i gyfrannu at y nodau llesiant yn un o fy mhwerau pwysicaf ar gyfer hyrwyddo'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy a gweithredu fel gwarcheidwad cenedlaethau'r dyfodol. Dyma un o'r prif fecanweithiau yr wyf wedi'u defnyddio i gefnogi eraill wrth iddynt geisio cyflawni'r nodau cenedlaethol a'r weledigaeth a osodir yn y Ddeddf, yn arbennig yn fy meysydd ffocws.

## Lleoedd a seilwaith

O ran **trafnidiaeth, cynllunio defnydd tir a thai**, fy ymagwedd fu canolbwyntio ar gefnogi a herio Llywodraeth Cymru ar lefel polisi cenedlaethol. Mae gweithredu yn y tri maes hyn yn bwysig oherwydd bydd yn cael effaith ar draws yr holl nodau llesiant.

### Trafnidiaeth - Symudedd addas ar gyfer y dyfodol

Mae fy **ngweledigaeth** ar gyfer cymunedau cysylltiedig, carbon isel a gweithredol **yma.**

Byddai gwreiddo'r weledigaeth hon a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu opsiynau teithio carbon isel/di-garbon; yn lleihau llygredd aer ac yn hyrwyddo cydnerthedd amgylcheddol. Byddai hefyd yn helpu i gydraddoli cyfleoedd i bawb ac yn chwarae rôl wrth gefnogi ffyrdd iach o fyw, gwella cydlyniant cymunedol, a chreu Cymru â chysylltiadau da.






Credyd: Cyngor Caerdydd

Mae'r penderfyniad gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2019 ar yr M4 yn gam sylweddol tuag at gyflawni hyn, ac yn dangos newid amlwg mewn polisi, gyda'r Prif Weinidog, Mark Drakeford AS, yn rhoi pwysau sylweddol ar yr effaith y byddai'r cynllun yn ei gael ar **Gymru Gydnherth**. Fe wnaeth fy [nhystiolaeth ysgrifenedig gychwynnol](#) i ymchwiliad cyhoeddus lleol yr M4 yn 2017 a [thystiolaeth bellach](#) yn 2018 helpu i lunio'r ddadl, helpu eraill i ddeall sut y dylai'r Ddeddf weithredu a sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystyriaeth allweddol yn y penderfyniad a wnaed gan y Prif Weinidog.

Penodwyd [Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru](#) i gynnig dewisiadau amgen cynaliadwy. Mae angen iddo ddangos sut mae'n defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth lunio ei argymhellion. Rwyf wedi gwneud awgrymiadau ar gyfer dewisiadau amgen yn fy adroddiad [Trafnidiaeth Addas ar Gyfer y Dyfodol](#), ac rwy'n croesawu eu ffocws cynnar ar yr angen i wella trafnidiaeth gyhoeddus, ac i ddarparu opsiwn amgen ymarferol i gymudwyr sy'n teithio mewn car. Mae fy swyddfa yn ymgysylltu â'r Comisiwn a byddaf yn rhoi adborth ar eu hadroddiad dros dro yn yr Haf. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ddiwedd 2020.

Mae'n rhwystredig gweld o'm dadansoddiad fy hun a'r dystiolaeth a gyflwynwyd i mi gan gymunedau bod bwch gweithredu sylweddol mewn perthynas â chanllawiau [Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru \(WelTAG\)](#) - a ddefnyddir ym mhob penderfyniad ar ymyriadau trafnidiaeth. Ar ôl gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i gynhyrchu'r canllawiau, yn lle nodi'r datrysiad symudedd gorau ar gyfer ardal, gan ystyried nodau llesiant ac amcanion llesiant lleol, mae'r canllawiau yn aml yn cael eu hól-osod yn dilyn datrysiad penodol (e.e. pan fydd adeiladu ffordd neu ffordd osgoi) eisoes wedi eu dewis, neu pan fydd cyllid eisoes wedi'i ddyrannu. Er enghraifft, yn y diweddariad diweddar i Gynllun Buddsoddi Seilwaith Cymru (Tachwedd 2019) dyrannwyd 62% o'r cyllid cyfalaf i ffyrdd newydd.

Ym mis Medi 2019, cyflwynais weithdy gan ddefnyddio dull [Y Tri Gorwel](#) i ystyried materion ac atebion trafnidiaeth cyfredol sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Roedd y mynychwyr yn gallu mapio eu dyheadau trafnidiaeth yn erbyn y saith nod llesiant ac ystyried y gwahaniaethau rhwng syniadau sy'n tueddu i gynnal y 'status quo' (H2-) yn ogystal â rhai a fydd yn cefnogi'r dyfodol sydd ei angen arnom (H2+).



Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n datblygu **Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** newydd a ddylai gyflawni yn erbyn yr holl nodau llesiant gan gynnwys ffocws sylweddol ar newid moddol. I wneud hyn, rhaid gosod datgarboneiddio wrth ei wraidd a glynu wrth yr hierarchaeth drafnidiaeth a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Rhaid ystyried y tueddiadau hirdymor sy'n ymwneud â dyfodol symudedd, gan sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal i gyflogaeth, gwasanaethau a chyfluoedd hamdden mewn ffyrdd nad ydynt yn costio'r Ddaear. Rhaid darparu gweledigaeth uchelgeisiol, sy'n gyson â'r Ddeddf, sy'n darparu'r 'cyfeiriad teithio' ar gyfer strategaethau trafnidiaeth lleol a chyllid ar gyfer cynlluniau sy'n galluogi blaenoriaethu trafnidiaeth gyhoeddus a theithio lesol.

Cliciwch **yma** i gael yr argymhellion yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ar symudedd sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

**Persbectif ar drafnidiaeth gan Emily-Rose Jenkins, cyfranogydd yn fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.**

*“Mae ffocws ar ddatgarboneiddio'r sector trafnidiaeth, sy'n gwbl briodol. Fodd bynnag, mae angen i ni fuddsoddi mewn addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Ar hyn o bryd, nid yw'r seilwaith yng Nghymru wedi'i gynllunio i ddarparu ar gyfer yr amgylchedd sy'n newid. Nid oedd dylunio hanesyddol yn darparu ar gyfer rhagamcaniad o'r newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, felly bydd ôl-osod a gwella'r dulliau o gynnal a chadw'r seilwaith sy'n heneiddio'n chwarae rhan fawr mewn addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Ni wyddys beth yw maint yr addasiad i'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru, ac felly bydd cydweithredu'n hanfodol wrth gyflawni hyn. Gweithio gyda natur ac nid yn ei erbyn; mae angen i ni ddefnyddio adnoddau naturiol Cymru a gwarchod yr amgylchedd, wrth gyflawni'r weledigaeth o Gymru lewyrchus a chydnerth.”*







## Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith eisoes wedi gwneud gwahaniaeth mewn trafndiaeth?

Mae enghreifftiau o'r effaith a gafwyd yn cynnwys:

- Mae canllawiau WeITAG wedi cael eu diweddarau gan **Lywodraeth Cymru** i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael eu fuddsoddi mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i lesiant Cymru, fel y nodir yn y Ddeddf i gyflawni gweledigaeth y Ddeddf o'r Gymru a garem.
- Mae penderfyniad **Llywodraeth Cymru** i beidio adeiladu ffordd liniaru'r M4 wedi dangos newid amlwg ym mholisi'r Llywodraeth gyda'r Prif Weinidog yn rhoi pwys sylweddol ar yr effaith y byddai'r cynllun yn ei gael ar yr amgylchedd. Mae Comisiwn arbenigol newydd wedi'i sefydlu sy'n ymgorffori Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gylch gorchwyl.
- Mae **Cyngor Caerdydd** yn blaenoriaethu aer glân a newid o deithio mewn car preifat i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Paratowyd dyluniadau cysyniad cychwynnol ar gyfer llwybrau uwch-briffordd pedwar beic, ynghyd â chynlluniau seilwaith beiciau a'r cynllun Llogi Beic ar y Stryd (Nextbike) sydd wedi dod y mwyaf llwyddiannus yn y DU, gan dyfu o 25 i 500 o feiciau ledled y ddinas.
- Mae **Dinas a Sir Abertawe** wedi prynu 40 o gerbydau trydan ac wedi ennill gwobr am y nifer fwyaf o faniau trydan mewn fflyd sector cyhoeddus.
- Mae **Cyngor Bwrdeistref Sir Caerffili** gyda **Stagecoach**, yn ogystal â **chyngorau Caerdydd a Chasnewydd** yn y broses o gyflwyno bysiau trydan.

Credyd: Roqib Monsur



Credyd: Roqib Monsur



## Cynllunio defnydd tir – ymagwedd tuag at greu lleoedd

Mae fy **ngweledigaeth** ar gyfer sut rydyn ni'n cynllunio, dylunio ac adeiladu ein cymunedau a'n seilwaith ar gyfer y dyfodol **yma**.

Hyd yn hyn, **polisi cynllunio** yw'r maes polisi mwyaf arwyddocaol yng Nghymru i gael ei ail-lunio'n llwyr i wneud Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan annatod ohono. Mae'r diwygiad hwn yn rhaglen waith ddofn a hir yr wyf yn ei chroesawu fel un sy'n helpu i gyflawni'r holl nodau ac yn benodol nodau **Cymru Gydnerth, Iachach, o Gymunedau Cydlynus, a Llewyrchus** gyda **Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu**. Argymhellais y dylid mabwysiadu'r ymagwedd fanwl hon o weithredu tuag at feysydd polisi eraill fel addysg a thai.

Rwyf wedi adleisio materion cynllunio a godwyd gyda mi trwy ohebu gydag adran gynllunio Llywodraeth Cymru ac wedi darparu cyngor a chymorth ar eu cais dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rydyn ni wedi datblygu perthynas agored ac adeiladol wrth i mi weithio gyda nhw ar y lefel polisi cenedlaethol ar ail-lunio **Polisi Cynllunio Cymru 10** yn 2018, gan arwain at naratif cryf ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Fel llawer o bolisiau uchelgeisiol a diwygiedig, mae angen gweithredu Polisi Cynllunio Cymru 10 yn llawn. Ac er bod Llywodraeth Cymru'n parhau â'r gwaith manwl o ail-lunio'r system gyfan, rwyf wedi eu hannog hwy, yr Arolygiaeth Gynllunio ac awdurdodau cynllunio lleol i groesawu pob cyfle sydd ganddyn nhw ar hyn o bryd, fel mynnu mwy gan ddatblygwyr, gwneud y defnydd gorau o amodau wrth reoli datblygu, a monitro canlyniadau cynllunio.

Mae'r **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** yn ddogfen allweddol sy'n gweithio ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru a fydd yn llywio'r cyfeiriad a'r modd y bydd cyfraith gynllunio'n cael ei chymhwyso yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n hanfodol ei bod wedi'i chynllunio i sbarduno cynnydd tuag at y nodau llesiant a'i fod yn atgyfnerthu'r polisi a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru 10. Yn 2019-20, canolbwyntiais fy nghyngor i Lywodraeth Cymru ar y **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** drafft a mynnu ei fod yn:

- Meddwl yn hirdymor.
- Ymateb i dueddiadau'r dyfodol a rhagfynegiadau.
- Mynd i'r afael â'r Datganiad bod yna argyfwng hinsawdd, argyfwng bioamrywiaeth, ac angen datgarboneiddio ein cymdeithas.
- Gwireddu potensial llawn seilwaith gwyrdd.

Gan symud tuag at y lefel leol, rwyf wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ail-lunio'r **Llawlyfr Datblygu Lleol** sy'n cynnig arweiniad i gyrrff cyhoeddus ar sut i osod cynlluniau datblygu lleol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020. Ac rwyf hefyd wedi cynnwys rhanddeiliaid o'r sector cynllunio i gynhyrchu canllawiau ar sut i wneud y gorau o'r Ddeddf wrth lunio cynlluniau a rheoli datblygu. Yn dibynnu ar ganlyniadau'r achosion o COVID-19, byddaf yn cyhoeddi'r rheini yn 2021.

Fel rhan o sicrhau bod y system gyfan yn deall eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, rwyf wedi parhau i ymgysylltu â **Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (Cymru), Cymorth Cynllunio Cymru** ac **Arolygiaeth Gynllunio Cymru**, a chydweithio gyda nhw. Yn ddiweddar, mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi caniatáu neu wrthod apeladau cynllunio ar y sail eu bod yn anghysondeb ag amcanion llesiant a nodau llesiant.



Mae creu lleoedd yn ganolog i wireddu llawer o'r nodau. Rwyf felly wedi bod yn eiriol dros fabwysiadu **'ymagwedd creu lleoedd'** y tu hwnt ac o fewn cynllunio, ymagwedd sy'n gweld gwahanol elfennau cymuned mewn dull hollistig, ac sy'n manteisio ar asedau, ysbrydoliaeth a photensial rhanbarth. Ni ddylid ystyried gwahanol elfennau llesiant bellach fel rhywbeth i'w fasnachu neu ei gyfaddawdu ond ei weithredu fel cyfanwaith integredig.

Mae creu lleoedd yn thema sy'n sail i'm [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#) ac sy'n rhedeg trwy fy nghyngor ar drafnidiaeth, sgiliau, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentindod a thai.

Rwyf hefyd wedi darparu cefnogaeth i gyrff nad ydynt yn dod o dan y Ddeddf ond sy'n bwysig i sbarduno cynnydd a chyflawni yn y meysydd hyn. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- Traddodi darlithoedd i fyfyrwyr cwrs Meistr ym Mhrifysgol Caerdydd ac mewn cynadleddau pensaernïaeth ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynllunio, i sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o gynllunwyr a phenseiri'n deall y ddeddfwriaeth newydd.
- Rhoi cyngor a chefnogaeth fel rhan o weithgor ar ddarparu lleoedd yng Nghymru, dan arweiniad Comisiwn Dylunio Cymru a gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru i greu'r Siarter Creu Lleoedd a chanllawiau ar gyfer y llofnodwyr.
- Gweithio'n agos gyda'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol wrth ddylunio fy nghanllaw cynllunio yn y dyfodol.

Cliciwch **yma** i gael yr argymhellion yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ar gynllunio ac ymagwedd tuag at greu lleoedd.

## Persbectif ar gynllunio gan Chris Roscoe, cyfranogydd yn fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

“ Gyda theulu ifanc yn byw yng nghefn gwlad Cymru, rwy'n aml yn meddwl sut olwg fydd ar Gymru, a'r Byd, pan fyddant yn hŷn. Rwy'n meddwl am y lleoedd y byddan nhw'n byw ynddynt, a'r heriau y byddan nhw'n eu hwynebu. Os byddwn yn parhau fel yr ydym, a fyddan nhw'n gallu byw eu bywydau gorau - neu a oes angen i ni newid? ”

*Hoffwn weld sefydliadau preifat a chyhoeddus yn darparu lefel sylfaenol o wasanaethau corfforol mewn trefi a phentrefi bach yng Nghymru. Nid yw'n anodd i unrhyw un ddarlunio lle sy'n gyfarwydd iddynt gyda stryd fawr sy'n gwywo a rhesi o fusnesau sydd wedi cau. Mae nifer cynyddol o drefi yn awr heb wasanaethau allweddol - ysgol, banc a siopau groser. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach byw yno ac yn gyrru cenedlaethau'r dyfodol i ffwrdd o'u cymunedau.* ”



## Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith eisoes wedi gwneud gwahaniaeth mewn cynllunio?

### Mae enghreifftiau o effaith yn cynnwys:

- **Polisi cynllunio cenedlaethol** yn cael ei ail-lunio'n llwyr i alinio â'r Ddeddf a'n helpu i gyflawni'r nodau.
- Siarter Creu Lleoedd wedi'i ddatblygu a llawer o sefydliadau eisoes wedi ymuno ar draws pob sector.
- Penderfyniadau arolygiaeth cynllunio wedi defnyddio'r Ddeddf (amcanion a nodau llesiant) i wrthod neu ganiatáu apeliadau.
- **Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol** wedi'i ddiweddarau i gyd-fynd â'r Ddeddf.
- Awdurdodau lleol yn dechrau dangos sut maen nhw wedi defnyddio'r Ddeddf yn y broses, a'r Arolygiaeth Gynllunio yn adolygu hyn.
- Cwmnïau ymgynghori fel Mott MacDonald ac Arup wedi cynllunio offer penodol i sicrhau bod eu gwaith yn cyfrannu at weithredu'r Ddeddf yn llawn.
- Mae'r Ddeddf wrth wraidd gwaith Sefydliad Cynllunio Trefol Cymru sy'n cefnogi holl weithwyr proffesiynol cynllunio yng Nghymru a thu hwnt.
- Comisiwn Dylunio Cymru eisoes yn gofyn i'r holl brosiectau y mae'n eu hadolygu ddangos eu cyfraniad i'r nodau llesiant, a'r amcanion llesiant a'u bod yn defnyddio'r pum dull o weithio.
- Cynghorau'n dechrau defnyddio offeryn Gwerth Cynllunio y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol i ddangos buddion ehangach cynllunio a chreu lleoedd.

## Tai fel hawl ddynol sylfaenol

Mae ansawdd y cartrefi rydyn ni'n byw ynnddynt yn torri ar draws bron bob agwedd ar y weledigaeth. A bydd darparu tai digonol i bawb ledled Cymru yn helpu i gyflawni pob nod mewn dull dramatig, **Cydnorth, Llewyrchus, Cyfrifol ar lefel fyd-eang, Mwy Cyfartal, Iachach, Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu, Cymunedau Cydlynus.**

Mae fy **ngweledigaeth** ar gyfer cymunedau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol lle mae tai yn hawl ddynol sylfaenol **yma.**



Credyd: fumigene

Roedd tai yn fater a ddaeth drwodd yn gryf yn fy ngwaith cynnwys gwreiddiol yn 2017 a helpodd fi i osod fy meysydd ffocws ar gyfer fy nhyr yn y swydd.

Mae prinder tai yn effeithio ar lawer mwy o bobl nag o'r blaen. Eleni, mae fy nghyngor i Lywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar yr angen i ddatgarboneiddio ein cartrefi i gyrraedd targedau allyriadau yn ogystal â sicrhau bod ein cartrefi yn gallu addasu i ddemograffeg newidiol. Bydd hyn yn helpu i greu cymunedau **lach a Chydlynus** gyda thai sy'n diwallu anghenion lleol ac nad yw'n tansellio hyfywedd **y Gymraeg.**



Credyd: iCreate

Credyd: iCreate



Credyd: iCreate

Yn 2018, cefnogais yr **Adolygiad o Dai Fforddiadwy** yng Nghymru trwy ddarparu cyngor a sesiynau her gyda'r Panel, gan ddefnyddio arbenigedd o secondiadau o Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru a Chymdeithas Tai Unedig Cymru. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r **Adolygiad** ym mis Mai 2019. Yr ymagwedd ffres, heriol a blaengar ar gyfer tai sy'n helpu i wireddu uchelgeisiau'r Ddeddf, ac sy'n cael ei hyrwyddo gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James AC, yw'r union beth sydd ei angen ar Gymru.

Er mwyn cefnogi hyn, ym mis Ionawr 2020, cyflwynais **Labordy Byw** ar gyfer Adran Dai Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â thîm Tueddiadau'r Dyfodol ei hun. Labordy Byw yw fy lefel fwyaf manwl o gefnogaeth sy'n defnyddio offer

meddwl am y dyfodol i helpu cyrff cyhoeddus i archwilio tueddiadau a datblygiadau a'u canlyniadau ar gyfer datblygu polisiau ac arferion. Unwaith eto, mwynheais berthynas adeiladol â Llywodraeth Cymru yn y gwaith hwn, a helpodd fy ymyriadau i gael yr effaith fwyaf. O ganlyniad, mae'r Adran Dai wedi newid eu persbectif trwy sylweddoli bod ganddynt rôl arwyddocaol i'w chwarae wrth greu cymunedau a sgiliau newydd wrth feddwl am y dyfodol.

### Crynowyd ei effaith gan Emma Williams, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio:

“ Mae'r Labordy Byw wedi newid y ffordd rydyn ni'n meddwl ac yn herio ein gilydd ar hirhoedledd y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud. ”



Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n gweithredu argymhellion yr Adolygiadau [Datgarboneiddio Cartrefi Presennol yng Nghymru](#) a thai fforddiadwy yn ddi-oed, tra hefyd yn sicrhau bod gwir fwriadau'r argymhellion yn cael eu cyflawni ac nad ydynt yn cael eu dyfrio oherwydd cyfyngiadau capasiti.

- Cyfrannu at [waith Dyfodol Tai Cartrefi Cymunedol Cymru](#).
- Cynorthwyo gwaith ar y celfyddydau a thai gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a chymdeithas dai Trevallis ar ystâd Trebannog.

- Datblygu partneriaeth ar gymunedau cydlynol gyda Chymdeithas Dai Unedig Cymru trwy fy Rhaglen Y Gallu i Greu (gweler Pwrpas 3 isod).
  - Rhoi cyngor i Gymdeithas Tai Arfordirol ar sut y gallent ddefnyddio ein Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol wrth gynllunio dylunio ac adeiladu. Dyfarnwyd [cyllid](#) iddynt i adeiladu safonau Passivhaus gan ddefnyddio deunyddiau lleol.
- Cliciwch **yma** i gael yr argymhellion yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ar dai fel hawl ddynol sylfaenol.



“Yn Cartrefi Conwy, rydyn ni wedi bod yn hynod o ffodus i fwynhau diddordeb brwd a chefnogaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â'n gwaith gyda'n tenantiaid a'r gymuned ehangach.

Yn ddiweddar rydyn ni wedi cynnal dau brosiect adfywio cymunedol mawr gyda'r nod o wella ansawdd cyffredinol bywydau pobl ar ein hystadau. Mae'r ddau wedi cyflawni statws 'Baner Werdd' wedi hynny - y cyntaf yng Nghymru! Mynychodd y Comisiynydd agoriad ystâd Tre Cwm yn Llandudno. Cyn torri'r rhuban, cyhoeddodd "Pe bawn i'n gallu potelu a defnyddio'r hyn mae Cartrefi Conwy yn ei wneud dros eu cymunedau, byddai Cymru yn lle llawer gwell yn awr ac yn y dyfodol." Am glod!

Mae'r Comisiynydd a'i thîm bob amser yn gefnogol ac yn ysbrydoledig - elfen annatod wrth ein helpu i ymdrechu i gael Cymru well heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. ”

**Bill Hunt, Cadeirydd Cartrefi Conwy**

## Persbectif ar dai

gan Ashley Bale, cyfranogydd yn fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

“Nid oes amser gwell na heddiw i weithio ar wella gwedd a safonau tai cyfredol, trwy ddull beiddgar ac arloesol. Mae Cymru'n wlad brydferth ac mae ganddi doreth o adnoddau naturiol - o ffynonellau solar, gwynt a llanw.

Un maes sydd heb ei ddatblygu i raddau helaeth, nid yn unig yma yng Nghymru ond ar draws gweddill y DU, yw datblygu'r genhedlaeth nesaf o dai ac ailddatblygu anheddau presennol i gwmpasu'r datblygiadau technolegol a'r datblygiadau diweddaraf.

Mae fy ngweledigaeth ar gyfer dyfodol tai yn wyrdd, yn lân ac yn ymreolaethol; yn darparu cartref diogel ac addasol sy'n galluogi ei ddeiliaid i fyw bywydau boddhaus, wedi'u grymuso, bywydau hwy ac iachach. Rwyf eisoes wedi arsylwi camau gwych a gymerwyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ledled Cymru i ddatblygu tai SMART newydd cynaliadwy, tra hefyd yn ôl-osod, ac uwchraddio anheddau presennol gan ddefnyddio'r technolegau diweddaraf. Mae arnom angen mudiad cydweithredol, gan rannu profiadau a gwybodaeth, i gefnogi datblygiad tai SMART cynaliadwy y gellir eu gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.



Credyd: Coastal Housing

## Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith eisoes wedi gwneud gwahaniaeth ym maes tai?

### Mae enghreifftiau o effaith yn cynnwys:

- Rhaglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru (cyllid o £90 miliwn) bellach yn nodi'n ffurfiol mai ei nod yw 'cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy fel rhan o'r targed 20,000 o dai fforddiadwy ychwanegol mewn ffordd sy'n alinio dyluniad a darpariaeth tai fforddiadwy â saith nod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.' Mae'r Fanyleb Dechnegol a'r Canllawiau hefyd yn adlewyrchu'r nodau hyn.
- Bydd gan **Lywodraeth Cymru** weledigaeth ehangach sy'n canolbwyntio mwy ar y dyfodol ar gyfer tai yng Nghymru o ganlyniad i'm Labordy Byw.
- Mae **Cyngor Abertawe** wedi adeiladu 18 cartref ar gyfer rhentu cymdeithasol wedi'u cynllunio yn unol â safonau ynni isel Passivhaus, sy'n golygu mai ychydig iawn o ynni sydd ei angen arnynt ar gyfer gwresogi ac oeri, gan helpu i gadw biliau tanwydd yn isel a helpu'r amgylchedd. Crewyd swyddi yn sgil y gwaith adeiladu, gan ddarparu cyfleoedd i brentisiaid ynghyd â defnyddio cyflenwyr lleol.
- Mae gan gymdeithas dai **Cartrefi Conwy** is-gwmni eiddo a hyfforddi o'r enw Creating Enterprise sydd wedi cychwyn ffatri 'tai modiwlwr' yng Nghaerdybi, sy'n defnyddio pren i adeiladu cartrefi mewn llai na phythefnos. Mae'r cartrefi'n rhai ynni isel, a all arbed hyd at 90% mewn costau ynni i breswylwyr a thrwy leihau colli gwres mae'r effaith amgylcheddol hefyd mor isel â phosibl.



Credyd: Coastal Housing

Credyd: Coastal Housing



Credyd: Coastal Housing

## Thema drawsbynciol - datgarboneiddio ein cymdeithas

Mae mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio yn thema drawsbynciol sydd wedi rhedeg trwy'r holl waith hwn i helpu i gyflawni'r nodau, yn enwedig Cymru **Lewyrchus, Gydnherth a Chyfrifol yn Fyd-eang.**

Mae fy **ngweledigaeth** ar gyfer dyfodol carbon isel yma.

Rwyf wedi neilltuo llawer o fy amser i helpu i wella a chyflymu datgarboneiddio ein cymdeithas gan fod y newid yn yr hinsawdd yn fater brys a fydd yn dod yn fwy fyth o her i genedlaethau'r dyfodol. Nid yw addasu i newid yn yr hinsawdd yn ddigonol, mae angen i ni fynd i'r afael ag ef.





Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddais [Gynllun Deg Pwynt i ariannu'r Argyfwng Hinsawdd](#) sy'n awgrymu sut y gallai cyllideb Llywodraeth Cymru gynyddu buddsoddiad mewn gweithredu ar yr hinsawdd, gan ganolbwyntio ar:

- Mwy o fuddsoddiad mewn teithio llesol, trafniadaeth gyhoeddus a seilwaith cerbydau trydan.
- Mwy o fuddsoddiad mewn rhaglen genedlaethol ôl-osod tai - gallai canolbwyntio i ddechrau ar gartrefi sy'n byw mewn tldi tanwydd a'r rhai mewn perchnogaeth gymdeithasol gostio hyd at £1 biliwn.
- Cymru'n dod yn hunangynhaliol mewn trydan adnewyddadwy erbyn 2035.
- Cynyddu gorchudd coed a mabwysiadu arferion amaethyddol carbon isel ac ail-ystyried arfer defnydd tir.
- Sicrhau bod datgarboneiddio'n egwyddor allweddol ac yn sbardun ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gynllunio, contractau caffael y sector cyhoeddus a buddsoddiadau cronfa bensiwn a gefnogir gan raglen i hyfforddi sector cyhoeddus sy'n garbon lythrennog.

Roeddwn yn falch o weld dyraniad o £140 miliwn i gefnogi gweithredu ar yr hinsawdd a natur yng nghyllideb 2020-21 Llywodraeth Cymru, yn unol â'r hyn a gynigiais, a hefyd gynydd yn y cyllid ar gyfer trafniadaeth gynaliadwy a theithio llesol.


Rwyf wedi cydweithio gydag ystod o sefydliadau gan gynnwys [Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd](#) a rhanddeiliaid sy'n cynrychioli ynni cymunedol, grwpiau amgylcheddol, [Canolfan y Dechnoleg Amgen](#) ac academyddion, ac wedi gweithio mewn partneriaeth â'r [New Economics Foundation](#) a [Social Finance](#) i drwytho'r gwaith rwyf wedi ei wneud ar ddatgarboneiddio trafniadaeth a'r gyllideb. Llwyddasant i ddarparu arbenigedd mewn meysydd fel asesiadau effaith carbon i dynnu sylw at y modd y gall Llywodraeth Cymru wella'u proses gyllidebol i gefnogi'r argyfwng hinsawdd. Byddaf yn parhau i weithio gyda'r sefydliadau hyn i fonitro'r gyllideb i sicrhau ei bod yn unol â'u huchelgeisiau polisi.

Cliciwch [yma](#) i gael yr argymhellion yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ar y newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio.



Ers dechrau fy nhymor, rwyf wedi cynghori cyrff cyhoeddus bod angen i ni weld gweithredu clir a dyrannu adnoddau i gyd-fynd â'r targedau newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Rwyf wedi cefnogi, herio a darparu fforymau ar gyfer rhannu arfer da yn ymarferol i gynorthwyo cyrff cyhoeddus, yn benodol:

- Cynghori a chefnogi tîm datgarboneiddio Llywodraeth Cymru i ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu rhaglen datgarboneiddio.
- Sicrhau bod y cyngor a ddarperir gan Bwyllgor ar Newid Hinsawdd y DU yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Ymgyfrannu ag ystod o randdeiliaid, ac yn enwedig bobl ifanc, i drwytho fy ngwaith.



## Persbectif ar ddatgarboneiddio

gan Gabriella Nizam, cyfranogydd yn fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

“Mewn byd lle mae ein hinsawdd yn newid ar gyfraddau nad ydynt yn hysbys i ddynolryw, yr unig ddewis sydd gennym yw bod yn gydnerth. I unrhyw berson, yn enwedig y rhai sy'n dechrau cerfio'u llwybrau, yn bersonol ac yn broffesiynol, mae'r cydnerthedd hwnnw'n hollbwysig i lwyddiant ... I mi, mae hyn yn cwmpasu mwy o fuddsoddiad mewn ynni gwyrdd, o fwy o ffermydd gwynt ar y môr fel Gwynt y Môrto, i systemau amaeth-foltaig, sydd yn anelu at ddatblygu symbiosis rhwng systemau foltaig solar a'r defnydd o dir ar gyfer ffermio. Nid yw Cymru gydnerth yn ymladd tân, mae'n mynd i'r afael ag achos sylfaenol ei phroblemau. Mae iechyd a hirhoedledd ein planed yn ein dwylo ni, rydyn ni i gyd yn gyfrifol am y camau rydyn ni'n eu cymryd. Rydyn ni angen arweinwyr beiddgar a dewr. Rwyf am weld pobl yn barod i gwestiynu'r status quo gan fwrw mlaen i weithredu. Nid oes gennym amser i wastraffu.”



## Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith eisoes wedi gwneud gwahaniaeth wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd?

Mae enghreifftiau o effaith yn cynnwys:

- Cynnydd mewn gwario - £140 miliwn ar hinsawdd a natur yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.
- Cyhoeddodd cyngorau tref fel Machynlleth ac awdurdodau lleol gan gynnwys Sir Gaerfyrddin argyfyngau hinsawdd yn 2019, ac yn fuan wedyn daeth Llywodraeth Cymru y llywodraeth gyntaf yn byd i wneud hynny.
- Ymrwymodd Trafnidiaeth Cymru & Metro i 100% o drydan adnewyddadwy ar gyfer pob gorsaf gyda hanner yr ynni hwn yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru, a thrydaneiddio 172 km o drac ar Linellau Craidd y Cymoedd.
- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, cyngorau Caerffili a Chonwy wedi cyflwyno paneli solar ar eu hadeiladau eu hunain ac adeiladau cymunedol fel ysgolion.
- Dylid canmol Cyfoeth Naturiol Cymru am eu hymdrechion i fod yn sefydliad carbon positif. Mae hwn yn faes lle maent wedi arwain y ffordd trwy eu prosiect Carbon Cadarnhaol sy'n cael ei gyflwyno i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.
- Mae Cyngor Sir Fynwy wedi datblygu fferm solar ar dir sy'n eiddo i'r cyngor yn Nghrug sydd â'r gallu i gynhyrchu digon o drydan i bweru tua 1,400 o gartrefi. Bydd hefyd yn arbed dros 2,000 tonn y flwyddyn o CO2 trwy gynhyrchu ynni glân, adnewyddadwy ac mae Riversimple yn paratoi i gynnal treial 12 mis o 20 o geir celloedd tanwydd-hydrogen yn Sir Fynwy.
- Yn dilyn cyngor i holl Ysgrifenyddion y Cabinet, ychwanegwyd datgarboneiddio fel chweched maes blaenoriaeth yn [Ffyniant i Bawb](#).



# Pobl a'u cydnerthedd

Mae fy meysydd blaenoriaeth hefyd yn canolbwyntio ar bobl a'u cydnerthedd fel prif gyfrannwr neu atalydd llesiant yng Nghymru, yn enwedig o ran sgiliau, iechyd a lles ac atal niwed i blant (Profadau Niweidiol yn ystod Plentyndod).

## Atal Profadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

**Llewyrchus, Iachach, Mwy Cyfartal, Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymunedau Cydlynus.**

Mae fy **ngweledigaeth** o Gymru heb Brofadau Niweidiol yn ystod Plentyndod **yma**.


Mae atal yn un o'r ffyrdd statudol o weithio ac rwy'n cydnabod yr effaith y mae **profadau niweidiol yn ystod plentyndod** (ACEs) yn gynnar mewn bywyd yn ei gael ar gyfleoedd bywyd pobl, cymdeithas, y nodau llesiant a chenedlaethau'r dyfodol. Mae atal y rhain rhag digwydd yn allweddol, a lle maent wedi digwydd, ac mae angen i ni eu hatal rhag cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Mae'r rhain yn faterion cymhleth. Mae angen i lawer o'n

gwasanaethau cyhoeddus gydweithredu i wneud i hyn ddigwydd gan na all unrhyw un ddatrys hyn ar ei ben ei hun. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda iawn â'r Ddeddf Llesiant sy'n cyflwyno dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gydweithredu, integreiddio gwasanaethau a chymryd agwedd ataliol wrth wneud penderfyniadau.





Credyd: Camau Cynnar gyda'n Gilydd


Eisoes mae cyfoeth o ymchwil yn cael ei wneud ar ACEs gan lechyd Cyhoeddus Cymru ac eraill. Fy ffoecs i oedd helpu i godi proffil ACEs o fewn y cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf a'u helpu i wneud y cysylltiadau â materion polisi eraill fel tai, cyfle cyfartal, diogelwch cymunedol, yr amgylchedd lleol ac ati. Rwyf hefyd wedi cefnogi datblygiad [Hwb Cymorth ACE](#) sy'n canolbwyntio ar yrru newid sefydliadol.



## Roedd 50 o bob 100 o bobl yng Nghymru wedi cael o leiaf un ACE, ac 14 wedi cael pedwar neu fwy



Credyd: Iechyd Cyhoeddus Cymru



Mae gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ran bwysig i'w chwarae i annog cydweithredu ac integreiddio. Ym mis Gorffennaf 2019, cyflwynais Labordy Byw ar ACEs gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf. Defnyddiodd y 30+ o fynychwyr o wasanaethau ar draws ardal Cwm Taf y Ddeddf a'r pum dull o weithio i herio eu hunain a'u meddwl. Archwiliodd y broses yr hyn sy'n gweithio'n dda, herio rhwystrau canfyddedig a nodi ffyrdd o symud mor bell â phosibl yn y ffordd gyflymaf bosibl, er mwyn galluogi newid ar draws y system mewn perthynas ag ACEs a gwasanaethau cysylltiedig. Ar y diwedd, cynigiodd y grŵp y blaenoriaethau canlynol:

- Sicrhau bod cymunedau'n deall ac yn diffinio drostynt eu hunain eu rôl wrth ddarparu perthynas rhwng pobl, amgylcheddau a gwasanaethau meithrin diogel a sefydlog.
- Gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a chyrrff comisiynu eraill i ddeall a gweithredu'r mesurau cywir fel y bydd ymddygiadau gwasanaeth yn newid.



*“ Un o'r pethau mwyaf pwerus sydd wedi bod ynglŷn â hyn yw'r cyfuniad gwych o drylwyredd deallusol a gweithredu, ac mae wedi darparu ar gyfer llawer o wahanol arddulliau dysgu, a heddiw rydyn ni wedi darganfod yr union beth rydyn ni'n mynd i'w wneud. ”*

**Kelechi Nnoaham, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

Rwy'n gweithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf i fynd ar drywydd y canlyniadau y cytunwyd arnynt yn y Labordy Byw, ac rwyf hefyd yn gwneud y cysylltiadau rhwng lleihau ACEs mewn meysydd eraill o fy ngwaith fy hun - er enghraifft, y cyngor yr wyf yn ei ddarparu i wasanaethau cyhoeddus ar newid system iechyd, sgiliau ar gyfer y dyfodol, tai a gwariant y llywodraeth lle rwyf am weld mwy o arian ar gyfer atal.

Cliciwch **yma** i gael yr argymhellion yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ar Brofadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.



**Persbectif ar ACEs  
gan Alexandra Fitzgerald,  
cyfranogydd yn fy  
Academi Arweinyddiaeth  
Cenedlaethau'r Dyfodol.**

“ Mae 14% o oedolion yng Nghymru wedi profi 4 ACE neu fwy. Mae'r gwahaniaeth rhwng plentyn, nad yw wedi cael ACE, ac oedolyn y mae'n tyfu i fyny i fod yn rhyfeddol. Mae oedolion a brofodd 4 neu fwy o ACE 14 gwaith yn fwy tebygol o ddiodeff traïs ac maent 20 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi eu carcharu ar unrhyw adeg yn ystod eu hoes. Mae ACEs a'u heffeithiau ar fywyd ac ymddygiad unigolyn yn cael eu deall yn ehangach gan amrywiol asiantaethau gwahanol a'r cyhoedd yn gyffredinol. Rwy'n credu bod hwn yn gam cadarnhaol i'r cyfeiriad cywir ar gyfer lleihau nifer y bobl sy'n cael eu heffeithio gan ACEs. Fy ngobaith yw y byddwn yn parhau i symud i'r cyfeiriad hwn ac yn codi ymwybyddiaeth bellach o ACEs a'r effeithiau. ”



**Sut mae'r Ddeddf a'n  
gwaith eisoes wedi gwneud  
gwahaniaeth ym maes ACEs?**

**Mae enghreifftiau o effaith yn cynnwys:**

- Mae'r Hwb ACEs yn symud o godi ymwybyddiaeth i sbarduno newid sefydliadol. Rwyf wedi eu helpu i gwmpasu'r gwaith hwn, ac mae elfennau allweddol ohono'n cynnwys ymgorffori a chynnal arfer sy'n seiliedig ar drawma ar draws gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau.
- Mae miloedd o weithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr cymunedol, clybiau chwaraeon, gweithwyr ieuencid a'r gweithlu troseddu ieuencid wedi derbyn hyfforddiant, ac mae traean o'r holl ysgolion wedi'u hyfforddi trwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth. Mae'r gwelliant sylweddol hwn mewn ymwybyddiaeth o ACE's i raddau helaeth yn ganlyniad i waith yr Hwb ACE.
- Mae gan **Iechyd Cyhoeddus Cymru** amcan llesiant i 'adeiladu gallu a chefnogi newid system, amddiffyn a gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau a gwreiddio gweithio gwybodus ACEs. Maent wedi datblygu partneriaeth gyda **Cymuned Tai Cymru** i nodi ymagweddau tuag at ACEs mewn tai a datblygu gwaith ar ACEs a digartrefedd.

**Sgiliau nid yn unig ar gyfer  
gwaith, ond ar gyfer bywyd  
sy'n cael ei fyw yn dda**

Mae fy **ngweledigaeth** i arfogi pobl â'r sgiliau nid yn unig ar gyfer gwaith ond bywyd sy'n cael ei fyw yn dda yma.

Mae addysg a'r cyfle i ddatblygu'r set gywir o sgiliau yn un o benderfynyddion mwyaf arwyddocaol canlyniadau bywyd, gan gynnwys iechyd a disgywiliad oes. Tra bo'r pwnc 'sgiliau' yn ymddangos amlaf mewn amcanion a chamau a osodir gan gyrff cyhoeddus, yn y mwyafrif o achosion, mae'r amcanion hyn yn ceisio cwrdd â galw'r economi gyfredol, ac nid ydynt yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach ar yr un pryd. Mae'r ffocws cul hwn yn cyfyngu o gwmpas yr hyn y gellir ei gyflawni, gan gollu cyfleoedd i wella sgiliau mewn diwydiannau carbon isel, sicrhau bod y cyfleoedd sydd ar gael yr un fath i bawb a bod dysgu'n gwella iechyd ac ansawdd bywyd pobl.


Fe wnaeth ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhanddeiliaid eraill yn 2018 fy helpu i nodi bod y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru'n gyfle i sicrhau bod gan ein plant, pobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol y sgiliau i reoli cyfleoedd a heriau.



## Darllenwch fwy

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi gweithio gyda'r Athro Calvin Jones o Ysgol Fusnes Caerdydd i gyhoeddi 'Addysg Addas ar gyfer y Dyfodol yng Nghymru' - papur gwyn i'w drafod, wedi'i amseru i ddiwydd yn ystod yr ymgyngoriad ar y cwricwlwm newydd 2022. Yn ystod y prosiect, gwneuthum ennyn ymgyfraniad ystod eang o bobl, gan gynnal gweithdai rhanddeiliaid a rhai'n pontio'r cenedlaethau, i ystyried pa rannau o strwythur addysgol Cymru sydd eisoes yn addas at ddben y dyfodol, y rhai y mae angen iddynt newid - yn gymedrol neu'n radical - ac a ddylid dileu unrhyw beth neu ei ddyfeisio o'r newydd. Mae'r papur gwyn, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, yn galw am:

- Ddysgu sy'n cael ei greu a'i ddarparu mewn partneriaeth â busnesau, elusennau ac eraill.
- Ail-feddwl yn radical am gymwysterau yn 16 oed. Nid yw TGAU bellach yn addas at y diben a dylent adlewyrchu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru 2022.
- Aseidiadau sy'n ffocysu ar amrywiaeth ac sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion, nid ar brofi, gan ddarparu mwy o werth a budd academaidd.



Yn ogystal ag edrych ar addysg orfodol, mae ein hadroddiad hefyd yn ystyried yr effaith a gaiff awtomeiddio a'r byd sy'n newid ar waith, gan gynhyrchu elfen o'r 'daith tuag at Gymru lewyrchus' ar "Sgiliau ar gyfer y Dyfodol: gan annog sefydliadau i ddatblygu poblogaeth fedrus, addas ar gyfer newid technolegol yn y dyfodol."

Ar yr adeg hon, roeddwn yn aelod o'r panel arbenigol ar gyfer yr Adolygiad o Arloesi Digidol, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Dan gadeiryddiaeth yr Athro Phil Brown, trwythodd yr adolygiad fy ngwaith ehangach ar 'Sgiliau ar gyfer y Dyfodol' ac rwy'n cefnogi argymhellion yr [adroddiad terfynol](#), a cyhoeddwyd ym mis Medi 2019.



Ac mae'r ymateb i'm Papur Gwyn wedi bod yn gadarnhaol.

“ Mae'r adroddiad hwn yn gyfraniad defnyddiol iawn i'r ddatl ynghylch sut i gynyddu i'r eithaf effaith yr agenda diwygio addysg yng Nghymru. Mae'n datgelu rhai o'r cyfleoedd a'r risgiau ac yn gwahodd meddwl o'r newydd am bosibiliadau....

Cyhoeddiad meddylgar.”

Mick Waters, Cadeirydd y panel ar gyfer 'Ail-ddychmygu ysgolion'

Rwy'n parhau i gynghori Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru wrth iddynt weithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru ac ystyried y dull asesu disgyblion yn 16 oed. Mae'r Gweinidog Addysg wedi cyhoeddi adolygiad o 'Ail-ddychmygu Addysg', sy'n rhoi cyfle i ystyried sut y gall addysg ac ysgolion gael effaith ehangach ar lesiant ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

O ran addysg ôl-orfodol, bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar waith o 2022, gan ddarparu cyfle sylweddol i ddatblygu gweledigaeth hirdymor ar gyfer dysgu ôl-16. Bydd angen i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gymryd agwedd fwy integredig sy'n canolbwyntio ar y dyfodol gyda chyrrff cyhoeddus lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, er mwyn gwireddu uchelgais y Comisiwn newydd.

Rwyf hefyd wedi darparu cefnogaeth i gyrrff cysylltiedig nad ydynt yn dod o dan y Ddeddf ond sy'n bwysig ar gyfer sbarduno cynnydd yn y meysydd hyn. Er enghraifft, rwyf wedi:

- Rhoi cyngor i Goleg Cambria ar ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu gwaith. Maent yn awr wedi ei defnyddio i ddatblygu Cynllun Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n nodi sut y byddant yn cyfrannu at y nodau llesiant.

- Darparu cyngor a chefnogaeth i Grŵp Cenedlaethau'r Dyfodol [Canolfan Rhagoriaeth Rhanbarthol Cymru](#) a Phrifysgolion Cymru, sydd wedi defnyddio'r Ddeddf i greu 'canolbwynt arbenigedd' ar gyfer addysg ar ddatblygu cynaliadwy ar draws wyth prifysgol yng Nghymru hyd yma.

- Darparu cefnogaeth i Brifysgol De Cymru, Prifysgolion Caerdydd, Bangor ac Abertawe ar ffurf darlithoedd i'w myfyrwyr.

- Cynnwys arweinwyr busnes yn fy ngwaith mewn digwyddiadau fel cynhadledd flynyddol Ffederasiwn Hyfforddi Cenedlaethol Cymru a digwyddiadau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol; gweithio gyda [Adeiladu Arbenigedd yng Nghymru](#) ar nifer o ddigwyddiadau, gan arwain at y sector adeiladu yn gofyn am fod y '45fed corff a gwmpesir gan y Ddeddf,' a gweithio'n agos gyda Busnes yn y Gymuned, gan hyrwyddo'r Ddeddf trwy eu haelodaeth.

- Cyfrannu at Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus yr Alban, gan fframio'r ddadl o amgylch y Ddeddf, ar eu hadroddiad diweddar: "[System sgiliau 21ain ganrif i Gymru](#)"

- Rwyf hefyd wedi gweithio gyda'r [Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru](#), sefydliad bychan annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i ddod ag eglurder a chydlyniant i arweinyddiaeth addysg. O ganlyniad



i fy mewnbyn, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth o'r Ddeddf a sut y gallant gyfrannu, fel y mae'r blog hwn [gan gydymaith](#) yn ei ddisgrifio, ac maent wedi fframio'u dau 'alwad i weithredu' ar y Ddeddf. Gofynnodd yr astudiaeth gyhoeddgedig gyntaf 'Sut fedr arweinwyr alluogi cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel sy'n gwella llesiant ac sy'n sicrhau canlyniadau gwell i bawb?' Ac mae'r ail alwad i weithredu wedi'i fframio o amgylch un o'r nodau llesiant: 'Beth yw rôl addysgol arweinyddiaeth wrth wireddu gweledigaeth Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu?'

Mae'n werth nodi, o'r 345 amcan llesiant a gyhoeddwyd yn 2018 gan gyrrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus, bod 111 yn ymwneud â sgiliau a gweithlu ar gyfer y dyfodol - y nifer uchaf ar draws fy meysydd ar gyfer newid.

Cliciwch [yma](#) i gael yr argymhellion yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ar sgiliau ar gyfer y dyfodol.



### Persbectif ar sgiliau gan Helen Atkinson, cyfranogydd yn fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

“Wrth i ni groesawu technoleg ac awtomeiddio, mae'n dod â her i'n gweithlu ac i'n dinasyddion - gallai beri i bobl deimlo nad yw eu sgiliau'n berthnasol mwyach neu nad ydyn nhw wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer eu rôl. Rwyf am weld Cymru lle nad yw pobl yn ofni newid a datblygiadau mewn technoleg, ond yn lle hynny yn teimlo eu bod yn barod i weithio gyda'r datblygiadau hyn. Mae'r newidiadau i'r cwricwlwm sy'n cael eu cyflwyno wedi fy nghyffroi, gan fy mod yn credu y byddant yn darparu sgiliau trosglwyddadwy i'n myfyrwyr y gallir eu defnyddio nid yn unig yn eu hastudiaethau ond hefyd ym myd gwaith. Bydd y cyfle i bobl ifanc ymgysylltu â gweithredu cymdeithasol yn rhoi'r sgiliau meddalach iddynt fel empathy, cyfathrebu a chreadigrwydd sydd eu hangen ym mhob rôl. Bydd hefyd yn rhoi cyfle iddynt brofi gwirfoddoli dros achos y maent yn angerddol amdano ac yn eu hannog i wneud gwahaniaeth yn eu cymuned... Mae gofalu a bod yn berchen ar dosturi yn rhywbeth na ellir ei ddisodli gan awtomeiddio a bydd ganddo le yn y byd bob amser.”



## Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith eisoes wedi gwneud gwahaniaeth i 'sgiliau ar gyfer y dyfodol'?

### Mae enghreifftiau o effaith yn cynnwys:

- Dyluniwyd *Cwricwlwm Newydd i Gymru 2022* gyda llesiant wrth ei wraidd, ac i'n helpu ni, fel cenedl, i gyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. Yng nghyfarwyddyd fframwaith y cwricwlwm mae ysgolion a lleoliadau addysg eraill yn cael eu hannog i ddefnyddio'r pum dull o weithio ac i ymroi i geisio cyfrannu at y nodau llesiant. Mae'r cwricwlwm hefyd yn mabwysiadu golwg hirdymor, gan roi pwys mawr ar greadigrwydd, sgiliau digidol a datrys problemau, gan fod y rhain yn sgiliau y rhagwelir y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol oherwydd eu bod yn anodd eu hawtomeiddio.
- Mae nifer o gynlluniau addysgol yn cael eu datblygu neu eisoes yn bodoli sydd wedi'u seilio ar y Ddeddf, gyda'r nod o ddysgu eco-lythrennedd, datblygu cynaliadwy a sgiliau i blant a phobl ifanc ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Er enghraifft, [Coleg y Mynyddoedd Du](#) ym Mhowys, [Sector 39](#) hefyd ym Mhowys a [Cymbrogi Futures](#) yn Sir Benfro.
- Mae llawer o ysgolion a cholegau yng Nghymru wedi mabwysiadu'r dulliau o weithio a nodir yn y Ddeddf i gyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. Er enghraifft, mae llawer o ysgolion wedi ymuno â'r rhaglen fyd-eang [Eco-Sgolion](#) ac wedi cyflwyno mentrau fel dal dŵr glaw, gerddi ysgolion a mentrau arbed carbon; mae rhai ysgolion yn cydnabod effaith adfyd a brofir yn ystod plentyndod ac wedi gwneud atal yn ganolbwynt eu hethos; ac mae eraill wedi cydnabod yr angen am sgiliau hirdymor ac wedi rhoi creadigrwydd a chyfathrebu yn gyntaf.
- Mae'r adolygiad o arloesedd digidol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, 'Cymru 4.0 Cyflwyno Trawsnewid Economaidd ar gyfer gwell dyfodol gwaith' (2019), yn cydnabod mai'r Ddeddf yw'r fframwaith ar gyfer datblygu ymateb economaidd a chymdeithasol Cymru i effaith newid technolegol ac awtomeiddio, gydag argymhellion wedi'u hanelu at Lywodraeth Cymru i gymhwyso'r Ddeddf a chydabod yr angen am sgiliau hirdymor yng Nghymru.
- Mae sefydliadau addysg bellach ac uwch yn gweithio ar y cyd â chyrrff cyhoeddus, yn aml trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a chyflogaeth i bobl leol.
- Mae llawer o fusnesau Cymru wedi croesawu'r Ddeddf, gan gyflogi pobl leol, ceisio rhoi yn ôl i'w hardaloedd, aildefnyddio ac ailgyflenwi deunyddiau, ceisio cael effaith amgylcheddol isel, gan seilio'u gwerthoedd a'u pwrpas ar gynaliadwyedd. Yn syml iawn, dywedodd Cyrchfan Parc Cenedlaethol Bluestone: "Mewn gair: ceisiwch beidio â gwneud unrhyw beth heddiw y bydd yn rhaid i'n plant dalu amdano yfory."

## Symud gwariant ar iechyd tuag at atal a chadw pobl yn iach


Iechyd da yw un o brif flocciau adeiladu lles a chyfle ac mae galluogi pobl i fyw mor iach â phosibl yn creu manteision a chysylltiadau ar draws yr holl nodau llesiant.

Mae fy ngweledigaeth ar gyfer Cymru lle mae gennym well ddulliau o gadw pobl yn iach **yma**.

Buddsoddir y rhan fwyaf o gyllideb Llywodraeth Cymru yn y GIG, sy'n canolbwyntio i raddau helaeth ar drin pobl sy'n sâl, oherwydd pwysau'r galw ac oherwydd bod y gallu i gadw pobl yn iach y tu hwnt i reolaeth y GIG. Mae'r pwysau ar y GIG a lefelau salwch ar draws ein cymunedau wedi cael eu hamlygu gan y pandemig COVID 19. Mae llawer o wasanaethau sy'n cefnogi iechyd pobl yn profi dadfuddsoddi, er enghraifft, tai, cyfleusterau cymunedol, cymorth ieuencid (**Cymunedau Cydlynus**), cyflogaeth a chymorth sgiliau (**Llewyrchus**) a chefnogaeth ar gyfer amgylchedd naturiol iach (**Cydnerth**).

Nid yw'r cynnydd yn y galw am wasanaethau iechyd yn gynaliadwy ac mae'n amlwg na all barhau, felly mae'n rhaid symud i atal salwch a rhoi blaenoriaeth i gadw pobl yn iach.

Mae gwledydd ledled y byd yn mynd i'r afael â heriau poblogaethau afiach sy'n heneiddio. Rwyf am i ni ddefnyddio ein deddfwriaeth unigryw yng Nghymru i gael sgwrs onest am ba fuddsoddiad gwahanol sydd ei angen i gynyddu iechyd a chydnerthedd ar draws ein poblogaeth, ac i ymgorffori atal ar draws gwasanaethau, ac yn y pen draw leihau'r galw ar y GIG a gwasanaethau aciwt eraill.



Credyd: Mary Mooney




Neges allweddol o fy **monitro ac asesiad statudol o gyrff cyhoeddus yn 2019** yw bod ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at fesur a rheoli perfformiad y GIG yn aml yn cael ei nodi fel rhwystr allweddol i newid, nid yn unig i gyrff iechyd ond i wasanaethau cyhoeddus ehangach. Rwyf wedi cynghori'r Llywodraeth y gallent wneud mwy i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trwy alinio'n well â gofynion y Ddeddf wrth fesur perfformiad, dyrannu cyllid a rhyngweithio o ddydd i ddydd gyda'r byrddau iechyd.



Mae fy nghyngor i Lywodraeth Cymru yn y maes hwn eleni wedi parhau i ganolbwyntio ar sut y gallant alinio eu rheolaeth o'r GIG yn well â'r ymagweddau hirdymor ac ataliol y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ceisio eu creu.

Rwyf wedi gweithio mewn partneriaeth ag **lechydcyhoeddus Cymru** ar nifer o feysydd, gan gynnwys fy rhaglen Y Gallu i Greu a'n gwaith ar y cyd ar y dyfodol. Rwyf hefyd wedi bod yn rhan o'r gwaith 'Adeiladu Cymru Iachach' y maent wedi bod yn ei arwain ar ran Llywodraeth Cymru.



Mae hanes hir o weledigaeth a dogfennau strategaeth sy'n cyflwyno'r achos dros newid system i atal, ond nid ydym mewn gwirionedd yn gweld hyn yn cael ei weithredu. Ers i'r Ddeddf ddod i rym, bu rhai newidiadau cadarnhaol i ymagweddau mwy ataliol, rhai ohonynt yn ystyried penderfynyddion ehangach iechyd, ond mae graddfa a chyflymder y newid yn rhy araf ac mae'r pwysau ar y GIG a gwasanaethau aciwt eraill, a chenedlaethau'r dyfodol yn wynebu bom sy'n tician.

“*Fe wnaeth [eich gwaith] amlygu gwerth Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'i Chomisiynydd. Roedd yn galonogol iawn i weld llawer o'r pethau rydyn ni wedi bod yn galw amdany'n nhw yn Lloegr eisoes yn digwydd yng Nghymru.*”

Y Sefydliad Iechyd

Credyd: Clementine mom

Dyma'r rheswm pam rwy'n ystyried y ffordd orau o ddefnyddio fy mhwerau i ysgogi newid ar y raddfa a'r cyflymder sydd eu hangen. Rwy'n cydweithredu gyda grŵp o sefydliadau sydd ag arbenigedd perthnasol gan gynnwys **y Sefydliad Iechyd, Comisiwn Bevan, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Social Finance** i archwilio'r ymagwedd fwyaf effeithiol ar gyfer sicrhau bod y Llywodraeth yn mabwysiadu'r system llesiant cenedlaethol yr wyf yn galw amdani.

Yn ogystal â hyn, rwyf wedi darparu cefnogaeth i gyrff cysylltiedig nad ydynt yn dod o dan y Ddeddf ond sy'n bwysig i sbarduno cynnydd yn y meysydd hyn:

- Cyfrannu at waith [Y Sefydliad Iechyd](#) yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniadau ehangach iechyd a rôl llywodraeth leol.
- Rhoi cyngor a chefnogaeth i gyrff iechyd nad ydynt wedi'u rhestru yn y Ddeddf gan gynnwys Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

- Wedi cefnogi gwaith [Cymdeithas Ddysgedig Cymru](#) ar iechyd planedol.
- Cefnogi gwaith Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru, yn enwedig o ran tynnu sylw at enghreifftiau o arfer da yn nhermau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Wedi gweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i sicrhau bod barn y sector gwirfoddol yn cael ei hadlewyrchu yn fy ngwaith ar iechyd, gan gynnwys drwy [Cefnogi Trydydd Sector Cymru](#).

Cliciwch **yma** i gael yr argymhellion yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ar iechyd a chadw pobl yn iach.

### Persbectif ar iechyd a chadw pobl yn iach

gan Hayley Rees,  
cyfranogydd yn fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

“Hoffwn weld mwy o arian i gefnogi iechyd meddwl oedolion ifanc. O fy mhrofiad fy hun fel oedolyn ifanc, roeddwn i'n ei chael hi'n anodd ennill y gefnogaeth yr oeddwn ei hangen ar gyfer anhwylder bwyta a waethygodd yn fy ugeiniau cynnar. Roedd gan y gwasanaethau arbenigol a oedd yn bodoli restrau aros helaeth neu cawsant eu capio ar gyfer y rhai dan 18 oed. Roedd hyn yn golygu, yn aml, mai dim ond y rhai a allai fforddio gwasanaethau preifat oedd â siawns o gael y gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt. Yn bersonol, cefais fy nghalonogi gan y gefnogaeth anhygoel a gynigiwyd gan y sector gwirfoddol, yn enwedig gan Mind Cymru a gynigiodd bob math o gefnogaeth. Rwy'n credu y dylid cynnwys strategaethau ar gyfer iechyd meddwl personol h.y. yoga a myfyrdod yn y system addysg, a all gynorthwyo pobl ifanc i ofalu am eu hiechyd meddwl trwy gydol eu hoes.”



### Persbectif ar iechyd a chadw pobl yn iach

gan Bethany Roberts,  
cyfranogydd yn fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

“Rwyf am weld dyfodol lle mae iechyd yn cael ei ystyried yn y termau ehangaf posibl – llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol, ac nid absenoldeb salwch yn unig. Nid yw gwella iechyd yn rhywbeth y gall gwasanaethau wneud ar eu pennau eu hunain; mae angen help sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda chymunedau arnynt. Pan fydd pob sector yn gweithio gyda'i gilydd i frwydro yn erbyn un mater, fel gyda'r pandemig Coronafrws presennol, gellir cyflawni mwy i amddiffyn a chadw pobl yn iach, a'u cefnogi pe byddent yn mynd yn sâl. Rwy'n angerddol am bwysigrwydd atal a lle mae sefydliadau o wahanol sectorau'n gweithio gyda'i gilydd i atal salwch rhag datblygu. Er enghraifft, trwy gael sefydliadau i weithio gyda'i gilydd i wella tai nawr, bydd gennym ddyfodol lle nad oes gan gartrefi leithder a llwydni mwyach, gan arwain at blant yn dod yn llai tebygol o ddatblygu problemau ysgyfaint.”





## Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith eisoes wedi gwneud gwahaniaeth mewn iechyd?

### Mae enghreifftiau o effaith yn cynnwys:

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe** yw'r bwrdd iechyd cyntaf yng Nghymru (a'r ail yn y DU) i ennill statws 'baner werdd' yn Ysbyty Glanrhyd. "*Po fwyaf rydyn ni'n ei wneud, y mwyaf rydyn ni'n meddwl y gallwn ni ei wneud*". Maent yn gweld statws y faner werdd fel cam cyntaf ac maent bellach yn edrych ar gyfleoedd manau gwyrdd eraill, gan nodi enghreifftiau o Erddi Botaneg Abertawe a gardd synhwyraidd yn Ysbyty Treforys. Dywed eu Hadroddiad Blynyddol: "*Ers i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddod i fodolaeth, mae cysylltiadau wedi'u creu â chyrrff eraill yng Nghymru sy'n gyfrifol am stiwardiaeth yr amgylchedd naturiol.*"
- Er nad yw'n gorff a enwir o dan ddeddfwriaeth, mae **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru** hefyd yn croesawu ac yn defnyddio egwyddorion llesiant cenedlaethau'r dyfodol.
- Mae gan **Pen-y-bont ar Ogwr** gydlynwyr cymunedol lleol i helpu pobl i ddatblygu eu cryfderau, eu llesiant a'u cydnheredd trwy wneud cysylltiadau â rhwydweithiau ac adnoddau lleol. Yn ystod 2017-18, cawsant 116 o atgyfeiriadau. Mae un agwedd ar eu gwaith wedi gweld cefnogaeth i bobl yn symud o ofal wedi'i reoli, i gefnogaeth fwy lleol a chymunedol, ymagwedd gost-effeithiol a ryddhaodd £216,000 o amser gwaith cymdeithasol i gefnogi galwadau eraill.
- Mae **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent** yn cyflwyno rhaglen i drawsnewid cefnogaeth iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Nod Rhwydweithiau Llesiant Integredig yw datblygu ymagwedd seiliedig ar le tuag at lesiant, gan ddod ag ystod o asedau llesiant ynghyd mewn cymunedau sy'n cyfrannu at iechyd a llesiant cadarnhaol.
- Mae'r **Hybiau Cymunedol MI FEDRAF** newydd a ariennir gan Gronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru yn fannau cymunedol a fydd yn agor yn Llandudno, y Rhyl a Phrestatyn. Byddant yn cynnig cyfle i bobl drafod eu problemau a chael mynediad at y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Byddant yn dod ag ystod o sefydliadau ynghyd o dan yr un to i gefnogi pobl sy'n cael trafferth gyda materion yn ymwneud ag iechyd meddwl, problemau cyffuriau neu alcohol, perthynas sy'n chwalu, anawsterau cyflogaeth, profedigaeth, dyled, tai ac unigrwydd. Fe'u cefnogir gan rwydwaith o wirfoddolwyr a staff o asiantaethau cymorth, a fydd yn gweithio'n agos gyda meddygfeydd yn yr ardal i sicrhau bod pobl yn derbyn y gefnogaeth amserol sydd ei hangen arnynt.
- Ym **Mhowys**, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn datblygu ymagwedd newydd tuag at hyrwyddo llesiant. Maent yn disgrifio hyn fel "*cyfle unwaith mewn oes i greu campws llesiant aml-ghenedlaeth sy'n pontio'r cenedlaethau a fyddai'n cynnwys addysg gynradd, iechyd, gofal cymdeithasol a llety â chymorth*".
- Woffington House yn Tredegar oedd y cartref gofal cyntaf yng Nghymru i arwyddo Siarter Cynhwysiant Digidol Cymru a chyflawni'r achrediad dilynol. Mae plant o ysgolion lleol yn mynd i'r cartref i gyflwyno technoleg ddigidol. Mae hefyd yn cael effaith fawr ar lesiant pobl (preswylwyr a staff.)

## Themâu trawsbynciol - cyllideb a chaffael


Cyllid a chaffael yw dau o'r meysydd corfforaethol ar gyfer newid yn y Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar weithredu'r Ddeddf. Disgwylir i gyrrff cyhoeddus ddefnyddio'r Ddeddf yn y meysydd gweithredol penodol hyn, ac rwyf wedi dewis canolbwyntio ar y ddau hyn oherwydd bod pŵer y pwrs yn parhau i fod yn ffactor allweddol wrth weithredu unrhyw bolisi. Rwyf wedi gwneud rhai ymyriadau rhagweithiol sy'n ceisio gwella'r systemau cyllid a gwneud penderfyniadau sy'n sail i wasanaethau cyhoeddus, oherwydd ar adegau o lymder a Brexit mae angen i ni sicrhau bod pob ceiniog a wariwn yn cynyddu ei chyfraniad i bob un o'r pedwar dimensiwn o lesiant.

Roeddwn i'n gallu gweld bod penderfyniadau yn y ddau faes hwn yn gweithredu fel rhwystrau yn lle bod yn gyfleoedd i helpu i gyflawni'r nodau llesiant, yn enwedig **Cydnherth, Llewyrchus, Cymunedau Cydlynus, Iachach** ac yn **Gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang**.



**Cyllideb Llywodraeth Cymru** yw'r penderfyniad unigol mwyaf (neu'r set o benderfyniadau) a wneir gan gorff cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn. Yn ogystal â phenderfynu sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hariannu, mae'r broses gyllidebol a phenderfyniadau yn anfon arwyddion pwysig am flaenoriaethau ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus ac yn dangos a yw'r blaenoriaethau hynny'n newid i wireddu dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rwyf wedi neilltuo adnoddau sylweddol i fonitro ac asesu'r gyllideb ddrafft dros dair blynedd yn olynol ac wedi darparu cyngor i'r Llywodraeth a thystiolaeth i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2017, [2018](#) a [2019](#).



Yn aml nid yw strwythurau traddodiadol Llywodraeth Cymru (a chyrrff cyhoeddus eraill) sy'n gweithredu mewn seilios, wedi'u cynllunio i alluogi ymagwedd integredig tuag at wneud penderfyniadau ariannol. Mae portffolios cabinet yn aml yn canolbwyntio ar sbarduno canlyniad penodol ac mae'r ffordd y mae'r grwpiau cyllido'n dal i gael eu trefnu'n golygu bod gwneud penderfyniadau cydweithredol sy'n ystyried achosion ac effeithiau materion allweddol sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol yn heriol.

Mae'r gwaith yr wyf wedi'i wneud gyda Thrysorlys Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan weithio gyda'r [New Economics Foundation](#) a [Social Finance](#) wedi arwain eleni at gyhoeddi [Cynllun Gwella'r Gyllideb](#) sy'n nodi natur dybiedig y cynnydd o sabwynt Llywodraeth Cymru, yn nhermau'r broses gyllidebol yn alinio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae hyn yn cynnwys rhai gweithredoedd cadarnhaol. Mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn cadw at ei hamserlenni ei hun ac yn annog dulliau tebyg mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill sydd â rolau pwysig i'w chwarae mewn perthynas ag atal, fel llywodraeth leol.

Dylai Llywodraeth Cymru hefyd osod esiampl i gyrff cyhoeddus trwy ddangos yn fwy penodol sut mae polisiau ar draws adrannau wedi'u hintegreiddio, gan gynnwys dangos sut mae'r costau a werir gan un adran yn darparu buddion neu arbedion i un arall.

Dylai cyllidebau gael eu blaendorri ar gyfer gwariant penodol ar atal, a'u dyrannu i'w gwario ar gyflawni'r blaenoriaethau trawsbynciol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n atgyfnerthu eu hamcanion llesiant, dan oruchwyliaeth y Gweinidog Atal. Er gwaethaf nifer o raglenni sydd ag atal fel egwyddor graidd, nid yw'n glir sut mae ymagweddau ataliol yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws y Llywodraeth neu o fewn adrannau.

Ar hyn o bryd, mae cyfleoedd yn cael eu colli i fabwysiadu ymagweddau traws-lywodraethol, cydlynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

*“ Mae'r Pwyllgor yn croesawu rôl gynyddol y Comisiynydd a'i swyddfa wrth iddynt gynghori, asesu a herio cynnydd Llywodraeth Cymru wrth gyflawni ei nodau o amgylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ymateb i'r newid yn yr hinsawdd a symud ymlaen tuag at dargedau datgarboneiddio. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y Comisiynydd yn credu bod datgysylltiad yn bodoli rhwng ymrwymiadau polisi Llywodraeth Cymru a dyraniadau cyllideb, ac nad oes dystiolaeth eto o newid systemig neu drawsnewidiol. ”*

**Craffu ar adroddiad Cyllideb Ddrafft 2020-2021 Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Cyllid,**

**Ionawr 2020**

*“ Rwyf wedi cyfarfod â'r Comisiynydd sawl gwaith eleni, ac fel sy'n briodol, mae hi'n herio'r Llywodraeth yn nhermau ei disgwyliaidau o'r modd y gallwn ddangos bod y Ddeddf yn dod yn fyw yn y penderfyniadau a wnawn. Felly, credaf fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod yn rheng flaen ein hystyriaethau a'r ffordd yr ydym wedi gweithio ar y gyllideb hon. ”*

**Rebecca Evans AS,  
Gweinidog Cyllid  
(wrth graffu ar gyllideb ddrafft 2020-21)**

**Rhagfyr 2019**

## Cyllideb Llesiant Seland Newydd

Cyhoeddodd Llywodraeth Seland Newydd eu [Cyllideb Llesiant](#) gyntaf ym mis Mai 2019. Mae'n mabwysiadu ymagwedd wahanol tuag at fesur llwyddiant, yn seiliedig ar ystod ehangach o ddangosyddion na Chynnyrch Domestig Gros yn unig ac mae'n rhoi llesiant wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r Gyllideb Llesiant yn gwneud hyn mewn tair ffordd:

1. Chwalu seilos asiantaethau a gweithio ar draws y llywodraeth i asesu, datblygu a gweithredu polisiau sy'n gwella llesiant.
2. Canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n diwallu anghenion cenedlaethau presennol ar yr un pryd â meddwl am yr effeithiau hirdymor ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
3. Orlhain ein cynnydd gyda mesurau llwyddiant ehangach, gan gynnwys iechyd ein cyllid, adnoddau naturiol, pobl a chymunedau.

Mae potensial enfawr hefyd i gyfrannu at y nodau llesiant trwy'r £6.1 biliwn sy'n cael ei wario ar hyn o bryd gan y sector cyhoeddus yng Nghymru ar **gaffael**. Rwyf wedi buddsoddi amser i gynorthwyo Llywodraeth Cymru, ond mae'r cynnydd wedi bod yn araf ac yn siomedig. Er gwaethaf rhai enghreifftiau da, nid yw polisi ac arfer caffael wedi cadw i fyny â'r gofynion newydd o dan y Ddeddf ac nid yw'r graddau y mae Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus yn datblygu contractau wedi'u trwytho gan y pum dull o weithio ac nid yw'r saith nod llesiant yn gyson.



Credyd: Ungry Young Man

Gan weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, yn 2019, rwyf wedi cynnal ymchwil i ddeall hyn yn well, gan weithio mewn cydweithrediad ag Archwilio Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, ymgynghorwyr tai a chaffael. Er bod dystiolaeth gyffredinol yn dangos bod cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gymhwyso'r Ddeddf, mae'r ymchwil wedi canfod bod ymgyfraniad arweinyddiaeth, adnoddau a chapasiti, ynghyd â'r dirwedd gymhleth, yn herio'r gallu i gaffael mewn modd cynaliadwy.

Credyd: TransFair e. V.



Ar hyn o bryd, nid oes ymagwedd unedig tuag at gymhwyso'r Ddeddf i broses gaffael y sector cyhoeddus. Er bod tystiolaeth gyffredinol yn dangos bod cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gymhwyso'r Ddeddf yn ystod y broses gaffael, mae'r cyfnod ymchwil wedi canfod bod cyfranogiad ac ymgysylltiad arweinyddiaeth, adnoddau a gallu, ynghyd â'r dirwedd gymhleth yn heriau i gaffael mewn dull cynaliadwy. Mae'r camau y mae cyrff cyhoeddus yn eu cymryd yn cynnwys, er enghraifft, gyfeiriad at y dulliau o weithio a nodau llesiant a datblygu rhestrau gwirio.

Nid oes strategaeth gaffael genedlaethol na phroses na chefnogaeth glir i rannu dysgu a sbarduno gwelliant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ac mae caffael yn aml yn cael ei ystyried o fewn cyrff cyhoeddus yn ogystal â gan gontractwyr fel atalydd yn hytrach na galluogwr, proses drafodol yn hytrach na phroses drawsnewidiol a all gyfrannu at gyflawni amcanion a chanlyniadau ehangach.

Ym mis Mawrth 2019, cyflwynais fy **Adolygiad Adran 20** cyntaf o arferion caffael naw corff cyhoeddus yng Nghymru. Mae [Adran 20 o'r Ddeddf](#) yn rhoi'r pŵer i mi gynnal Adolygiad o'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion drwy'r ddyletswydd llesiant a drwy ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau. Cynnal Adolygiad Adran 20 yw'r cryfaf o'm pwerau o dan y ddeddfwriaeth. Yng ngoleuni COVID-19, rwyf wedi oedi'r Adolygiad a byddaf yn ailasesu'r sefyllfa ym mis Medi 2020 unwaith y bydd llai o straen ar gapasiti cyrff cyhoeddus.

Cliciwch **yma** i gael yr argymhellion yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ar gaffael.

## Y pum maes yr wyf yn eu hargymhell y dylai pob corff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ganolbwyntio arnynt:

- Datblygu arweinyddiaeth sy'n cefnogi ymagwedd strategol tuag at gaffael, gan gydnabod 'pŵer pwrcasu'.
- Caffael llesiant: ffocws ar ganlyniadau a mesur yr hyn sy'n bwysig.
- Canolbwyntio ar gynllunio ariannol hirdymor.
- Hyrwyddo cydweithredu effeithiol, gyda'i gilydd a gyda chyflenwyr, i wella rhannu, dysgu, capasiti a sgiliau.
- Adeiladu ar fframweithiau sefydledig, gan gynnwys rhai cyfreithiol.
- Hyrwyddo meddylfryd ac agwedd hyderus o ran ein cyllid, adnoddau naturiol, pobl a chymunedau.

## Effaith

### Eleni rwyf fi a fy nhîm wedi:

**Fframio dadl a chael Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar yr agenda.** Egluro lefel uchelgais Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd, a sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ffactor yng ngwaith Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru. Sicrhau bod atal a datgarboneiddio wrth wraidd cyllidebu strategol yng Nghymru a chynnig ymagwedd newydd tuag at asesu arholiadau yng Nghymru. Annog Llywodraeth Cymru i fabwysiadu ymagwedd creu lleoedd o fewn cynllunio defnydd tir a thu hwnt, ac fel rhan o weithgor helpu i greu Siarter Creu Lleoedd.

**Annog ymrwymadau disgysiol gan Ysgrifenyddion y Cabinet, y Llywodraeth ac eraill** ar y newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys datgan Argyfwng Hinsawdd). Rwyf wedi parhau i dynnu sylw at bwysigrwydd cynllunio hirdymor yn y sector iechyd a'r modd y mae System Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) ddiwygiedig yn cael ei monitro ac yn mynd drwy'r broses graffu ac rwyf wedi amlygu meysydd lle mae angen gwelliannau pellach. Gweithiais gyda grŵp o sefydliadau i archwilio'r ymagwedd fwyaf effeithiol i'w mabwysiadu i sicrhau bod y Llywodraeth yn mabwysiadu system llesiant genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dreialu Bondiau Effaith Cymdeithasol fel dull arloesol o ariannu gweithgareddau ataliol, o ganlyniad i hwyluso fy nghysylltiad â Social Finance.

**Newid y gweithdrefnau** ar gyfer y modd y mae llawer o gyrff cyhoeddus yn gweithredu o ganlyniad i'm cyngor a chymorth (y manylir arnynt uchod), gan gynnwys sut mae'r Ddeddf yn cael ei hystyried gan gyrff arolygu a chyrff proffesiynol - er enghraifft yr RTPI ac Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Rwyf wedi sicrhau cynnydd yng nghyllid y Llywodraeth tuag at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac o ganlyniad i fy llythyr at Weinidogion Llywodraeth Cymru, sicrhais ei fod yn cael ei ychwanegu fel chweched flaenoriaeth yn Ffyniant i Bawb. O ganlyniad i fy Labordy Byw'n ymwneud â Thai mae Adran Dai Llywodraeth Cymru wedi newid eu persbectif a'r ffordd y maent yn gweithio, trwy sylweddoli bod ganddynt rôl sylweddol i'w chwarae wrth greu cymunedau a sgiliau newydd ar feddwl yn y dyfodol.

**Sicrhau newidiadau i'r polisi** mewn perthynas â'r penderfyniad i beidio ag adeiladu ffordd liniaru'r M4. Rhoddais dystiolaeth gredadwy i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i herio'r M4 ac ychwanegais gryn dipyn o bwys i'r ddadl. Dyluniwyd Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru 2022 gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ei wraidd. Rwyf hefyd wedi sicrhau newidiadau i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gan adeiladu ar Bolisi Cynllunio Cymru 10 (PPW10) gyda naratif cryf ar y Ddeddf a ffocws ar y saith nod llesiant gan gynnwys carbon isel, cydraddoldeb, a gostyngiad mewn tlodi a dylanwadais ar argymhellion yr Adolygiad Tai Fforddiadwy.

**Dylanwadu ar newid ymddygiad ymarferol** gweision sifil, arolygwyr yr Arolygiaeth Gynllunio a gweithwyr iechyd proffesiynol, gan gynnwys y gweithdy a gynhaliwyd gennym ar y Dyfodol, ac ymhlith y nifer o unigolion, grwpiau cymunedol a grwpiau gweithredu sy'n defnyddio'r Ddeddf wrth ddelio â chyrff cyhoeddus. Cefnogais newidiadau ymarferol i annog teithio llesol ac annog cyrff cyhoeddus i ddefnyddio fflydoedd trydan.

## Pwrpas 2

# Cefnogi a Herio Cyrff Cyhoeddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, i gefnogi eraill i weithredu'r Ddeddf ac i hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rwyf wedi defnyddio fy mhwerau i:

1. Ffonitro cynnydd tuag at amcanion a nodau llesiant.
2. Greu adnoddau i helpu gyda chymhwyso'r Ddeddf, gan weithio'n agos gyda phartneriaid amrywiol.
3. Ymateb i geisiadau am gyngor a chymorth oddi wrth gyrff cyhoeddus a sectorau eraill.

### Monitro cynnydd tuag at amcanion llesiant cyrff cyhoeddus

Rhan bwysig o fy nyletswydd fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yw *"monitro ac asesu i ba raddau y mae amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni"* (adran 18 o'r Ddeddf).

Mae'r ddyletswydd hon yn ceisio sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn symud yn agosach at eu hamcanion ac yn eu tro y nodau llesiant.

Fe wnes i fonitro ac asesu sut mae cyrff cyhoeddus wedi bod yn gweithio tuag at 345 o amcanion ar y cyd, a llawer mwy o gamau oddi tanynt. Dadansoddais yr holl amcanion hyn a chamau dirifedi a chwilio am themâu cyffredin oedd yn dod i'r amlwg. Nid tasg fach oedd hon ac ni chredaf fod Llywodraeth Cymru, na Senedd Cymru, wedi rhagweld y byddai'r nifer hon o amcanion a chamau'n cael eu monitro wrth sefydlu fy swyddfa a'm cyllideb.

Roedd y fethodoleg a ddatblygais yn uno hunanasesu ac adolygu cydweithwyr, ac roedd yn seiliedig ar [offeryn hunan-fyfyrto](#). Dilynwyd yr asesiad gan gyngor manwl unigol i bob un o'r 44 corff cyhoeddus ar sut i wella cynnwys yr amcanion a'u cyflawni'n gyflymach ac yn well. Roedd hon yn fenter fawr, ac mae fy nghanfyddiadau'n tanategu llawer o'r argymhellion yn fy [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#).

Mae wedi dangos, er enghraifft, bod y mwyafrif o gyrff cyhoeddus wedi glynu wrth eu busnes craidd a heb ystyried eto sut y gallent facsimeiddio'u

cyfraniad i'r saith nod llesiant (ar eu pennau eu hunain neu gydag eraill). I raddau helaeth iawn, gwella llesiant economaidd a chymdeithasol ardaloedd oedd naws yr amcanion, heb fawr o bwyslais ar yr amgylchedd na diwylliant.

Cyhoeddwyd y canfyddiadau cyffredinol ym mis Rhagfyr 2019 mewn adroddiad '[Cynnydd tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)' a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Mae yna rai enghreifftiau rhagorol o arloesi y mae'r Ddeddf yn eu cyflwyno ledled Cymru. Fodd bynnag, mae angen i gyrff cyhoeddus ystyried a chyflwyno darlun mwy cydlynol o sut mae'r sefydliad ar y cyd yn cynyddu ei gyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol.
- Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi digon o adnoddau i weithredu'r Ddeddf.
- Mae cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyflawni amcanion llesiant mewn rhai meysydd, ond mae amrywiad yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn cymhwyso'r Ddeddf.
- Mae angen mwy o gynnydd a chyflymder yn y meysydd corfforaethol ar gyfer newid.
- Nid oedd ansawdd yr amcanion a'r camau a osodwyd yn 2017-18 bob amser yn cwrdd â dyheadau a gofynion y Ddeddf.

## Cynnydd tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Canfyddiadau Cyffredinol  
Hydref 2019

At ei gilydd, mae'r adborth ar y broses wedi bod yn gadarnhaol, er nad yw'r amserlenni y tro hwn wedi bod yn berffaith i lywodraeth leol.

*“Darn o waith rhagorol a thrylwyr iawn...”*

*“Rydyn ni'n defnyddio'ch adborth i ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol newydd ...”*

*“Crynodeb defnyddiol o'n gwaith penodol a'n gwaith ehangach.”*

*“Diolch am yr adborth, mae'n amserol iawn wrth i ni ystyried ein hadroddiad blynyddol nesaf...”*

*“Rydyn ni wedi adolygu'r adborth gydag uwch reolwyr ac wedi medru ei ddefnyddio i'w hatgoffa eu bod nhw wedi camgymryd, neu wedi anghofio am rai pethau.”*

*“Rwy'n hoff o'r ymagwedd bersonol a chanfyddiadau cyffredinol y sector.”*

*“Rydyn ni'n defnyddio'r offeryn wrth i ni baratoi ein hadroddiad blynyddol nesaf ac mae'r adborth yn amserol i sicrhau y gallwn roi cymaint â phosib o ystyriaeth iddo.”*

*“Fe wnaeth adroddiad y Comisiynydd ein hannog i edrych ar y 7 maes newid corfforaethol mewn ffordd nad oedden ni wedi ei wneud o'r blaen. Roedd gennym ni grŵp eisoes wedi'i sefydlu, yn cynrychioli pob ardal, ond rhoddodd hyn ffocws i ni gan helpu newid mewn diwylliant i dreiddio i lawr.”*

*“Roedd yr adborth yn gynhwysfawr iawn.”*

*“I ddechrau, roedd eich offeryn yn cael ei ystyried fel “rhywbeth arall i'w wneud” ond mewn gwirionedd mae wedi darparu fframwaith defnyddiol iawn ar gyfer edrych ar bethau.”*

Cynnydd tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Canyddiadau Cyffredinol  
Hydref 2019

Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, rwyf wedi gweithio'n agos gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae Adrian Crompton, yn gyfrifol o dan y Ddeddf am archwilio sut mae'r cyrff cyhoeddus yn defnyddio'r pum dull o weithio. Mae natur gyflenwol ein dyletswyddau, yn ogystal ag ethos y ddeddfwriaeth, wedi ein harwain i gydweithredu a datblygu strategaethau cyfochrog ac ategol i gyflawni ein swyddogaethau. Fel yr eglura Archwilio Cymru.

**“**Yn gyffredinol, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol edrych ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus wedi cynllunio a chyflawni eu gwaith, tra bod yn rhaid i'r Comisiynydd edrych ar yr hyn y maent wedi'i gyflawni.

*Gall y Comisiynydd a'r Archwilydd Cyffredinol helpu trwy ganolbwyntio ar y pethau iawn, gosod disgwyliadau cyson a pheidio peri i ofynion monitro roi gormod o faich ar gyrff cyhoeddus Mae gan y ddau rôl hefyd wrth hyrwyddo arfer da a chefnogi gwelliant. Mae ein dwy swyddfa wedi cydweithio'n agos i geisio cyflawni hyn, ond rydyn ni'n cydnabod y gellir gwneud mwy. Byddwn yn parhau i gryfhau'r ffordd yr ydym yn cydweithio yn y cyfnod nesaf.*”

Mae'n hollbwysig i'r ddau ohonom nad ydym yn anfon negeseuon anghyson â'i gilydd i gyrff cyhoeddus a'n bod yn gyrru'r newidiadau cyson, dwfn a chywir tuag at y Gymru a garem. I'r perwyl hwn, cyhoeddir fy [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#) ochr yn ochr â “*Felly, beth sy'n wahanol? Canfyddiadau o Arholiadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yr Archwilydd Cyffredinol.*”

### Darllenwch fwy



### Darllenwch fwy

Dros amser byddaf i, Archwilio Cymru, a phobl Cymru yn disgwyl i gyrff cyhoeddus allu dangos sut mae'r Ddeddf yn llunio popeth a wnânt. Gan ein bod bellach yn dechrau ar bumed flwyddyn y ddeddfwriaeth, rydyn ni'n disgwyl gweld mwy o gyrff cyhoeddus yn mabwysiadu ein cyngor a'n hargymhellion, gan symud tuag at sicrhau bod newid trawsnewidiol yn digwydd. Bydd COVID-19 yn brofiad heriol ond mae hefyd yn dangos pwysigrwydd cael strategaethau hirdymor a ffocws ar atal. Gan y bydd ein dau adroddiad yn cael eu cynhyrchu yn ystod y pandemig, mae'r ddau ohonom wedi nodi'n glir nad oeddem yn disgwyl ymateb ar unwaith i'r adroddiadau hyn gan gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus nes bod yr argyfwng wedi pasio.

Wrth symud ymlaen, byddaf yn parhau i weithio gydag Archwilio Cymru i gyflawni fy nyletswyddau a gyda Chyfnodfa Arfer Da Archwilio Cymru i hyrwyddo arfer da a darparu cyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus.

Cliciwch **yma** i gael yr argymhellion yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ar y newid diwylliant sydd ei angen ar y Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus i roi'r Ddeddf ar waith.

## Rhoi cyngor

Penderfyniad strategol, pwysig yn nhermau'r cyngor a roddaf, fu dewis pwy i gynghori o fewn fy adnoddau cyfyngedig, er mwyn sicrhau fy mod yn cael yr effaith fwyaf posibl, yn aros o fewn ffiniau fy mhwerau statudol, ac yn sbarduno'r newid yr wyf eisiau ei weld yn y dull mwyaf effeithlon.

Yn ogystal â darparu cyngor ar fy meysydd ffocws, rwyf hefyd yn ymateb i geisiadau am gyngor a chymorth, gan ddefnyddio'r meini prawf isod.


### Asesir ceisiadau am gyngor yn erbyn y meini prawf hyn:

- A fydd hyn yn cyfrannu at unrhyw ganlyniad yn fy nghynllun gwaith blynyddol?
- A oes risg sylweddol inni wneud (neu beidio â gwneud) y gwaith (yn unol â'm dogfen risg strategol)?
- I ba raddau y gallai'r cais gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant neu'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy?
- A allwn ni adnoddau'r gwaith?


Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi derbyn dros 300 o geisiadau gan gyrff cyhoeddus, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol a sefydliadau eraill. Mae rhai o'r ceisiadau hyn yn dal i fynd rhagdynt ac roedd modd cefnogi dros hanner y ceisiadau trwy gyfeirio at adnoddau, addasu canllawiau fy hun neu drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb. O ystyried fy nghapasiti, rwyf hefyd wedi gorfod gwrthod rhai ceisiadau gan na allwn ateb y galw neu oherwydd eu bod y tu allan i'm meysydd ffocws (gweler Pwrpas 1 uchod).

Mae nifer y ceisiadau am fy nghyngor wedi cynyddu'n ddramatig dros y blynyddoedd (gweler y diagram isod fel enghraifft), a fy mlaenoriaeth fu cefnogi'r 19 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r 44 corff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf ac yn benodol Llywodraeth Cymru a osododd y polisiau cenedlaethol sy'n effeithio ar bawb.

1 Mai 2018 - 31 Mawrth 2019  
Cyfanswm o 180 cais



1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020  
Cyfanswm o 319 cais



Mae fy nghyngor ymatebol mewn dauategori: cyngor cyffredinol a chyngor wedi'i deilwra.

### Cyngor Cyffredinol - Creu adnoddau a chanllawiau ysbrydoledig

I ateb mwyafrif y ceisiadau sydd y tu allan i gylch gwaith fy meini prawf a sicrhau bod y nifer fwyaf o bobl gan gynnwys y cyrff cyhoeddus, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ond hefyd sectorau ac unigolion eraill yn gallu dod o hyd i rywfaint o'r help sydd ei angen arnynt parthed y Ddeddf, rwyf wedi bod yn datblygu adnoddau generig.

### Y Gallu i Greu - Teithiau tuag at bob un o'r nodau

Mae'r Ddeddf yn gofyn am ffordd newydd o feddwl am sut mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu i gyflawni'r weledigaeth a nodir gan y Ddeddf. Ym mlynnyddoedd cynnar fy nhymor, rhoddais flaenoriaeth i ddatblygu ystod o adnoddau a chyfarwyddyd a fyddai'n helpu yn hyn o beth.

Yn ychwanegol at fy nghyngor o 'Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol' a oedd yn edrych ar y mathau newydd o brosesau yr oedd angen i ni eu rhoi ar waith, roedd y set nesaf o adnoddau a gynhyrchais, fy **Newidiadau Syml a Theithiau tuag at bob un o'r nodau**, yn ymwneud yn fwy â'r newid polisi sydd arnom angen ei weld ochr yn ochr â'r newidiadau mewn proses a fydd yn cael eu mabwysiadu - y ddau yn rhoi mwy o fanylion am y weledigaeth yn y Ddeddf.



Manteisiodd y [Gallu i Greu](#) ar ddeallusrwydd cyfunol pobl a sefydliadau ledled Cymru i egluro ac archwilio'r goblygiadau ymarferol i wasanaethau cyhoeddus o facsimeiddio'u cyfraniad i bob un o'r nodau llesiant. Mae'n cynnig rhestr o gamau graddol, o'r syml i'r uchelgeisiol y dylai cyrff cyhoeddus eu cymryd, y bydd fy swyddfa'n eu monitro dros amser, ac a amlygodd yr ymgysylltiadau rhwng y nodau. Roeddent hefyd yn cynnwys corff o arfer da ac adnoddau pellach y gall cyrff cyhoeddus eu defnyddio i ddangos sut mae eu hymddygiad a'u gweithredoedd yn unol â'r Ddeddf.

Cyhoeddwyd 82 o [Newidiadau Syml](#) ym mis Tachwedd 2018 a dilynwyd hyn gan y [Teithiau](#) llawn yn 2019.

### Y partneriaid yn fy Rhaglen Y Gallu i Greu oedd:

- Cyngor Celfyddydau Cymru - **Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
- Masnach Deg Cymru a Hub Cymru Affrica - **Yn Gyfrifol ar lefel fyd-eang**
- Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG - **Mwy Cyfartal**
- Chwaraeon Cymru - **Iachach**
- Cymdeithas Tai Unedig Cymru - **Cymunedau Cydlynus**
- Canolfan Cydweithredol Cymru - **Llewyrchus**
- Ymddiriedolaethau Natur Cymru - **Cydnorth**
- Interlink RCT - **Ymgyfraniad**

Ym mis Chwefror 2019, ysgrifennais at gyrff cyhoeddus yn gofyn am ddiweddariad o'u gweithrediad o'r Newidiadau Syml. Ymatebodd 30 o'r 44 corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Ar gyfartaledd, mae 71% o'r Newidiadau Syml eisoes wedi'u mabwysiadu neu 'wrthi'n cael eu datblygu' ar draws y 30 corff cyhoeddus a atebodd. Mae oddeutu 12% yn cael eu hystyried ar gyfer eu gweithredu yn y dyfodol.

Y Newidiadau Syml o dan 'Ymgyfraniad' a 'Chymru Iachach' yw'r rhai y mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus wedi gweithredu arnynt, tra gellir nodi gweithredoedd o dan Ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu fel y rhai â'r gyfradd fabwysiadu isaf, sy'n dangos efallai bod cyrff cyhoeddus yn dal i'w chael hi'n anodd meddwl am biler diwylliannol llesiant.

Byddaf yn hyrwyddo ac yn annog defnyddio fy Nheithiau, sy'n cynnwys corff enfawr o syniadau a thystiolaeth a all helpu Cymru i brofi adferiad yn dilyn argyfwng COVID-19.

### Mae'n gynnar yn y dydd, ond mae'r Teithiau eisoes yn arwain at newidiadau ar draws nifer o gyrff cyhoeddus. Mae'r adborth wedi cynnwys

*"Mae'r diogelwr taith yn edrych yn wych, ac mae'r opsiynau'n edrych yn ddiddorol iawn."*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

*"Rydym wedi gweld y rhain yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig wrth ddarparu enghreifftiau ymarferol ynghylch y ffordd orau o weithredu'r Ddeddf a hefyd fel meincnod ar gyfer deall arfer da/sy'n dod i'r amlwg. Rydym wedi rhannu eich Teithiau gyda'n Bwrdd Rhaglen Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac wedi annog hyrwyddwyr i rannu a defnyddio'r adnodd hwn gyda'u cydweithwyr ar draws ein holl Is-adrannau a'n timau."*

Judith Paget, Prif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

*"Yn dilyn eich cyflwyniad i Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Mai 2019, rydyn ni'n gweithredu eich her i symud drwy'r 'dioglewyr taith'... yn y ffyrdd a ganlyn: cyflwyno fel eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd; datblygu camau caffael cynaliadwy; gweithio gyda'n Tîm Strategaeth a Chynllunio ac Arweinwyr Busnes y Gyfarwyddiaeth i ystyried sut y gellir integreiddio'r gwaith hwn i'n rhaglenni; a chefnogi gweithredu ar draws system GIG Cymru ar y newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio drwy nodi cyfleoedd i weithredu'r camau trwy ein gwaith Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd."*

Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Sut mae'r Ddeddf a'n gwaith eisoes wedi gwneud gwahaniaeth?

### Mae enghreifftiau o effaith yn cynnwys:

- Mae **Cyngor Caerdydd** yn bwriadu adeiladu fferm solar a fyddai'n cynhyrchu £21m o ynni gwyrdd dros gyfnod o 35 mlynedd.
- Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn annog cyfnewid gweithwyr fel sy'n briodol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â gyda sefydliadau eraill. Trwy **fwrdd gwasanaethau cyhoeddus Torfaen**, maent yn cyfrannu at gyd-ariannu secondai MSc o **Academi Wales**.
- Mae **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro** wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Seilwaith Gwyrdd (sy'n cynnwys canllaw ac enghreifftiau ar gyfer seilwaith gwyrdd) ac wedi datblygu offeryn cynllunio defnydd tir (rhan o brosiect Cronfa Natur yng Nghastell Martin) i edrych ar gyfleoedd ar gyfer cysylltedd.
- Mae **Amgueddfa Genedlaethol Cymru** wedi bod yn rhan o sawl cynllun sy'n canolbwyntio ar y gymuned (fel gerddi sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt yn Sain Ffagan a ddatblygwyd gan **Hafal, y Wallich** ac **Innovate Trust**). Trawsnewidiodd y 'Prosiect Graft' yn **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe** le nad oedd yn cael ei ddefnyddio yn ardd gyhoeddus, gyda chysiau garddwriaethol ar gyfer gwirfoddolwyr. Yn **Big Pit** datblygwyd y Coity Tip Trail i ddarparu teithiau cerdded byr o amgylch hen domen wastraff o'r Pwll Coity, ac i gynnal bywyd gwyllt, planhigion a chynefinoedd naturiol. Creodd gwirfoddolwyr yn yr **Amgueddfa Wiân Genedlaethol** ardd lliwio naturiol ac maent yn cynnal gweithdai lliwio naturiol. Mae ymchwil a wnaed yn y gwyddorau naturiol yn nodi dosbarthiad rhywogaethau yng Nghymru, gwybodaeth sy'n cael ei lledaenu i'r cyhoedd mewn sawl ffordd.
- Mae **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys** yn bwriadu datblygu partneriaethau gydag elusennau ac mae **Cyngor Sir Powys** eisiau plannu dwy goeden ar gyfer pob coeden sy'n cael ei thorri oherwydd eu gweithgareddau.
- Mae **Cyngor Caerdydd** yn edrych ar ffyrdd o wella iechyd a llesiant gweithwyr. Crëwyd nifer o ddogfennau polisi sy'n ymwneud, er enghraifft, â chamddefnyddio sylweddau, bwyta'n iach a gweithgaredd corfforol a chanllawiau diwedd y mislif.
- Trefnodd **Iechyd Cyhoeddus Cymru** sesiwn 'Cinio a Dysgu' gyda 'Sanctuary Speakers' i gynnig cyflwyniad i realiti ceisio noddfa yng Nghymru, ac maent yn cyd-ddatblygu cynnwys ar gyfer modiwl e-ddysgu ar gyfer holl staff GIG Cymru, y gobeithiant y bydd yn mynd 'yn fyw' yn ddiweddarach eleni.
- Mae **Fforwm Caerffili 50+** wedi cydweithio â'r Rhwydwaith Rhieni ar sawl prosiect, er enghraifft llyfrau i rieni, plant a neiniau a theidiau trwy Gwmni Buddiant Cymunedol Cyhoeddi PETRA a chlybiau cinio.
- Yn **Sir Gaerfyrddin**, mae'r llyfrgelloedd yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a chartrefi preswyl a chanolfannau dydd, gan greu hwb canolog i adeiladu cymunedau gwell. Mae'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yn defnyddio ymagwedd sy'n pontio'r cenedlaethau yn ei rhaglenni gwaith fel y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol, gan gynorthwyo teuluoedd a phlant yn ystod gwyliau ysgol i goginio prydau iach.
- Mae'r Tîm Camddefnyddio Sylweddau wedi cynnal 'Digwyddiadau Gwranddo' gyda rhieni plant anabl ynghyd ag oedolion ifanc i ddeall yr hyn sydd ei angen arnynt o'r gwasanaeth.

- Yn **Rhondda Cynon Taf**, mae preswylwyr cartrefi gofal Ferndale yn ymweld â'r ysgol ac yn rhannu gweithgareddau gyda phlant, sydd yn eu tro yn ymweld â'r cartref gofal.
- Mae **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro** wedi sefydlu fforwm sy'n pontio'r cenedlaethau, Cynulliad Ieuenctid Sir Benfro a Fforwm 50+ Sir Benfro sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod dementia, iechyd meddwl ac ymwybyddiaeth cwmpo, unigrwydd ac arwahanrwydd. Mae sawl canolfan ddydd yn cynnal sesiynau rheolaidd gyda phlant ysgol lleol i gynnal sesiynau ar y cyd ar hanes, gwersi coginio a chyfnwdfeydd.
- Mae gan **Fwrdd Iechyd Addysgu Powys** gysylltiad ag Ardal Iechyd Molo yn Kenya sy'n canolbwyntio ar wella iechyd mamau a'r newydd-anedig.
- Mae **Iechyd Cyhoeddus Cymru**, ynghyd ag **Oxfam**, yn cyflwyno hyfforddiant dinasyddiaeth fyd-eang i weithwyr iechyd proffesiynol Cymru.
- Mae **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**, ynghyd â **Phrifysgol De Cymru**, wedi dyfeisio rhaglenni academaidd ar gyfer arweinwyr yn y sefydliad o'r enw Rhaglenni Arloesi a Herio, sy'n edrych ar heriau sy'n wynebu'r sefydliad a'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt.

## Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol

Rwyf wedi parhau i hyrwyddo ac annog cyrff cyhoeddus ac eraill i ddefnyddio'r arweiniad a'r ysgogiadau yn fy fframweithiau cenedlaethau'r dyfodol' i helpu i gymhwyso'r Ddeddf i [Brosiectau Seilwaith](#), [Dylunio Gwasanaeth](#) a [Chraffu](#).

Mae'r Fframweithiau hyn wedi ffurfio rhan allweddol o'r cyngor ymatebol ac mae'n galonogol gweld sut mae eu defnydd yn tyfu ac eisoes wedi arwain at newid gweithdrefnol ac ymarferol.

## Y Dyfodol

Mae helpu cyrff cyhoeddus i feddwl yn yr hirdymor a chroesawu persbectif ar y dyfodol yn greiddiol i'm dyletswyddau ac i'r hyn y mae angen i gyrff cyhoeddus a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei wneud o dan y Ddeddf. Yn 2019, cyhoeddais adnodd penodol, **Pecyn Cymorth Tri Gorwel**, mewn ymateb i ddiddordeb cynyddol yn fy swyddfa a chyrrff cyhoeddus i fabwysiadu ymagwedd hirdymor a deall tueddiadau'r dyfodol yn well. Mae'r [Pecyn Cymorth](#) wedi'i ddatblygu ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i helpu cyrff cyhoeddus i wneud penderfyniadau a fydd yn dal eu tir dros amser. Mae'n seiliedig ar fodel a ddatblygwyd gan Bill Sharpe a'r Fforwm Dyfodol Rhyngwladol.






**“Dim ond eisiau diolch i chi am y gweithdy y bore 'ma. Roedd yn ddefnyddiol iawn i mi. Roeddwn i'n teimlo bod strwythur y gweithdy wedi gweithio'n dda ac yn dangos ffordd ymarferol o ddefnyddio'r model Y Tri Gorwel. Byddaf yn bendant yn defnyddio'r ymagwedd hon yn ôl yng Nghasnewydd.”**

**Emma Wakeham,  
Cyngor Casnewydd**

Rwyf wedi mabwysiadu ymagwedd 'dysgu trwy wneud' i ddylunio hyn ac wedi ymgysylltu â rhai sy'n arbenigo yn y dyfodol ac ymarferwyr o bob cwr o'r Byd i ddysgu am eu gwaith a'i berthnasedd i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydyn ni wedi gwneud cysylltiadau newydd gyda rhai a fu'n ymgyfrannu, yn cynnwys Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth y DU a Dr Claire Craig CBE, a arferai fod yn bennaeth ar eu hadran sy'n ymwneud â'r dyfodol; Futuribles, melin drafod y dyfodol yn Ffrainc; Bill Sharpe a Graham Leicester o'r Fforwm Dyfodol Rhyngwladol; a Cat Tully, Cyd-sylfaenydd, School of International Futures.



Yn 2020 a thu hwnt, fy mwriad yw rhoi mwy o ffocws ar weithio'n agos gyda chyrrff cyhoeddus i'w helpu i ddefnyddio'r adnoddau hyn, gan weithio'n ddi-baid i ysbrydoli, cyngori ac annog cyrrff cyhoeddus i ddwyn Cymru'n agosach ac agosach at gyflawni'r nodau.

## Cyngor wedi'i Deilwra

Pan fydd ymholiadau yn cyd-fynd â'm meini prawf mewnol, rwy'n ystyried rhoi cyngor wedi'i deilwra a all amrywio o un e-bost wedi'i deilwra, i ymarfer gweithio ar y cyd dros sawl diwrnod, o'r enw Labordy Byw - gweler yr adrannau ar dai a Phroffadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn Pwps 1 uchod.

Mae'r rhan fwyaf o fy nghyngor yn disgyn yn y canol - yn cynnwys cwrdd â sefydliad sawl gwaith a darparu cyngor manwl ar sawl drafft o bolisi neu gynnydd, fel yr wyf wedi'i wneud mewn perthynas â chynllunio, trafndiaeth a thai i enwi ychydig o feysydd.

## Mae'r cyngor a roddais i gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eleni yn fy meysydd ffocws yn cynnwys:

- Cyngori Llywodraeth Cymru ar ddrafftio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol.
- Parhau i ymgyfrannu â'r Panel Adolygu Tai Fforddiadwy yn dilyn fy sesiwn her gyda nhw yn 2018.
- Darparu gwybodaeth fanwl, gan gynnwys gwybodaeth o'n Labordai Byw; sylwadau ar [Pwysau Iach/Cymru Iach](#), y cwricwlwm newydd ac enghreifftiau perthnasol o'm Teithiau Y Gallu i Greu; i hyrwyddo byw'n iach ymysg disgyblion yng Ngrŵp Gorchwyl a Gorffen Ysgolion Castell-nedd Port Talbot.
- Gweithio gydag Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru i ddatblygu arweiniad ar ddigwyddiadau a chynadledau cynaliadwy, sy'n cyd-fynd â gofynion y Ddeddf.
- Esbonio'r Ddeddf a'i darpariaethau i'r Comisiwn Gwaith Teg a darparu tystiolaeth ysgrifenedig i'w hymchwiliad.

- Cefnogi adolygiad cydraddoldeb rhywiol Llywodraeth Cymru trwy ddarparu gwybodaeth a chyngor ar yr aliniad rhwng llesiant a chydaddoldeb. Arweiniodd Cam 2 yr adolygiad at gyhoeddi adroddiad Chwarae Teg '[Gwneud Nid Dweud](#)' a Map Ffordd yn dangos y ffordd tuag at sicrhau cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru.
- Cyfrannu at Fwrdd Cyngori'r Gweinidogion ar yr Economi Sylfaenol i gefnogi gwaith Dirprwy Weinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar gefnogi'r economi sylfaenol a chwmnïau seiliedig yng Nghymru.
- Cwrdd â Llywodraeth Cymru a darparu ymateb ysgrifenedig ar egwyddorion amgylcheddol Cymru yn dilyn Brexit a sut mae fy rôl a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ffitio o fewn y fframwaith hwnnw.
- Cynnal gweithdy'r Tri Gorwel i alluogi meddwl am y dyfodol ar gyfer cynllun Graddedigion Dinas-Ranbarth Caerdydd.
- Rhoi cyngor trwy weithdy ar ddatblygu Strategaeth Twristiaeth newydd y Llywodraeth.
- Hwyluso aelodaeth y Llywodraeth o'r Gynghrair Economi Llesiant.
- Rhoi cyngor i Tidal Bay Power ar ymgorffori'r Ddeddf yn eu cynigion ar gyfer cynllun Morlyn Llanw Bae Abertawe.
- Darparu cyngor manwl i Gyfoeth Naturiol Cymru ar eu Datganiad Cyfranogiad Cyhoeddus newydd, yn deillio o fy ngwaith gyda nhw yn 2018 ar ffyrdd o sicrhau bod eu gwaith yn glir, yn dryloyw ac yn ddealladwy i'r cyhoedd a bod tystiolaeth glir o'r modd y maent yn ystyried y Ddeddf wrth wneud penderfyniadau.

## Cyngor manwl, arloesol – Labordai Byw

Fel rhan o ymateb i geisiadau am gymorth gan gyrrff cyhoeddus rwyf wedi datblygu model ar gyfer rhoi cyngor pellgyrhaeddol o'r enw 'Labordy Byw'. Dyma'r lefel gefnogaeth fwyaf manwl y gallaf ei chynnig wrth ddefnyddio'r Ddeddf, ynghyd â meddwl am y dyfodol a pheccynnau cymorth, i helpu cyrrff cyhoeddus i archwilio gofynion y Ddeddf, ystyriaethau ar gyfer y dyfodol a'u canlyniadau ar gyfer datblygu polisiau ac arfer newydd.

Trefnais brosiect peilot ar fy ymagwedd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn 2018 gan fanteisio ar gyfraniad 'arloeswyr' allanol. Datblygwyd y cysyniad ymhellach gan ddau Labordy Byw eleni - gyda Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Cwm Taf ar y pwnc Profadau Niweidiol yn ystod Plentynod yn 2019 a gafodd ei freinio ymhellach gan Adran Dai Llywodraeth Cymru i'w helpu i greu gweledigaeth ar gyfer tai yng nghyd-destun ehangu 'creu-lleoedd'.

Mae'r adborth o'r rhain wedi bod yn galonogol iawn a byddaf yn edrych i weld sut y gallaf barhau i ddefnyddio'r model hwn fel rhan o fy nghyngor a chymorth i gyrrff cyhoeddus, wrth symud ymlaen.



## Effaith

### Eleni mae fy nhîm a minnau wedi:

**Fframio dadl a chael Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar yr agenda** mewn perthynas â'r modd yr ydym yn mesur cynnydd, y dyfodol, a'r angen i feddwl yn y hirdymor, ar y gwahaniaeth rhwng cynnwys ac ymgynghori. Tynnu sylw at bwysigrwydd rolau arwain mewn perthynas â chaffael i sbarduno gweithredu ar y nodau llesiant. Hyrwyddo ac egluro'r Ddeddf i'r Comisiwn Gwaith Teg (er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau â'r diffiniad o waith 'gweddus' yn y Ddeddf wedi cael eu gwneud) a rhoi tystiolaeth ysgrifenedig i'r Ymchwiliad. Rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ym mis Rhagfyr ar ddarpariaethau'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) gan gynnwys lleihau cymhlethdod a llywodraethu ar gyrrff cyhoeddus, gan wneud y ddeddfwriaeth newydd hon yn rhan integredig o'r Ddeddf.

**Annog ymrwymadau disgrysiol** gan y Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, yn dilyn fy Labordy Byw gyda BGC Cwm Taf aethant ati i herio eu hagwedd tuag at ACEs ac arweiniodd hyn at ffocysu ar, ac ymrwymo o'r newydd i gymryd camau allweddol.

**Newid y gweithdrefnau** yn y ffyrdd y mae cyrrff cyhoeddus yn mynd ati i wneud hyn, gan gynnwys y modd y mae rhai ohonynt wedi ennyn ymgynghoriad pobl. Cefnogi'r Hwb ACE i symud o godi ymwybyddiaeth i newid sefydliadol - gan wneud arfer cynaliadwy sy'n seiliedig ar drawma yn rhan annatod o wasanaethau cyhoeddus. Mae fy rownd gyntaf o fonitro ac asesu hefyd wedi newid y modd y mae rhai cyrrff cyhoeddus yn cynllunio ymlaen llaw ac yn adolygu cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant a'u hamcanion llesiant eu hunain.

**Effeithio ar gynnwys ac ymrwymadau polisi** mewn ystod eang o gynlluniau corfforaethol, strategaethau rheoli a pholisiau o ganlyniad i ymateb i dros 300 o geisiadau am gymorth. O ganlyniad i'm cyngor dros dair blynedd yn olynol, mae Cynllun Gwella Cyllideb Llywodraeth Cymru yn nodi beth ddylai natur cynnydd fod, yn nhermau'r gyllideb yn cyd-fynd â gofynion y Ddeddf.

**Dylanwadu ar newid ymddygiad ymarferol** o fewn busnesau, cymunedau a chyrrff cyhoeddus yn dilyn defnydd cynyddol o fy Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Prosiectau, Dylanio Gwasanaeth a Chraffu, ac o ganlyniad i weithdai ar y 'dyfodol'.

## Pwrpas 3 Mudiad dros Newid

Rhan bwysig o fy strategaeth fu adeiladu mudiad dros newid yng Nghymru, ac sydd hefyd yn cyrraedd ledled y Byd.

Yn gyntaf, mae angen i newid ledled y wlad fod yn draws-sector lle mae ystod eang o sefydliadau a chymunedau'n gweithio gyda'i gilydd tuag at weledigaeth y Ddeddf. Mae gwahanol sefydliadau wedi cyrraedd manau gwahanol yn eu teithiau. Mae ganddynt farn ac arferion gwahanol ynghylch datblygu cynaliadwy a chyfrifoldeb cymdeithasol yng Nghymru. Mae yna lawer y tu hwnt i'r sector cyhoeddus nad ydynt eto wedi ystyried y rhan y gallent ei chwarae a'r gwahaniaeth y gallent ei wneud, ond mae yna rai eiriolwyr rhagorol hefyd. Rwy'n ceisio bod yn frocer gonest ac yn bwyt cyswllt rhwng gwahanol rannau cymdeithas i helpu i weithredu'r Ddeddf ymhellach ac yn ddyfnach.

### Gweithio mewn partneriaeth

Roedd fy rhaglen Y Gallu i Greu yn fan cychwyn yn natblygiad llawer o bartneriaethau a chydweithrediadau dros y cyfnod adrodd. Roedd dros 250 o sefydliadau'n ymwneud â datblygu'r Teithiau sy'n benodol i bob agwedd ar y nodau a dangos sut mae sefydliadau nad ydynt yn dod o dan y ddeddfwriaeth hefyd yn croesawu ei gweledigaeth a'i hegwyddorion. Nodwedd allweddol o'r rhaglen fu cynnull unrhyw un â diddordeb a syniadau ynglŷn â sut y gallem gyflawni'r nodau yn ymarferol, a bu gweld hyn yn brofiad ysbrydoledig a chalonogol.

Rwyf wedi parhau i neilltuo llawer o fy amser dros y flwyddyn ddiwethaf i adeiladu partneriaethau o fewn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, lle mae pobl yn hyrwyddo ymagwedd Cymru tuag at ddatblygu cynaliadwy a gyrru'r newidiadau sydd eu hangen. Nid yn unig gyda chyrrff cyhoeddus ond o fewn y sector preifat, y byd academiaidd a'r sector gwirfoddol. Mae'r rhain wedi bod yn ganolog ar gyfer fy helpu i ymgysylltu'n ehangach a helpu arfer da i deithio. Yn ddiweddar, rwyf wedi llofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Phrifysgol Caerdydd a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu a chydweithio rhwng fy swyddfa a'r sector gwirfoddol a'r byd academiaidd. Rwyf hefyd yn cynnal bord gron gyda'r sector gwirfoddol ddwywaith y flwyddyn i rannu fy ngwaith ac annog deialog ac integreiddio.

### Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r angen am arweinyddiaeth gref a gwahanol wedi dod i'r amlwg fel thema glir yn fy ngwaith ac mae sawl argymhelliad yn yr Adroddiad hwn yn ymwneud â hyn. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, ym mis Rhagfyr 2019, lansiais fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod arweinwyr ifanc yng Nghymru yn ennill, yn raddol, y sgiliau angenrheidiol ar gyfer wynebu heriau yn ein gwasanaethau cyhoeddus a thu hwnt yn y dyfodol.



## Partneriaid Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol 2019-2020

- ARUP
- BBC Cymru Wales
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas Adeiladu Principality
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Scouts Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru
- Trafnidiaeth Cymru
- Prifysgol De Cymru
- Canolfan Mileniwm Cymru
- Costain
- Celsa Steel
- Simply Do
- Uprising Cymru

Mae sicrhau bod gennym y sgiliau arwain cywir yn hanfodol er mwyn i ni lwyddo i gyflawni'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ystod y rhaglen bydd y cyfranogwyr yn herio meddwl cyfredol ac yn cydweithredu ag arbenigwyr a llunwyr penderfyniadau ar yr heriau mwyaf dybryd a gobeithio y byddant yn lledaenu eu gwybodaeth yn ystod eu holl yrfaeodd yng Nghymru a thu hwnt. Bydd y rhaglen yn hyrwyddo cydweithredu traws-sector trwy alluogi arweinwyr presennol yng Nghymru i gysylltu â'r genhedlaeth nesaf a dysgu ohoni trwy ddulliau fel mentora o chwith.

## Mae blas o'r cyngor a roddais i sectorau eraill yn cynnwys:

- Parhau i weithio gydag Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru i ddatblygu ymrwymiad gan y diwydiant adeiladu i roi'r Ddeddf ar waith - hoffent i'r sector adeiladu ddod yn 45fed corff a enwir o dan y Ddeddf ac maent eisoes yn hyrwyddo ymagweddau arloesol yn unol â'r Ddeddf.
- Cefnogi gwaith cynnar gydag Economi Cylchol Cymru i ddatblygu model credyd cydfuddiannol seiliedig ar fodel Sardex yn Sardinia. Mae hyn bellach wedi derbyn cyllid ar gyfer datblygu trwy Gronfa Her Economi Sylfaenol y Llywodraeth.
- Darparu llythyrau cefnogaeth i sawl prosiect a oedd yn cwrdd â fy meini prawf, gan gynnwys ymchwil 'Trios' i'r newid yn yr hinsawdd; Ymchwil Prifysgol Caerdydd i effaith amgylcheddol ysgolion a chais eu Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ar lesiant.

Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr.

## Sut mae'r mudiad hwn eisoes wedi gwneud gwahaniaeth yng Nghymru?

### Mae engreiffiau o effaith yn cynnwys:

- Nid yw **Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru** yn dod o dan y Ddeddf ond maent wedi dangos brwdfrydedd aruthrol dros gymhwyso eu hegwyddorion.
- Mae **Panelli Inswleiddio Kingspan** wedi gosod targed iddo'i hun o ddod yn gwmni Ynni Sero-Net erbyn 2020. Mae eisoes wedi cyrraedd 75% o'i darged ac mae ei safle gweithgynhyrchu yn Holywell yn rhedeg ar ynni adnewyddadwy 100%. Mae eu cynlluniau eraill sy'n cefnogi eu cyfraniad tuag at y nod Cymru Gydnerth yn cynnwys cynyddu effeithlonrwydd adnoddau i'r eithaf ac anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi, ac mae pob un ohonynt hefyd yn helpu i gynyddu effeithlonrwydd a phroffidioldeb gweithgynhyrchu.
- Mae dau fil Aelod Preifat sy'n adlewyrchu ein Deddf wedi'u cyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'r DU.



## Effaith ryngwladol

Trwy osod rhwymedigaeth gyfreithiol i gyflawni datblygu cynaliadwy mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dal yr unig ddeddfwriaeth o'i math yn y byd. Fe'i hystyrir yn enghraifft flaenllaw i eraill gan y Cenhedloedd Unedig.

Rwyf wedi fy synnu ac yn falch iawn o ymateb sefydliadau, llywodraethau ac unigolion ledled y byd i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n parhau i ysbrydoli ac effeithio ar newid rhyngwladol.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae fy nhîm a minnau wedi cyfarfod â llawer o swyddogion y llywodraeth a sefydliadau rhyngwladol i dynnu sylw at y gwaith y mae Cymru'n ei wneud mewn perthynas â llesiant a datblygu cynaliadwy. Rwyf wedi dysgu oddi wrth eraill ac wedi rhannu ein gwaith ar mwyn gwella'n cymorth i gyrff cyhoeddus yma yng Nghymru.

Dyma rai o'r enghreifftiau o'r modd yr rwyf wedi codi proffil rhyngwladol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

### Mynd â Chymru i'r Byd...

- Parhau i gadeirio (ers 2017) y Rhwydwaith Sefydliadau Cenedlaethau'r Dyfodol - corff o gomisiynwyr neu gyrff tebyg, sydd â chyfrifoldebau dros gynrychioli anghenion cenedlaethau'r dyfodol ledled y byd.
- Annerch Fforwm Gwleidyddol Lefel Uchel y Cenhedloedd Unedig i drafod y gwersi rydyn ni wedi'u dysgu yng Nghymru ynglŷn â 'gadael neb ar ôl,' sydd, yn fy marn i, yn egwyddor hanfodol i ddeddfwriaeth Cymru.



- Rhannu ein hymagwedd unigryw gyda Chennad Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd a Chennad Arbennig Ieuenctid y Cenhedloedd Unedig.



- Mynd â grŵp o gynrychiolwyr o Gymru am y tro cyntaf i fforwm byd-eang [One Young World](#). Ein neges oedd mai ni yw'r unig wlad yn y byd i ddeddfu ar ran cenedlaethau'r dyfodol a bod Cymru'n gwerthfawrogi barn a syniadau ein harweinwyr ifanc. Ers hynny, mae One Young World wedi ymrwmo i hyrwyddo'r angen i wledydd eraill fabwysiadu deddfwriaeth debyg.



- Yn 2019, bûm yn annerch cynhadledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 'Putting Well-being Metrics into Policy Action' ym Mharis i fyfyrion ar y gwahanol dechnegau ac ymagweddau tuag at fesur llesiant.



- Annerch Sefydliad Dyfodol y Cynulliad Cenedlaethol yn Ne Korea i rannu pwysigrwydd meddwl yn yr hirdymor. O ganlyniad i'r ymgysylltiad hwn, rwyf wedi datblygu ymhellach gapasiti rhagwelediad yn fy swyddfa.



## ...A'r Byd i Gymru

- Wedi cwrdd â'r Pwyllgor Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc, Cynulliad Deddfwriaethol Gorllewin Awstralia.



- Wedi cwrdd ag Arweinydd Cyngor Cernyw a'r ddirprwyaeth i rannu ymagweddau tuag at lesiant.
- Cynhadledd OECD ym Mharis – gan ddysgu o arfer ledled y byd ar fesur llesiant i ysgogi newid polisi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Gellir darllen crynodeb o effaith fy ngweithgareddau rhyngwladol [yma](#). Mae fy ymgysylltiadau rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n gyson. Lle bo modd, gofynnaf am bresenoldeb rhithwir neu ddigidol ac rwyf wedi cymryd rhan yn llwyddiannus mewn ystod o gynadleddau a digwyddiadau fel hyn. Rwyf hefyd yn archwilio opsiynau trafniadaeth a llety cynaliadwy pan fyddaf yn teithio. Mae fy allyriadau carbon yn cael eu gwrthbwyso bob blwyddyn.

O ran effaith tynnu'r DU allan o'r UE, er bod yr effaith uniongyrchol ar fy ngweithgaredd a'm canlyniadau fy hun yn annhebygol o fod yn sylweddol, mae ein gwaith yn cyd-fynd â Strategaeth Llywodraeth Cymru i ddiffinio a hyrwyddo a dwyn yr hyn y mae Cymru'n ei wneud i'r Byd.



## Effaith

### Eleni mae fy nhîm a minnau wedi:

**Ysbrydoli, dylanwadu a chodi ymwybyddiaeth** o'r Ddeddf ar draws ystod eang o bobl a sefydliadau, yn amrywio o staff rheng flaen i arweinwyr, cymunedau a phobl ifanc yng Nghymru a thu hwnt. Arddangosais ddeddfwriaeth Cymru a chenedlaethau'r dyfodol i gynulleidfaoedd ryngwladol ac i ASau yn Senedd y DU a chynorthwysais ddatblygiad bil aelodau preifat yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Creu darlithoedd ac ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr ym Mangor, Abertawe, Caerdydd a Phrifysgol De Cymru, a gweithio gydag arweinwyr busnes ar y Ddeddf, gan weithio trwy rwydweithiau fel Busnes yn y Gymuned. Cynrychiolais Gymru yn Uwch Fforwm Gwleidyddol y Cenedlaethol Unedig, Uwchgynhadledd Llywodraeth y Byd ac One Young World a chefais fy enwi fel un o 100 Ysgogwr Newid gorau'r DU. Ym mis Medi 2019, roeddwn yn westai ar bodlediad poblogaidd Ed Miliband, 'Reasons to be cheerful', gyda phennod o'r enw: 'Back to the Future: representing the coming generations', gan helpu i rannu stori Cymru gyda chynulleidfa ehangach.

**Annog ymrwymiad disgrysiol gan cyrff cyhoeddus** i fwrw mlaen â'r Newidiadau Syml a meddwl am ba gamau y byddent yn ymrwymo i'w cyflawni. Mae darparu 'Teithiau' o 'newidiadau syml' i 'arwain y ffordd' wedi rhoi fframwaith i gyrrff cyhoeddus ac eraill i fonitro cynnydd yn ei erbyn. Wedi gweithio gydag Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru ar nifer o ddigwyddiadau gan arwain at y sector adeiladu yn gofyn am fod y 45fed corff sy'n dod o dan y Ddeddf.

**Newid y gweithdrefnau** ar y modd y mae ysgolion, colegau, grwpiau cymunedol ac eraill yn ymgorffori'r Ddeddf yn eu gwaith. Mae cwmnïau ymgynghori fel Mott McDonald ac Arup wedi manteisio ar fy Fframweithiau i ddylunio offer i sicrhau bod eu gwaith yn cyfrannu at weithredu'r Ddeddf yn llawn.

**Effeithio ar gynnwys ac ymrwymadau polisi** trwy sicrhau'r Ddeddf fel rhan allweddol o strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru, a dylanwadu hefyd ar ddatblygiad polisi ar lesiant yn y DU, Canada, yr Emiraethau Arabaidd Unedig a Seland Newydd.

**Dylanwadu ar newid mewn ymddygiad ymarferol** mewn ystod eang o sefydliadau o fusnes, grwpiau gwirfoddol ac addysg. Mae llawer o fusnesau Cymru wedi croesawu'r Ddeddf, gan gyflogi pobl leol, ceisio rhoi yn ôl i'w hardaloedd, ailddefnyddio ac ailgyflenwi deunyddiau, ceisio cael effaith amgylcheddol isel, gan seilio'u gwerthoedd a'u pwrpas ar gynaliadwyedd. Er enghraifft, dywedodd Cyrchfan Parc Cenedlaethol Bluestone: "Mewn gair: ceisiwch beidio â gwneud unrhyw beth heddiw y bydd yn rhaid i'n plant dalu amdano yfory."

## Pwrpas 4

# Gweithredu'r trafodaethau ac ysgwyddo'r hyn yr ydym yn dymuno ei weld mewn eraill

Mae'r adran hon yn ymwneud â'm hymagwedd sefydliadol i fy hun tuag at ddatblygu cynaliadwy ac mae'n tynnu sylw at y modd yr ydym i a fy nhim wedi cyfrannu at gyflawni saith nod y Ddeddf ac wedi defnyddio'r pum dull o weithio. Rwy'n gobeithio bod yr adran hon hefyd yn darparu ysbrydoliaeth ac yn datblygu dealltwriaeth ymhlith cyrff cyhoeddus ac eraill o'r camau ymarferol y gallant eu cymryd i gyflawni gofynion y Ddeddf.

Unwaith eto, rwyf wedi defnyddio'r pum dull o weithio ac wedi ceisio maximeiddio'n cyfraniad i'r nodau llesiant. Er fy mod yn priodoli pob stori i nod penodol, mae'n bwysig cofio natur integredig llesiant a'r egwyddor integreiddio, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at fwy nag un nod.

Mae'r crynodeb isod hefyd yn gwireddu fy nyletswyddau adrodd o dan foamrywiaeth ac ecosystemau Adran 6 yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

### I weithredu'r trafodaethau ar Gymru Lewyrchus, eleni rwyf wedi:

- Parhau i fod yn gyflogwr [Cyflog Byw gwirioneddol](#).
- Cyflogi ail brentis ac wedi darparu cyfleoedd i fyfyrwyr trwy leoliadau taledig.




Cyfarfod fy mhrentis newydd Rhiannon



- Rhoi cyfleoedd i bobl rannu a dysgu sgiliau newydd trwy secondiadau i mewn ac allan.
- Cefnogi datblygiad sgiliau yn fy sefydliad. Mae hanner cant y cant o fy nhim staff presennol bellach wedi dod yn hyfforddwyr achrededig Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth.
- Cefnogi busnesau annibynnol i ddarparu ein cynnwys digidol neu ein harlwygo er enghraifft, [Yogi Communications](#), [Girl and Boy](#), [Celf Creative](#), [Cater Nature](#), [bigmoose](#), [Women Connect First](#) a [Green Shoots Catering](#).
- Edrych am gadwyni cyflenwi moesegol wrth chwilio am nwyddau a gwasanaethau i'n swyddfa - fel cael ein sebonau hylendid personol oddi wrth fusnes annibynnol [Cole and Co](#) sy'n ei gynhyrchu yn eu safle yng Nghaerdydd gyda chynhwysion Cymreig.



2 Skype meetings done by midday has let me connect with 30 colleagues already! Will have to get used to spending more time at my "home desk" & making the most of digital tech so we can keep working in these uncertain times #agile



- Parhau â'r fargen gyflog uwch ar gyfer staff ar gyflog is a blaendorri cyflogau'r bobl sy'n ennill dros £40k a'i dalu i mewn i bot lles.
- Monitro teithio, gwastraff, trydan, dŵr a nwy yn unol â chynghor Llywodraeth y DU ar fesur allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol - mae dros dri chwarter fy nhim yn teithio i'r gwaith fel rheol ar drafnidiaeth gyhoeddus neu deithio llesol.
- Yn 2019-20, gostyngodd milltiroedd ceir o 52%.
- Parhau i wneud iawn am fy allyriadau trwy roi rhoddion i Maint Cymru a Coed Cadw.
- Parhau â'n polisi 'Gweithio ar Unrhyw Adeg o Unrhyw Le' sydd wedi bod ar waith ers diwrnod 1. Mae hyn yn lleihau angen tîm i deithio'n ddiangen ac yn cefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith - mae'n ein rhoi mewn sefyllfa dda wrth addasu i weithio gartref o ganlyniad i argyfwng COVID-19.
- Parhau i ddefnyddio [Ecotricity](#), i ddarparu ynni adnewyddadwy 100% i ni.
- Ailosod offer fideo-gynadleda ail-law a chynnal cyfarfodydd yn rheolaidd trwy Skype, FaceTime a Microsoft Teams.
- Compostio gwastraff swyddfa ac ailgylchu ac annog gweithio heb bapur.
- Cael y rhan fwyaf o'm dodrefn swyddfa yn ail law gan Lywodraeth Cymru a mentrau cymdeithasol lleol. Prynu unrhyw ddodrefn a gaffaelwyd yn unol â'n polisi i 'ystyried gwerth am arian fel y cyfuniad gorau posibl o gostau-oes-gyfan yn nhermau nid yn unig gynhyrchu arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o ansawdd da i'r sefydliad, ond hefyd bod o fudd i gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd, yn awr ac yn y dyfodol'.

### Persbectifau ar Gymru Lewyrchus

gan Kimberley Mamhede a Chloe Winstone, cyfranogwyr yn fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

*“Rwy'n arbennig o frwd ynglŷn â chefnogaeth entrepreneuriaidd. Trwy ddysgu sgiliau entrepreneuriaeth i bobl - creadigrwydd, chwilfrydedd, datrys problemau, meddwl yn strategol, sgiliau meddal fel cyfathrebu ac empathi - byddwn nid yn unig yn uwchsgilio cyfraniad Cymru i'r DU a'r economi fyd-eang, ond byddwn hefyd yn creu cyfleoedd diddiwedd i'r gymuned. Mae entrepreneuriaeth yn cynnig llwybr hirdymor allan o dlodi; yn enwedig i'r rhai mewn cymdeithas sydd wedi profi rhwystrau i gyflogaeth. Trwy ddysgu'r sgiliau sy'n caniatáu meddwl yn entrepreneuriaidd, bydd unigolion yn gallu cefnogi eu hunain yn well mewn byd sy'n newid yn gyson, gyda mwy o gefnogaeth i fentrau annibynnol a mentrau cychwynnol, gan ganiatáu agor drysau newydd i bobl ifanc, yn enwedig y rhai oedd o'r blaen heb gynrychiolaeth ddigonol.*

*Dylai cyrff cyhoeddus gefnogi busnesau a mentrau cychwynnol trwy weithio gyda chorfforaethau fel banciau i lunio rheoliadau a fydd yn caniatáu i bobl archwilio ystod eang o syniadau heb eu cyfyngu i syniadau sy'n cael eu hystyried fel rhai diogel neu draddodiadol, er mwyn cynyddu nifer y syniadau busnes sy'n cael cyfle i ddwyn ffrwyth. Dylid annog cyrff cyllido a darparwyr cyllid i gefnogi cyllid gwyrdd. Byddai hyn yn golygu bod yr holl fenthyciadau neu gyfleoedd cyllido sydd ar gael i fusnesau yn cael effaith gynaliadwy a/neu fudd cymdeithasol arall i gymdeithas.”*



### I weithredu'r trafodaethau ar Gymru Gydnerth, eleni rwyf wedi:

- Darparu adborth manwl ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth i bob un o'r 44 corff cyhoeddus fel rhan o'm gwaith monitro ac asesu.
- Gweithio gyda'r Llywodraeth i ddiwygio Polisi Cynllunio Cymru gan sicrhau bod y fframwaith newydd yn ystyried materion fel Cymru Gydnerth.
- Herio Ffordd Liniaru'r M4 lle defnyddiais fy mhwerau i ddarparu cyngor a her i'r Llywodraeth ar yr effaith negyddol y byddai adeiladu'r ffordd hon yn ei chael ar Gymru Gydnerth.
- Gwneud y gorau o leoedd gwyrdd naturiol Caerdydd i gynnal cyfarfodydd tîm awyr agored ym Mharc Bute – pan fydd y tywydd yn caniatáu!




Setting up for a meeting in the park 🌿🌳 Well-being starts in the workplace 😊 #TeamFG



- Cyflwyno polisi gwirfoddoli lle gall staff gymryd amser i rannu eu sgiliau gyda'r gymuned a dod â dealltwriaeth yn ôl i'r swyddfa i drwytho ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn mentrau amgylcheddol lleol. Mae aelod o fy nhîm hefyd yn trefnu teithiau cerdded yn ystod y penwythnos gyda bigmoose, gan ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus i ymweld â rhai o dirweddau hardd Cymru, dysgu am yr amgylchedd naturiol a hybu iechyd corfforol a meddyliol.
- Hyrwyddo podlediad 'Seismic Wales' y mae aelod o fy nhîm yn un o'r rhai sy'n ymgyfrannu ynddo. Mae hyn yn canolbwyntio ar fentrau lleol, cymunedol gyda ffocws cryf ar yr amgylchedd, e.e. pennod 14 gyda '[Wildly Pip and dipping your toe in nature](#)'.



#AnytimeAnywhere working with @futuregencymru means being at my mums house, looking after our dog and the builders doing the new bathroom, while dialling in to a walking meeting in Bute Park with the rest of the team. How lucky we are to have an organisation that works like this!



- Rwyf wedi ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth o fewn fy nhîm i wneud bioamrywiaeth yn rhan annatod o'r broses benderfynu.



Check out the birdsong in our latest episode with @wildtypip!


We caught up with her (before the lockdown) about how we can all enjoy nature this Spring.

Listen here or on your favourite podcast app: [soundcloud.com/seismicwales/e...](https://soundcloud.com/seismicwales/e...)






**Defnydd ynni swyddfa a milltiroedd busnes**




**2019-20 Argraffu swyddfa (nifer o gopiau, cyfartaledd wythnosol)**



**I weithredu'r trafodaethau ar Gymru o Gymunedau Cydlynus, eleni rwyf wedi:**

- Cefnogi ein helusen y flwyddyn - bigmoose, sefydliad menter gymdeithasol â'i chenhadaeth i 'adael y byd mewn gwell cyflwr nag yr oedd pan wnaethom ei ddarganfod'.



- Codi arian i'w roi i elusennau digartrefedd, gan gynnwys y fenter 'Tenner for Good'.



- Agor ein swyddfa i sefydliadau eraill a chaniatáu iddynt rannu desgiau neu ddefnyddio'r swyddfa fel man lle gallant gynnal cyfarfod.
- Sefydlu polisi gwirfoddoli staff - mae staff wedi gwirfoddoli gyda [Cymorth i Ferched Cymru](#), Scouts Cymru, 'park run' i loches digartrefedd, a sefydlu clwb cerdded.
- Cefnogi mentrau, fel [Beauty Banks](#) a chyfnewid dillad, i godi arian i'n ein helusen ac i ddarparu eitemau ymolchi i bobl sy'n ddigartref neu'n ffoi rhag camdriniaeth.
- Sefydlu sesiynau cinio a dysgu i glywed profiadau bywyd go iawn pobl, er enghraifft dioddefwyr cam-drin domestig, cynhyrchwyr Masnach Deg.
- Dod y cyflogwr cyntaf yng Nghymru i gynnig tâl absenoldeb cam-drin domestig i staff - mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Castell-nedd Port Talbot a Chomisiynydd Plant Cymru bellach wedi dilyn ein harweiniad.
- Sefydlu siop cyfnewid dillad. Rydyn ni'n cynnal trafodaethau gyda sefydliadau ar y modd y gallwn weithio gyda nhw i ddarparu dillad i bobl i'w helpu i gael gwaith.
- Datblygu plattform ymgyfrannu â'r gymuned a osododd fy meysydd ffocws ac a arweiniodd at bartneriaeth gydag Interlink i sefydlu ail fersiwn 'Llwyfan y Bobl' sydd wedi parhau i'r wytho gwaith y swyddfa a'r adroddiad hwn.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i arallgyfeirio cynrychiolaeth ar fy Mhanel Cyngori i'w wneud yn fwy cynrychiadol o, ac wedi eu trwytho gan gymunedau yng Nghymru.

### Persbectifau ar Gymru o Gymunedau Cydlynus

gan Joshua Beynon ac Elenid Roberts, cyfranogwyr yn fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.


*“Cefais fy ngeni mewn cymuned wledig lle'r oedd pawb yn adnabod ei gilydd fel teulu neu ffrindiau. Ar ôl symud i ffwrdd o'r ardal honno, roedd pethau'n amlwg yn wahanol. Fe'm trawodd ar unwaith nad wyf yn adnabod llawer o bobl ar fy stryd. Rydyn ni'n rhannu'r un cyfleusterau, yn rhan o'r un gymuned a chymdeithas ehangach ac ni ddylai fod felly. Dylai ein cymunedau ymdrechu i fod mewn mwy o gysylltiad â'i gilydd. Rydyn ni wedi buddsoddi cymaint yn ein bywydau ein hunain nes ein bod ni'n aml yn anghofio ein bod ni'n rhan o ddarlun mwy, a gyda'n gilydd, rydyn ni'n gryfach o lawer. Rwyf am gael fy amgylchynu gan fannau gwyrdd agored sy'n asio seilwaith trefol â lleoedd gwledig agored sy'n sicrhau'r cydbwysedd gorau. Mae'r byd hwn yn bosibl, mae angen i'n cyrff cyhoeddus roi cynnig ar rywbeth newydd.*

*Fy ngweledigaeth yw bod cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda chymunedau lle mae'r hyn sy'n bwysig i bobl leol ar ben yr agenda, lle mae cryfderau'n cael eu hadeiladu a lle mae gwendid yn cael ei gefnogi a'i ddatblygu'n gryfder ar gyfer y dyfodol. Mae'r drws yn agored i'r cyfleoedd hyn gyda'r darn hwn o ddeddfwriaeth.”*



### I weithredu'r trafodaethau ar Gymru lachach, eleni rwyf wedi:

- Parhau i gynnig yr ymagwedd 'unrhyw bryd o unrhyw le' tuag at oriau gwaith. Mae hyn wedi lleihau ein hangen i deithio'n ddiangen, yn caniatáu inni dreulio amser o ansawdd gyda'n teulu ac mae'n dibynnu llawer ar ymddiried yn ein gilydd i gyflawni.




- Parhau i gynnig cronfa llesiant staff lle gall aelodau o fy nhim gyrchu hyd at £250 y flwyddyn i gefnogi eu llesiant (ariennir hyn gan barodrwydd uwch staff i aberthu cynnydd mewn cyflog).

- Caniatáu cynnal dosbarthiadau yoga i fy staff yn fy swyddfa, a'u cadw agored i'r rhai sydd wedi gadael y sefydliad.



- Cofrestru yn [Siarter Teithio Iach Caerdydd](#) dan arweiniad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd.



- Gweithio gyda fy nhîm i ddisgrifio ein 'Haddewid Llesiant', gan adnabod a gweithredu mentrau llesiant sy'n bwysig i ni. Rydym yn cynnal 'seiad llesiant' i adolygu cynnydd ac mae gennym ystod o fentrau sy'n ffynnu gan gynnwys clwb rhedeg, yoga yn gynnar yn y bore (wedi'i ariannu gan y cyfranogwyr), côr swyddfa a chyfarfodydd awyr agored. Loceri wedi'u darparu ar gyfer staff fel y gallant storio eu hoffer chwaraeon i gymryd rhan mewn ymarfer corff fel rhan o'u diwrnod gwaith. Caffaelwyd y rhain gan y [Ministry of Furniture](#) yng Nghastell-nedd.
- Rydym ni'n cynnal cyfarfodydd cerdded yn rheolaidd neu'n cael cyfarfodydd ym Mharc Bute.
- Yn ddiweddar rydym ni wedi cyflwyno cynhyrchion glanweithdra benywaidd ar gyfer ein timau trwy [Hey Girls](#) sy'n rhoi swm cyfatebol i helpu merched neu fenywod mewn angen.



### I weithredu'r trafodaethau ar Gymru sy'n Fwy Cyfartal, eleni rwyf wedi:

- Parhau i feincnodi fy mhroffil amrywiaeth gweithlu bob blwyddyn yn erbyn yr ystadegau cenedlaethol ac rwy'n falch o amrywiaeth fy Nhîm bach. Er bod 76% o fy nhîm staff presennol yn disgrifio'u hunain fel Cymry Gwyn neu Brydeinwyr Gwyn, mae'r 24% sy'n weddill yn cynrychioli pedwar ethnigrwydd arall gwahanol gan gynnwys Asiaidd, Du a lleiafrifoedd ethnig, a gwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd.
- Cynnig pecyn gwell ar gyfer absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu gan gynnwys chwe mis o dâl llawn am absenoldeb mamolaeth a mabwysiadu a gostyngiad o 50% mewn oriau gyda thâl llawn yn ystod y mis cyntaf yn ôl.
- Cynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol trwy ein Llwyfan y Bobl sydd newydd ei ddatblygu, a digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid Asiaidd, Du a lleiafrifoedd ethnig i sicrhau ein bod yn dal safbwyntiau pobl o bob cefndir. Mae [Diverse Cymru](#) a grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol wedi cynnal digwyddiadau i ni eu cynnwys yn fy [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#).
- Parhau i fod yn fentor i'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod.
- Creu cronfa hygyrchedd ar gyfer ein Hacademi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol i annog cyfranogiad o ystod eang o gefndiroedd gan gynnwys y rhai hynny ag anableddau neu gyfrifoldebau gofal.
- Gweithio gydag Anabledd Dysgu Cymru, Canllaw Ymwybyddiaeth Pobl Fyddar a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall; rwyf wedi ceisio gwella'r modd yr ydym yn cyfleu fy ngwaith ac wedi defnyddio fersiynau laith Arwyddion Prydain a fersiwn Hawdd ei Ddeall o fy nau adroddiad blynyddol diwethaf.
- Gwella ein polisi absenoldeb arbennig a'n polisi ar gyfer cefnogi pobl sy'n profi cam-drin domestig.
- Treialu meddalwedd i sicrhau bod fy ngwefan yn gwbl hygyrch ar gyfer ystod o bobl â namau.

### Persbectifau ar Gymru sy'n Fwy Cyfartal gan Joshua Beynon a Kirsty James, cyfranogwyr yn fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

“A allwn ni ddweud â'n llaw ar ein calon, bod Cymru'n gyfartal heddiw? Na, ond a all fod? Gall. Mae Cymru'n wlad sy'n llawn o bobl gyffredin sy'n gwneud pethau anghyffredin, ac rwy'n gweld Cymru yn y dyfodol yn wlad lle bydd gennych yr un cyfleoedd â phawb arall, pa god post bynnag yr ydych yn byw ynddo, neu ble bynnag y cawsoch eich geni neu gan bwy bynnag y cawsoch eich magu.”



### I weithredu'r trafodaethau ar Gymru sy'n Gyfrifol ar lefel fyd-eang, eleni rwyf wedi:

- Trefnu i gael ein papur toiled oddi wrth [Who Gives a Crap](#) sy'n helpu i adeiladu toiledau a gwella glanweithdra yn y byd sy'n datblygu.
- Gwahardd cwpanau plastig untro o'r swyddfa.
- Defnyddio cyflenwyr moesegol lle bo hynny'n bosibl a lleihau gwastraff.
- Croesawu Jenipher Wettaka Sambazi yn 2020 o Uganda sy'n gynhyrchydd Masnach Deg i egluro drosti hi ei hun sut mae Masnach Deg yn gweithio'n ymarferol ac ar lawr gwlad, gydag Elen Jones o Fasnach Deg Cymru.

- Annog eraill i gyfrannu tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a gweithio gydag asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig ac uwch swyddogion i hyrwyddo ymagwedd unigryw Cymru.



### Persbectif ar Gymru sy'n Gyfrifol ar lefel fyd-eang

gan Jonathan Grimes, cyfranogydd yn fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

“Gall Cymru fod yn ddinesydd cyfrifol a gall sbarduno newid mewn byd sydd ar hyn o bryd yn defnyddio adnoddau'r Ddaear ar raddfa anghynaliadwy. Er mwyn i Gymru sefydlu ei hun fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang, mae angen iddi arddangos ymddygiadau moesegol drwy ei holl gadwyni cyflenwi - er enghraifft, Gwasanaeth Arlwygo Cymru Gyfan sydd bellach yn caffael ei gynnyrch yn lleol neu o Fasnach Deg. Hoffwn i Gymru fod yn bartner sy'n rhannu gwybodaeth ac yn cyflawni trwy arfer teg. Fel cenedl os yr ydym yn parhau i gydnabod bod gennym gryfder yn ein hamrywiaeth, mae gennym gyfle i fod y genedl y mae pobl yn meddwl amdani pan ofynnir iddynt enwi'r wlad fwyaf caredig yn y byd i'w phobl ac ymwelwyr fel ei gilydd. Gallwn ddod yn fyd-enwog am ein “Croeso”.”



### I weithredu'r trafodaethau ar Gymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu eleni rwyf wedi:

- Annog Cymraeg i gael ei siarad heb waharddiad yn fy swyddfa - mae tua traean o fy nhîm naill ai'n rhugl neu'n hyfedr yn y Gymraeg.
- Penodi Bardd Preswyl sy'n siarad Cymraeg yn 2019 mewn partneriaeth â [Llenyddiaeth Cymru](#). Mae Rufus Mufasa yn fardd perfformio dwyieithog sy'n cyfuno barddoniaeth â hip hop a rap.



- Cefnogi fy Nhîm i rannu adolygiadau a gwybodaeth am weithgareddau diwylliannol trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Mae diwylliant ac iaith yn cynnig y sgiliau meddalach sy'n ofynnol ar gyfer meddwl yn greadigol y dyfodol.
- Wedi siarad yng [Ngŵyl Lenyddol y Gelli](#), yr [Eisteddfod Genedlaethol](#) ac [Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd](#) ac wedi cynnal gweithgareddau gyda phobl ifanc a rhanddeiliaid eraill.
- Hyrwyddo diwylliant a'r Gymraeg ar y llwyfan byd-eang gan gynnwys bod y person cyntaf i siarad Cymraeg yn Fforwm Gwleidyddol Lefel Uchel y Cenhedloedd Unedig, Uwchgynhadledd Llywodraeth y Byd ac One Young World.



Eurgain Powell  
@EurgainHPowell

Thank you Andrew & Dr Bike  
[@cycletraining](#) for checking & servicing my bike today so I can keep riding safely to work [@futuregencymru](#)  
[#HealthyTravelCardiff](#) [#ActiveTravel](#)





**Persbectifau ar Gymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu** gan Molly Palmer a Gwenfair Hughes cyfranogwyr yn fy Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

“Dyma'r un nod sydd wir yn ein diffinio ni fel cenedl. Mae'n dangos ein hyder mewn bod eisiau dathlu'r hyn sy'n ein gwneud ni'n unigryw. Mae diwylliant yn helpu i fynegi'r pethau sy'n bwysig i ni. Mewn oes dechnolegol sy'n tyfu, mae'n debygol o ddod yn fwy dylanwadol fel ffordd o'n cefnogi mewn gwaith a bywyd bob dydd. Nid yn unig ddiwylliant traddodiadol Cymru ond hefyd ddiwylliant Cymreig modern sy'n dathlu amrywiaeth y gwahanol ddiwylliannau sy'n bodoli yng Nghymru heddiw. Mae gallu mynegi eich hun yn yr iaith o'ch dewis hefyd yn bwysig iawn. Rydyn ni'n gwneud synnwyr o'r byd trwy ein hiaith a'n diwylliant. Maen nhw'n perthyn i ni ac felly maen nhw'n werth eu dathlu. Nawr, yn fwy nag erioed, mae'n bwysig ein bod ni'n edrych ar y pethau sy'n ein gwneud ni'n unigryw, yn sefyll allan o weddill y byd. Ni ddylid fyth danamcangyfrif ein diwylliant a'n hiaith.”



# Beth fyddwn ni'n ei wneud yn ystod y 12 mis nesaf

## Tynnu sylw at y materion a'r heriau polisi allweddol sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol a gweithredu arnynt - yn enwedig cefnogi adferiad dilyn COVID-19

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu fframwaith arweiniol ar gyfer sut y dylem geisio ymateb i argyfwng COVID-19 yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i ni wneud y penderfyniadau cywir, i'n helpu i symud tuag at agwedd tymor hwy ac ataliol tuag at y modd yr ydym yn rhedeg ein cymdeithas a'n gwasanaethau cyhoeddus.

Yn y misoedd i ddod, gan weithio gyda'r Comisiynwyr a'r sefydliadau eraill, byddaf yn darparu cyngor ac yn rhannu enghreifftiau o arfer da a drwg sy'n deillio o'r achosion. Mae hyn er mwyn sicrhau bod Cymru yn parhau i symud tuag at y weledigaeth a nodir yn y Ddeddf ac nad yw'n symud tuag yn ôl yn dilyn y pandemig. Byddaf yn tynnu ar argymhellion yn fy [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#), gan anelu at gefnogaeth ddiogel gan y Llywodraeth a rhanddeiliaid eraill ar yr argymhellion sy'n arbennig o berthnasol i adferiad COVID-19.

Byddaf yn defnyddio ein rhwydweithiau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a'n capasiti ymchwil i ategu'r syniadau a'r argymhellion gan roi enghreifftiau ymarferol a syniadau o ymagweddau tuag at adferiad yn dilyn COVID-19. A byddaf yn cadw llygad barcud ar yr hyn y mae partneriaid eraill yn ei wneud (gan weithio'n uniongyrchol gyda rhai) a chael fy nghysylltu â'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad i nodi'r da a'r drwg a phenderfynu beth sydd angen i ni ei gadw a beth sydd angen i ni ei atal wrth symud at y 'normal newydd.'

Fel rhan o hyn, byddaf yn parhau i sbarduno cynnydd ac yn gweithredu ar fy meysydd ffocws, yn enwedig parthed thema droswaol economi llesiant, i gynnwys:

1. Pecyn ysgogi economaidd sy'n arwain at greu swyddi ac sy'n cynorthwyo datgarboneiddio cartrefi, drwy adeiladu tai newydd carbon isel fforddiadwy a buddsoddi mewn rhaglen genedlaethol i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol.
2. Buddsoddiad yn gwell dulliau o gysylltu a symud pobl, drwy wella cysylltedd digidol, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.
3. Buddsoddiad yn sgiliau a hyfforddiant i gynorthwyo'r trawsnewid i well dyfodol, gan greu swyddi newydd gwyrddach.
4. Buddsoddiad yn natur a rhoi blaenoriaeth i ariannu a chymorth gradda fawr i adferiad cynefinoedd a bywyd gwylt, creu a chysylltedd ledled Gymru – yn cynnwys ar gyfer amddiffynfeydd llifogydd naturiol, gweithredu'r goedwig genedlaethol newydd a sicrhau bod rheoli defnydd tir ac amaeth yn cynorthwyo sicrhau cadwyni bwyd lleol a dosbarthu.
5. Buddsoddiad yn niwydiannau a thechnolegau'r dyfodol, a chynorthwyo busnesau, a fydd yn helpu Cymru i arwain y chwyldro carbon isel a chloi cyfoeth a swyddi mewn ardaloedd lleol gyda buddsoddiad yn yr economi sylfaenol.

Mae llywodraethu'r llywodraeth a chyrrff cyhoeddus hefyd yn faes rwy'n awyddus i'w archwilio, er mwyn helpu i sbarduno diwylliant gwaith integredig a chydweithredol yng Nghymru sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Rwyf wedi oedi'r gwaith ar fy Adolygiad Adran 20 cyntaf i gymhwyso'r Ddeddf ym maes caffael, a gychwynnais ym mis Mawrth 2020. Bydd yr adolygiad yn ailddechrau pan fydd yn bosibl ei gynnal mewn modd priodol a phan fydd gan gyrff cyhoeddus y gallu i ymateb.

## Cefnogi a herio cyrff cyhoeddus i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cyhoeddais fy [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol](#) cyn 5 Mai 2020, fel sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth, a byddaf yn lansio cyfres lawnach o gynhyrchion cysylltiedig yn ddiweddarach yn yr Haf. Oherwydd argyfwng COVID-19, ni fyddaf yn disgwyl i gyrff cyhoeddus ymateb iddo yn y tymor byr ond byddaf yn cymryd stoc yn rheolaidd gyda'r Archwilydd Cyffredinol pan allwn yn rhesymol ddisgwyl i gyrff cyhoeddus fod mewn sefyllfa i ymateb yn llawn. Yn y cyfamser, byddaf yn ei gwneud yn glir i'r Llywodraeth, er nad wyf yn disgwyl ymateb llawn ar unwaith, bod yn rhaid iddynt roi trefniadau ar waith i sicrhau bod y cyngor a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried lle mae polisiâu newydd yn cael eu cyflwyno – yn y tymor byr hefyd.

Nid wyf yn gweld datblygu a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn nod ynddo'i hun. Fe fydd yn etifeddiaeth bwysig y bydd gwaith fy swyddfa'n seiliedig arno wrth symud ymlaen, am weddill fy nhymor yn y swydd a thu hwnt - yn enwedig mewn perthynas â chynllun adferiad Cymru yn dilyn COVID.

Byddaf yn defnyddio cynnwys yr Adroddiad fel meincnod wrth arfer fy nyletswydd monitro ac asesu, gan edrych yn benodol ar sut y bydd fy argymhellion yn cael eu gweithredu. Defnyddir y canfyddiadau allweddol fel canolbwynt ar gyfer y cyngor y byddaf yn ei roi i gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ogystal â fy helpu i ddewis y meysydd i'w hadolygu o dan fy mhwerau Adran 20.

Yn ystod y misoedd yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, byddaf yn canolbwyntio:

- Ar rannu ei ganfyddiadau â'r nifer fawr o sefydliadau a hyrwyddwyr yr wyf wedi ymgyfrannu â nhw, i barhau i ddatblygu mudiad dros newid o amgylch y Ddeddf a cheisio cefnogaeth sefydliadau mawr a bach, gwirfoddol, preifat a chyhoeddus ledled Cymru.
- Ar helpu cyrff cyhoeddus i wneud fy nghyngor yn rhan annatod o'u gwaith.
- Ar ddefnyddio'r canfyddiadau i ddod â phobl o bob rhan o Gymru ynghyd i ddarparu syniadau ac arweinyddiaeth ar sut y gallwn ddiwygio polisi a gwasanaethau yng ngoleuni pandemig COVID-19.
- Ar weithio gyda phleidiau gwleidyddol i sicrhau bod yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cael eu mabwysiadu yn eu manifestos ar gyfer Etholiad nesaf y Cynulliad.

Byddaf yn parhau i weithio'n agos gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddatblygu ei drefn archwilio newydd. Byddaf yn cadw golwg ar 'amcanion llesiant' cyrff cyhoeddus. Disgwylir adroddiadau blynyddol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2020 a byddaf yn cwblhau fy null o adolygu'r rhain. Bydd fy nhim yn parhau i ymateb i geisiadau am gyngor a chymorth hyd eithaf ein gallu.

## Mudiad ar gyfer Newid

Trwy'r gweithgareddau uchod, byddaf yn creu mudiad ar gyfer newid. Byddaf yn parhau i gynnwys ac ymgyfrannu â phobl a phartneriaid a gymerodd ran yn y sgwrs Cymru Ein Dyfodol ac yn ceisio ehangu'r rhwydwaith hwn ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.

Byddaf yn parhau i gyflawni fy [Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol](#), sydd i fod i gwblhau ei blwyddyn gyntaf ym mis Hydref 2020. Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno o bell i ddarparu ar gyfer amgylchiadau newidiol COVID-19 ac rwy'n falch bod llawer o'r arweinyr o fewn cyrff cyhoeddus a oedd wedi cytuno i gymryd rhan mewn mentora o chwith yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r trefniant hwn er gwaethaf pwysau enfawr COVID-19 ar ddarpariaeth eu gwasanaethau. Yn ddiweddar rydyn ni wedi lansio papur ar gyfer mynegiadau o ddiddordeb mewn partneru a chymryd rhan mewn rhaglen 2021. Rydyn ni'n parhau i asesu ymarferoldeb cyflwyno rhaglen yng ngoleuni her COVID-19 a byddwn yn rhannu meddyliau a chyhoeddiadau pellach dros y misoedd nesaf.

Byddaf yn hyrwyddo ac yn annog defnyddio fy [Nheithiau](#) ac Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cynnwys llawer o syniadau a thystiolaeth



sy'n berthnasol i helpu adferiad Cymru yn dilyn argyfwng COVID-19.

A byddaf yn parhau i hyrwyddo ymagwedd 'Cymru' ar lwyfan cenedlaethol a rhyngwladol, i arddangos yr hyn a gyflawnwyd ac a ddysgwyd gennym a dod â syniadau yn ôl a fydd yn cynorthwyo adferiad yn dilyn COVID-19.

## Gweithredu'r trafodaethau – ysgwyddo'r newid rydw i eisiau ei weld mewn eraill

Mae fy nhîm a minnau wedi ymrwmo i **greu diwylliant sy'n cael effaith gadarnhaol** arnom ni yn ogystal ag yng Nghymru a gweddill y byd. Bydd y gweithredoedd mwy uchelgeisiol a nodir yn 'Nheithiau' Y Gallu i Greu yn sail i hyn.

Byddaf yn cadw golwg ar fy niwylliant sefydliadol, gan roi sylw arbennig i gefnogi fy nhîm sydd bellach yn gweithio'n gyfangwbl o gartref, ac mewn sawl achos yn gorfod creu cydbwysedd rhwng gwaith â phlant sy'n dysgu gartref.

## Hoffech chi gymryd rhan

Rwyf am glywed oddi wrth, a gweithio gyda grwpiau ac unigolion â mewnwelediad, arbenigedd, syniadau, pryderon neu brofiad bywyd ar unrhyw un o'r materion uchod. Cysylltwch trwy e-bost, trydar, llythyr, ffôn neu drwy [cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru](mailto:cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru) neu [covid-19@futuregenerations.wales](mailto:covid-19@futuregenerations.wales) os yr ydych chi am ddarganfod mwy, neu gofrestru ar gyfer derbyn fy nghylchlythyr rheolaidd.

# Adroddiad atebolrwydd a datganiadau ariannol

2020

Ysgogwr Newid

2015

Cenedlaethau'r Dyfodol

2050

## Adroddiad atebolrwydd

Yn yr adran hon, rwy'n adrodd ar ofynion atebolrwydd allweddol i Weinidogion Cymru ar ffurf debyg i adroddiad Cyfarwyddwyr sy'n cael ei baratoi gan gwmni preifat. Mae'r gofynion adrodd hyn wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Mae'n ofynnol i'm hadroddiad atebolrwydd gael tair adran: adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, Adroddiad Taliadau a Staffio a thystysgrif archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am adolygu fy adroddiad atebolrwydd er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â gwybodaeth arall yn fy natganiadau ariannol ac yn rhoi barn ar y datgeliadau canlynol yn yr adroddiad hwn:

- Rheoleidd-dra incwm a gwariant
- Datgeliadau ar atebolrwydd seneddol
- Datgeliadau cydnabyddiaeth a GTGAP i mi ac aelodau fy uwch-dîm rheoli
- Taliadau i gyn Gyfarwyddwyr, os yn berthnasol
- Taliadau am golli swydd, os yn berthnasol
- Pecynnau gadael, os yn berthnasol a
- Datgeliadau cyflog teg
- Dadansoddiad o niferoedd a chostau staff

### Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae gwybodaeth am fy strwythur llywodraethu a phwy sy'n gyfrifol am ac sy'n dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn fy Swyddfa wedi'i nodi ar fy ngwefan

ac yn fy Natganiad Llywodraethu. Mae'n ofynnol i mi hefyd ddatgelu unrhyw fuddiannau arwyddocaol sydd gennyf i a fy nghyfarwyddwyr a allai wrthdaro â'n cyfrifoldebau rheoli. Mae modd gweld cofrestr gryno o fy muddiannau i a'm cyfarwyddwyr [yma](#). Rheolwyd unrhyw wrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a gododd yn ystod y flwyddyn yn unol â'm [polisi gwrthdaro buddiannau](#).

### Fformat y Cyfrifon

Paratowyd fy natganiadau ariannol yn unol â Pharagraff 20 Atodlen 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac unrhyw Gyfarwyddyd ynghylch Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

Daeth Comisiynydd Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i fodolaeth ar 1 Chwefror 2016 gyda'm penodiad yn Gomisiynydd cyntaf. Mae'r cyfrifon hyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 ac yn adlewyrchu asedau, rhwymedigaethau ac alldro adnoddau fy Swyddfa. Paratowyd y datganiadau ariannol sy'n dilyn yr adroddiad hwn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisiâu cyfrifyddu a gynhwysir yn y FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd neu fel y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

### Cyllid

Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ei hariannu ganddi. Yn 2019-20, derbyniwyd £1.56 miliwn i ariannu gweithgareddau, cynnydd o 5 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (£1.48 miliwn, 2018-19). Derbyniais incwm arall hefyd yn bennaf o weithgaredd partneriaeth i ariannu Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, prosiectau ymchwil cydweithredol, honorariwm am siarad mewn digwyddiadau rhyngwladol ar gynaliadwyedd a llesiant, a thaliadau am gyngor, cefnogaeth a chymorth. Mae'r manylion llawn yn Nodyn 8 i'm Datganiadau Ariannol.



## Canlyniadau ar gyfer y cyfnod

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn dangos gwariant o £1.598 miliwn am y flwyddyn, gostyngiad o 5 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (£1.690 miliwn i 31.3.19). Gostyngodd balans y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn i £257,000 (£291,000 ar 31.3.19). Cedwir lefel rhesymol o gronfeydd wrth gefn i ganiatáu ar gyfer unrhyw faterion heb eu cynllunio, materion brys a phwysig a ddygir i sylw'r Comisiynydd. Mae costau ychwanegol o'r fath yn debygol o fod yn gysylltiedig ag achos cyfreithiol ac adnoddau staff ychwanegol.

## Cwynion

Ni dderbyniodd fy Swyddfa unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod.

## Datgelu Gwybodaeth i'r Archwilwyr

Hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni ac mae fy nhim wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Yn ystod y cyfnod ni thalwyd unrhyw dâl i'm harchwilwyr am waith heblaw archwiliad.

## Datganiad O Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Atodlen 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddatganiad o gyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratwir y cyfrifon ar sail cronïadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr materion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac o'i incwm a'i wariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a lliw arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol, rhaid:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- paratwir datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol; a
- cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac ysgwyddo cyfrifoldeb personol am yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer ei swyddfa yn rhinwedd paragraff 18 o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Caiff cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros gywirdeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, eu hamlinellu yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

### Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru  
6 Gorffennaf 2020

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

### Pwrpas

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gen i gyfrifoldeb am gynnal llywodraethu effeithiol a system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni fy mhollisiau, fy nodau ac amcanion, tra'n diogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt.

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn dilyn Canllawiau Trysorlys EM. Mae'n nodi'r strwythurau llywodraethu ar gyfer fy swyddfa, a'r gweithdrefnau rheolaeth fewnol a rheoli risg sydd wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

Mae'r systemau sydd ar waith ac a amlinellir yn y datganiad hwn wedi'u cynllunio i reoli risg i lefel dderbyniol yn hytrach nag i ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; gall felly roi sicrwydd rhesymol yn unig, nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd. O ystyried fod gwaith fy swyddfa'n torri tir newydd, deuthum i'r casgliad bod angen mabwysiadu "archwaeth" tuag at risg ar gyfer llawer o'm gwaith sy'n edrych tuag allan oherwydd na fyddai agwedd draddodiadol fwy minimalaidd neu ofalus, yn fy marn i, yn llwyddo i ddod â'r newid er gwell y sefydlwyd fy swyddfa i'w gyflawni. Esbonnir hyn ymhellach isod.

### Natur fy swyddfa ac atebolrwydd

Sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fel corfforaeth undyn. Mae hyn yn golygu mai deilydd y swydd sy'n gyfrifol am yr holl swyddogaethau (pwerau a dyletswyddau) ac nad oes 'bwrdd' traddodiadol sy'n gyfrifol yn gorfforaethol am berfformiad a llywodraethiant y sefydliad. Rwy'n annibynnol ar Weinidogion ac, yn ddarostyngedig i Ddeddf 2015, yn gyfrifol am osod cyfeiriad strategol fy swyddfa. Rwy'n atebol i Senedd Cymru am weithredoedd fy swyddfa, ac i'w Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn benodol am faterion fel y trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol.

### Panel cynghori

Sefydlodd Deddf 2015 banel i roi cyngor i mi ar weithredu fy swyddogaethau. Aelodau'r panel cynghori yw – (a) Comisiynydd Plant Cymru; (b) Comisiynydd y Gymraeg; (c) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; (d) yr aelod o staff Llywodraeth Cymru a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru fel Prif Swyddog Meddygol Cymru; (e) cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru neu aelod arall anweithredol o'r corff hwnnw a ddewiswyd gan y cadeirydd; (f) swyddog y corff sy'n cynrychioli undebau llafur yng Nghymru a elwir yn TUC Cymru wedi ei enwebu gan y corff hwnnw; (g) y cadeirydd, cyfarwyddwr neu swyddog tebyg y caiff Gweinidogion Cymru ei p/phenodi o gorff sy'n cynrychioli personau sy'n rhedeg busnes yng Nghymru; (h) person arall y gall y bydd Gweinidogion Cymru'n ei ph/benodi. Rwyf wedi manteisio ar brofiad aelodau unigol i drwytho rhaglen waith fy sefydliad a chynghori ar fy swyddogaethau statudol drwy gydol y flwyddyn.

## Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Rwyf wedi penodi Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i ddarparu cyngor a her adeiladol ar faterion llywodraethu, rheolaeth ariannol ac archwilio, a'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol - gan gynnwys nodi a rheoli risg. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys:

- **Alan Morris**, Archwilydd wedi ymddeol a hyrwyddwr datblygu cynaliadwy ymroddedig sy'n cadeirio'r Pwyllgor;
- **Jocelyn Davies**, aelod o'r Panel Cyngori i'r Comisiynydd Plant a Chadeirydd ei PASR; aelod anweithredol o Fwrdd Awdurdod Cyllid Cymru a chadeirydd PASR; aelod o Blaid Cymru; aelod o Banel Aelodaeth, Safonau a Disgyblaeth Plaid Cymru; Cadeirydd Pwyllgor Archwilio, Risg a Chydymffurfiaeth Plaid Cymru; ymddiriedolwr Undeb Credyd Plaid Cymru; llysgennad Cymorth Menywod Cymru; ac Is-gadeirydd Fforwm Parc Rhanbarthol Llywodraeth Cymru;
- **John Dwight**, Archwilydd wedi ymddeol, ymddiriedolwr a thrysorydd anrhydeddus Gofal Hosbis y Ddinas, Caerdydd ac aelod o bwyllgor gweithredol cangen CIPFA-Cymru;

- **Gareth Madge**, cyn Brif Swyddog a Phrif Gynghorydd Cyfreithiol gyda Heddlu De Cymru, is-gadeirydd Bwrdd Trefnadaeth Heddlu De Cymru, ymddiriedolwr Capel Bedyddwyr Calfaria; a

- **Jonathan Morgan**, ymddiriedolwr Cymdeithas Gymunedol yr Eglwys Newydd, unig berchennog a chyfarwyddwr Insight Wales Consulting Ltd., a gyflogir gan Practice Solutions Ltd i reoli Uned Fusnes Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae pob un yn annibynnol ac nid yw'n gweithio i'r Comisiynydd.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi rhoi adroddiad blynyddol i mi lle daw i'r casgliad 'y gall y Pwyllgor, fel canlyniad i'w waith yn ystod y flwyddyn a chanfyddiadau'r archwiliad mewnol ac allanol, roi sicrwydd i'r Cyfarwyddwr bod y trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a sicrwydd risg sydd ar waith yn briodol ac wedi gweithredu'n effeithiol yn ystod blwyddyn ariannol 2019-2020'.



## Fframwaith llywodraethu

Mae fy strwythur llywodraethu corfforaethol wedi'i ddiwygio yn ystod y flwyddyn i gyd-fynd yn well ag arferion gwaith. Mae'r cydrannau craidd i raddau helaeth yn aros yr un fath ond yn newydd ar gyfer 2019-20 roedd:

- Yn dilyn adborth o adolygiad o fy swyddogaeth Cyfathrebu, rwyf bellach yn cadeirio cyfarfod wythnosol yr holl dîm 'Making it Happen' sydd wedi gwella cyfathrebu mewnol a rheoli prosiectau.
- Rwyf hefyd wedi cynnwys y tîm ehangach mewn sesiynau cynllunio strategol.
- Mewn ymateb i adborth tîm o arolwg tîm dwyflynyddol rwyf wedi cynhyrchu cynllun gweithredu diwylliant sefydliadol.
- Neilltuais bob un o aelodau fy Mhwyllgor fel 'ffrind beirniadol' i brosiectau strategol allweddol er mwyn cynnwys eu her annibynnol a'u sylwadau'n fwy amserol. Mae'r trefniant hwn hefyd wedi helpu'r Pwyllgor i gael gwell dealltwriaeth ar y cyd o waith fy Swyddfa.
- Mae fy Nghynlluniwr Corfforaethol wedi ymgymryd â rôl cynllunio a chefnogi gwaith fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac mae hyn wedi gwella prydlondeb ac ansawdd y cyfathrebu rhwng gwaith y tîm ac anghenion y Pwyllgor.

Rwy'n parhau i wneud penderfyniadau allweddol ar ôl trafod gydag aelodau'r tîm. Rwyf hefyd yn parhau i roi awdurdod i rai aelodau'r o'r staff awdurdodi trafodion ariannol.

Mae Archwilio Mewnol wedi bod ar waith trwy gydol y flwyddyn ac wedi cyflwyno rhaglen lawn o waith ac mae'r Pwyllgor Risg a Sicrwydd Archwilio wedi bod yn gwbl weithredol.

Mae fy nghynllun strategol yn nodi'r hyn y gobeithiaf ei gyflawni drwy newidiadau a fydd yn fanteisiol i bobl Cymru a sut rwy'n bwriadu mynd ati i wneud hyn mewn cydweithrediad â chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae'n ddogfen uchelgeisiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus herio'r ffyrdd y maent yn gweithio ac addasu arferion hirsefydlog i gyflawni'r hyn a ragwelwyd gan Lywodraeth Cymru pan benderfynodd gyflwyno'r hyn sydd bellach yn Ddeddf 2015. Mae'r cynllun hwn yn ddeinamig ac yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i addasu yn ôl yr angen

mewn ymateb i amgylchiadau newidiol trwy gydol fy nhymor yn y Swyddfa ac wedi'i ategu gan gynllun gwaith blynyddol a nodir ar fap ffordd.

## Ymagwedd tuag at reoli risg

Mae fy ymagwedd tuag at reoli risg yn gyson â'm cynllun strategol ac mae'n unol â Deddf 2015 a'r hyn y bwriedir ei gyflawni trwyddi. Mae fy mholisi rheoli risg, sydd wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ei gwneud yn glir fy mod am greu a chynnal amgylchedd a fydd yn caniatáu i reoli risg ffynnu yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod staff yn derbyn gwybodaeth lawn am ein cynlluniau a'r ymagwedd a fabwysiedir gennyf i a pherchnogion y risgiau i reoli'r risgiau cysylltiedig.

Mae'r polisi'n ei gwneud hi'n glir nad wyf yn gwrthwynebu cymryd risgiau. I'r gwrthwyneb, er mwyn cyflawni'r amcanion yn fy nghynllun strategol a'r hyn a ddisgwyllir, bydd angen ymagwedd agored neu archwaeth tuag at risg nad yw'n beth arferol i'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus eraill. Rwyf wedi dod i'r casgliad mai mabwysiadu dull o'r fath ar gyfer fy ngwaith sy'n edrych tuag allan gyda chyrrff cyhoeddus eraill yw'r unig ffordd realistig o sicrhau'r newid sydd ei angen ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Gallai gwneud fel arall olygu methu â manteisio ar gyfleoedd pan fyddant yn digwydd a bydd risg uchel o fethu â chyflawni'r amcanion heriol yr wyf wedi'u gosod yn y cynllun strategol a'r hyn y mae fy rhanddeiliaid yn ei ddisgwyl gennyf. Yn yr un modd, rwyf wedi penderfynu bod angen i fy sefydliad weithredu geiriau'r Ddeddf a bod yn agored ac arloesol a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio. Fodd bynnag, ni fydd risgiau o'r fath yn cael eu cymryd yn fyrbwyll; byddant yn cael eu rheoli'n briodol ac yn ofalus gyda'r nod o gyflawni cymaint â phosibl yn llwyddiannus.

Rwyf wedi cymryd agwedd fwy traddodiadol a gochelgar tuag at fy mhrosesau mewnol sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, cydymffurfio â deddfau a rheoliadau a diogelwch gwybodaeth.

Yn ystod 2019-2020 rwyf wedi diweddarau fy nghofrestr risg strategol mewn ymgynghoriad â staff a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Nodwyd risgiau priodol yn y gofrestr risgiau strategol mewn perthynas â'm dyletswyddau statudol a'r rôl y bydd fy sefydliad yn ei chwarae wrth helpu cyrrff cyhoeddus i gyflawni amcanion y Ddeddf. Mae camau i fynd i'r afael â'r risgiau hyn yn parhau i gael eu hymgorffori yn fy nhrefniadau gwaith.

## Archwiliad mewnol

Mae gwaith archwilio mewnol yn un modd allweddol o ddarparu'r sicrwydd sydd arnaf ei angen fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae Deloitte yn gweithredu fel fy archwilwyr mewnol ac maent wedi cynhyrchu'r adroddiadau canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg
- Systemau Ariannol

Mae Adroddiad Blynyddol Deloitte ar gyfer 2019-20 yn nodi: Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed fel y manylir arno yn ein hadroddiad archwilio mewnol ar gyfer 2019-20, ein hasesiad cyffredinol yw bod dosbarthiad sicrwydd ar gyfer llywodraethu corfforaethol a rheoli risg yn parhau i fod yn sylweddol.

## Sicrwydd Gwybodaeth

Mae fframwaith llywodraethu gwybodaeth wedi ei sefydlu gyda chyfres o bolisiau sylfaenol sy'n nodi trefniadau diogelwch ac egwyddorion llywodraethu gwybodaeth dda ynghyd â'r cyfrifoldebau a'r ymddygiadau rwy'n eu disgwyl gan bawb sy'n gweithio i mi.

Ni fu unrhyw doriadau data yn ystod y flwyddyn. Ni adroddwyd yn ffurfiol am unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y cyfnod.

## Crynodeb o effeithiolrwydd

O'r sicrwydd a ddarparwyd gan fy nhîm, fy ngwybodaeth am waith fy swyddfa, a'r adroddiadau a ddarparwyd gan archwilio mewnol ac allanol, gallaf adrodd nad oedd unrhyw wendidau arwyddocaol yn y system reolaeth fewnol fu ar waith yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

## Edrych ymlaen

Ar gyfer 2020-21, byddaf yn monitro, yn cynnal ac yn gwella'r trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu fy anghenion sicrwydd ac yn cyd-fynd â gweithle modern, hyblyg. Lle bo angen, byddaf yn parhau i ddiweddarau strwythur fy nhîm i sicrhau bod gennyf y trefniadau mwyaf effeithlon ac effeithiol i gyflawni'r ystod eang o swyddogaethau.

Roedd dau ffactor arwyddocaol yn dominyddu gwaith fy Swyddfa yn ystod rhan olaf 2019-20. Paratoi'r Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol pum mlynedd cyntaf. Bydd cyhoeddi'r Adroddiad yn darparu trobwynt, y byddaf tu hwnt iddo'n adolygu fy mlaenoriaethau a'm cynlluniau ar gyfer cyflawni fy ngwaith, wrth i'r cylch pum mlynedd tuag at ail Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol gychwyn.

Yr ail ffactor amlycaf fu'r pandemig coronafirws. Mae fy Swyddfa, fel pob sefydliad, wedi gorfod addasu ei ffyrdd o weithio. Wrth edrych ymlaen, bydd gan y pandemig oblygiadau sylweddol, nid yn unig i waith fy Swyddfa, ond hefyd i'r cyrff sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r gymdeithas yn gyffredinol. Bydd gan hyn oblygiadau i 'nghynlluniau gwaith ar gyfer y dyfodol, a'r ffordd y bydd y gwaith hwnna'n cael ei gyflawni.

### Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru  
6 Gorffennaf 2020

## Adroddiad Tâl a Staff

Mae'r rhan hon o fy adroddiad Atebolrwydd yn darparu gwybodaeth am fy mholisi tâl i mi a'm cyfarwyddwyr.

Cefais fy mhenodi ar 1 Chwefror 2016 a phenodwyd fy nghyfarwyddwyr rhwng Mehefin a Medi 2016. Gweinidogion Cymru sy'n pennu tâl Comisiynydd

Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru yn unol ag Atodlen 2 paragraff 5 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cymerais gyngor ar dâl gan arbenigwyr recriwtio'r gwasanaeth sifl ar gyfer fy nghyfarwyddwyr.

Mae'r adrannau canlynol, sydd wedi cael eu harchwilio, yn rhoi manylion tâl a buddion pensiwn y swyddogion uchaf yn fy swyddfa:

### Nifer a dadansoddiad o gostau Uwch Staff fesul Band (archwiliwyd)

	Cyflog £000		Buddion mewn nwyddau neu wasanaethau (i'r £100 agosaf)		Buddion Pensiwn (i'r £100 agosaf)		Cyfanswm £000	
	1.4.19 to 31.3.20	1.4.18 to 31.3.19	1.4.19 to 31.3.20	1.4.18 to 31.3.19	1.4.19 to 31.3.20	1.4.18 to 31.3.19	1.4.19 to 31.3.20	1.4.18 to 31.3.19
<b>Sophie Howe – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Llawn amser</b>	90-95	90-95	2	2	36	36	125-130	125-130
<b>Kate Carr – Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Partneriaethau a Chyfathrebu. Llawn amser. Daeth y gyflogaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019</b>	85-90	60-65	-	-	18	24	100-105	80-85
<b>Marie Brousseau-Navarro - Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesi. Rhan amser 0.8 cyfwerth ag amser llawn</b>	45-50 (FTE 60-65)	45-50 (FTE 60-65)	2	1	20	20	65-70	65-70
<b>Helen Verity – Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu. Rhan amser 0.6 cyfwerth ag amser llawn (yn gweithio'n llawn amser dros dro rhwng Tachwedd 19 a Mawrth 20)</b>	45-50 (FTE 60-65)	35-40 (FTE 60-65)	2	-	19	16	65-70	50-55

### Buddion mewn Nwyddau neu Wasanaethau

Mae'r rhain yn ymwneud â thaliadau a wneir o dan ein Polisi Rhoddion Llesiant. Mae llesiant yn hynod bwysig i ni fel sefydliad ac mae'n thema ganolog yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fel rhan o'n Strategaeth Wobrwy, mae cyflogau'r bobl sy'n

ennill dros £40,000 y flwyddyn yn cael eu brigdorri a'u talu i mewn i Bot Llesiant. Gall gweithwyr hawlio hyd at £250 tuag at gostau ymaelodi mewn clwb, gweithgaredd, triniaeth iechyd neu offer i gefnogi'r gweithgaredd.

## Buddion Pensiwn - Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (wedi'i archwilio)

	Cyfanswm Pensiwn Cronedig	Cynnydd real mewn pensiwn	GTGAP ar 31.3.20	GTGAP ar 31.3.19	Cynnydd go iawn / (gostyngiad) yn GTGAP
	£000	£000	£000	£000	£000
<b>Sophie Howe – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Llawn amser</b>	5-10	0-2.5	89	65	14
<b>Kate Carr – Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Partneriaethau a Chyfathrebu. Llawn amser. Daeth y gyflogaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019</b>	0-5	0-2.5	56	42	9
<b>Marie Brousseau-Navarro - Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesi. Rhan amser 0.8 cyfwerth ag amser llawn</b>	0-5	0-2.5	42	29	9
<b>Helen Verity – Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu. Rhan amser 0.6 cyfwerth ag amser llawn (yn gweithio'n llawn amser dros dro rhwng Tachwedd 19 a Mawrth 20)</b>	0-5	0-2.5	47	32	11

## Cynllun Pensiwn

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrra gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod, (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, mae pob gwas sifil oedd newydd eu penodi a mwyafrif y rhai sydd eisoes mewn gwasanaeth wedi ymuno ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair rhan i'r PCSPS: 3 yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (**clasurol**, **premiwm** neu **glasurol plws**) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrra gyfan (**nuvos**) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu ac mae cost y buddion yn cael ei dalu gan arian y pleidleis arno gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau **clasurol**, **premiwm**, **clasurol plws**, **nuvos** ac **alpha** yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Roedd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w

hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn aros yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i **alpha** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Mae eu buddion PCSPS yn cael eu 'bancio', ac i'r rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS bydd y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** - fel sy'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac **alpha** y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau **clasurol**, **premiwm**, **clasurol plws**, **nuvos** ac **alpha**. Mae buddion mewn cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i bensiwn cychwynnol tair blynedd yn daladwy ar ôl ymddeol. Ar gyfer **premiwm**, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol

ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r **cynllun clasurol**, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae'r cynllun **clasurol plws** yn ei hanfod yn hybrid gyda buddion ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras fel yn y cynllun **clasurol** a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi'u cyfrifo yn unol â'r cynllun premiwm. Yn **nuvos** mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod fel aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn a enillwyd gan yr aelod â 2.3% o'u enillion pensiynadwy yn y flwyddyn gynllun honno ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion mewn **alpha** yn cronni mewn ffordd debyg i **nuvos**, ond bod y gyfradd gronni yn 2.32%. Ymhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) eu pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) tuag at gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr penodedig - Legal & General. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at derbyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o'u cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant risg buddion a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad ar sail afiechyd).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod i'w dderbyn pan fyddant yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth wedi iddynt beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os byddant eisoes wedi cyrraedd neu fynd heibio i'r oedran pensiwn. Oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau **clasurol**, **premiwm** a **clasurol plws**, 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** - fel sy'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond nodwch y gall rhan o hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedranau.)

Mae mwy o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan [www.civilservicepensionscheme.org.uk](http://www.civilservicepensionscheme.org.uk).

## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (GTGAP) yw gwerth cyfalafol a aseswyd gan actiwari o fuddion y cynllun pensiwn a gronwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion y rhoddwyd gwerth arnynt yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol cymar sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTGAP yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronwyd yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swyddogaeth uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd-dal pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronwyd i'r aelodau o ganlyniad iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Mae GTGAP yn cael eu cyfrif yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol yn GTGAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn GTGAP a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronodig yn dilyn chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Adrodd ar Gynlluniau lawndal y Gwasanaeth Sifil ac Eraill - Pecynnau Ymadael (wedi'u harchwilio)

Gadawodd dau weithiwr o dan delerau diswyddo gwirfoddol yn 2019-20 (Kate Carr, Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Partneriaethau a Chyfathrebu, ar 31ain Rhagfyr 2019, a'n Swyddog Cyfathrebu ar 31 Ionawr 2020). Cyfanswm y taliad iawndal a gawsant oedd £60,563.37. Talwyd costau diswyddo a chostau gadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-dal 1972. Rhoddir cyfrif llawn am gostau ymadael yn y flwyddyn ymadael. Pan fydd fy swyddfa wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, fy swyddfa sy'n talu'r costau ychwanegol nid cynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ni chafwyd unrhyw ymddeoliadau cynnar yn 2019-20. Y cynllun pensiwn sy'n talu costau ymddeol oherwydd afiechyd.

## Taliadau i gyn-gyfarwyddwyr (wedi'u harchwilio)

Ni wnaed unrhyw daliadau i gyn-gyfarwyddwyr (dim 2018-19).

## Datgeliadau Cyflog Teg (wedi'u harchwilio)

	2019-20	2018-19
<b>Band o ad-daliad unigolyn â'r cyflog uchaf (£000)</b>	90-95	90-95
<b>Cyfanswm canolrif (£)</b>	37,353	32,311
<b>Cymhareb</b>	1:2.48	1:2.86
<b>Ystod o dâl staff: uchaf (£)</b>	62,381	60,750
<b>Ystod o dâl staff: isaf (£)</b>	16,757	16,120

Mae'n ofynnol i mi ddatgelu'r berthynas rhwng tâl unigolyn â'r cyflog uchaf a thâl canolrifol y gweithu. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr a gwerth trosglwyddo pensiynau sy'n cyfateb i arian parod. Mae newid bach yn y pwynt canolrif a'r gymhareb yn 2019-20 yn adlewyrchu mân newidiadau staff yn fy sefydliad.

## Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

(ddim yn destun archwiliad)

Mae dadansoddiad tâl yn ôl rhyw yn arwydd pwysig wrth inni symud tuag at Gymru sy'n Fwy Cyfartal. Ar gyfer 2019-20 rwy'n dewis eto i adrodd ar sefyllfa tâl yn ôl rhyw i bobl sy'n gweithio yn fy nhîm. Mae'r tabl cyntaf isod yn dangos canolrif a chymedr graddfeydd tâl fesul awr ar gyfer y rhai yn fy nhîm y mae gennyf reolaeth uniongyrchol dros eu cyfraddau tâl. Mae'r ail tabl yn dangos canolrif a chymedr graddfeydd tâl fesul awr pan gynhwysir aelodau'r tîm o sefydliadau partner.

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau: yn gyflogedig yn uniongyrchol yn unig	2019-2020		2018-2019	
	Benyw	Gwryw	Benyw	Gwryw
<b>Cyfanswm canolrif (£)</b>	18.82	17.92	16.79	16.79
<b>Cyfanswm cymedrig (£)</b>	20.41	17.04	18.79	15.99
Bwlch cyflog rhwng y rhywiau: yn cynnwys rhai ar secondiad am dâl	2019-2020		2018-2019	
	Benyw	Gwryw	Benyw	Gwryw
<b>Cyfanswm canolrif (£)</b>	20.99	16.73	18.07	16.79
<b>Cyfanswm cymedrig (£)</b>	21.00	16.79	19.07	15.89

## Adroddiad Staff

### Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

Ar 31 Mawrth 2020, roedd 23 aelod o staff gan y Comisiynydd (cyfwerth ag amser llawn 18.32). Yr adeg hon y llynedd, nifer ein tîm cyfan oedd 35 o bobl o'i gymharu â 23 o bobl ar 31 Mawrth 2020. Mae nifer ein Tîm wedi gostwng yn sylweddol oherwydd cwblhau ein prif raglen bartneriaeth, Y Gallu i Greu, a ffocysu ar ailstrwythuro un o'n swyddogaethau craidd.

Cafodd tri deg y cant o'n gweithlu yn 2019-20 adnoddau trwy drefniadau dros dro neu bartneriaeth o'i gymharu â phedwar deg tri y cant yn 2018-19. Rydyn ni'n defnyddio trefniadau dros dro, secondiad neu bartneriaeth yn 2019-20 i gynnal ein hyblygrwydd i ymateb yn ragweithiol mewn sefyllfa waith sy'n symud yn gyflym ac sy'n newidiol ei natur.

### Costau staff (archwiliwyd)

Am y flwyddyn mae costau staff yn cynnwys:

	2019-20	2018-19
	£000	£000
Cyflogau	921	778
Costau Nawdd Cymdeithasol	95	81
Costau Pensiwn	228	160
Is-gyfanswm	1,244	1,019
Secondiadau mewnol a staff asiantaeth	80	273
<b>Cyfanswm Costau Net</b>	<b>1,324</b>	<b>1,292</b>

Roedd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd (gan gynnwys cyfarwyddwyr) am y cyfnod fel a ganlyn:

	1.4.19 to 31.3.20	1.4.18 to 31.3.19
	WTE	WTE
Cyflogedig yn Uniongyrchol	20.23	19.20
Cyflogedig ar Secondiad	2.33	7.1
<b>Cyfanswm</b>	<b>22.56</b>	<b>26.30</b>

Roedd nifer y rhai ar secondiad cyfwerth ag amser llawn a dalwyd a nas talwyd fel a ganlyn:

	1.4.19 to 31.3.20	1.4.18 to 31.3.19
	WTE	WTE
Cyflogedig ar Secondiad	2.33	7.10
Ar Secondiad heb dâl	-	0.66
<b>Cyfanswm</b>	<b>2.33</b>	<b>7.76</b>

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y rhai ar secondiad cyfwerth ag amser llawn o'r saith sefydliad yr ydym wedi ffurfio partneriaeth gyda nhw o fewn y cyfnod:

Sefydliad	Maes gwaith	1.4.19 hyd 31.3.20	1.4.18 hyd 31.3.19
		WTE 1	WTE 2
Llywodraeth Cymru	Cynllun Graddedigion Cymru Gyfan	0.67	0.00
Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru	Polisi	0.58	0.33
Comisiynydd Plant Cymru	Cymorth a Pholisi Busnes	0.40	0.40
Chwaraeon Cymru	Polisi	0.25	1.00
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoddus Cymru	Polisi	0.20	0.10
Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru	Polisi	0.13	0.50
Cymdeithas Tai Unedig Cymru	Polisi	0.10	0.57
Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG	Polisi	-	1.00
Cyngor Celfyddydau Cymru	Polisi	-	1.00
Ymddiriedolaethau Natur Cymru	Polisi	-	0.60
Cydgysylltiad	Polisi	-	0.60
Masnach Deg Cymru	Polisi	-	0.50
Canolfan Cydweithredol Cymru	Polisi	-	0.50
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	Polisi	-	0.30
BT	Rheoli Prosiect	-	0.21
Academi Wales	Polisi	-	0.15
<b>Cyfanswm</b>		<b>2.33</b>	<b>7.76</b>

### Tâl Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

(ddim yn destun archwiliad)

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiynydd yn cynnwys pum aelod annibynnol, a benodir gan y Comisiynydd. Mae'r aelodau'n derbyn lwfans dyddiol o £250 ac mae'r Cadeirydd yn derbyn lwfans dyddiol o £300. Yn 2019-20 gwnaed y taliadau canlynol:

	1.4.19 hyd 31.3.20	1.4.18 hyd 31.3.19
	(£)	(£)
Alan Morris (Cadeirydd)	2,700	1,800
John Dwight	1,250	1,250
Gareth Madge	1,250	1,000
Jocelyn Davies	1,250	1,000
Jonathan Morgan	1,250	750
<b>Total</b>	<b>7,700</b>	<b>5,800</b>

## Cyfansoddiad Staff

Rydym yn casglu ystadegau'r gweithlu mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchoddedig y manylir arnynt yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Nid ydym yn cyhoeddi manylion llawn oherwydd maint bach ein gweithlu ac yn sgil hynny anhawster cynnal ein rhwymedigaethau i ddiogelu anhysbysrwydd data personol sensitif, ond rydyn ni'n cyhoeddi rhywfaint o ddata y gallwch chi ei weld isod.

## Ystadegau Rhyw a Thâl y Gweithlu

(ddim yn destun archwiliad)

Mae'r tabl hwn yn dangos ffurfweddiad ein gweithlu cyfan yn ôl rhyw, band tâl, math o gontract a phatrwm gwaith ar 31 Mawrth 2020: (mae dros dro yn cynnwys staff a gyflogir ar gontractau tymor penodol a rhai ar secondiad o sefydliadau partner).

Lefel tâl y flwyddyn (cyfwerth â rhai ar secondiad)	Gwryw amser llawn parhaol	Benyw amser llawn parhaol	Benyw tymor penodol amser llawn	Benyw rhan-amser parhaol	Benyw tymor penodol rhan amser	Cyfanswm
Gradd 1 £20 - 23k	1	1	2			4
Gradd 2 £25 - 28k		2	1			3
Gradd 3 £31 - 36k	1	2				3
Gradd 4 £39 - 44k	1	1	1	2		5
Gradd 5 £48 - 52k	1	1		1		3
Gradd 6 £59 - 63k				2		2
Comisiynydd £92k			1			1
Gweithwyr partneriaeth					2	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>4</b>	<b>7</b>	<b>5</b>	<b>5</b>	<b>2</b>	<b>23</b>

## Ystadegau Rhyw ein Gweithlu

(ddim yn destun archwiliad)

Mae'r tabl hwn yn dangos 23 o weithwyr ar 31 Mawrth 2020 yn ôl rhyw ynghyd â chymhariaeth yn erbyn y blynyddoedd blaenorol a dyddiad Poblogaeth y Cyfrifiad diweddaraf 2011: Cymru (3,063,456)

Rhyw	FGCW 31/03/2020	%	FGCW 31/03/2019	%	Cymru 2011	%
Gwryw	4	17	6	17	1,504,228	49
Benyw	19	83	29	83	1,559,228	51
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>		<b>35</b>		<b>3,063,456</b>	

## Ystadegau Oedran y Gweithlu

(ddim yn destun archwiliad)

Nifer y bobl yn ôl oedran ar 31 Mawrth 2020

16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65 & Dros	Heb ei ddatgelu
5	7	4	6	0	0	1

## Ystadegau Ymadawyr y Gweithlu

(ddim yn destun archwiliad)

Bu 11 ymadawr yn y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020.

- 1 person wedi ymddeol
- Gadawyd 2 berson trwy ddiswyddiad gwirfoddol
- 1 person ar ôl ar ddiwedd ei gyfnod prawf
- Daeth 4 contract tymor penodol i ben
- Daeth 3 secondiad / partneriaeth i ben.

## Ystadegau Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu

(ddim yn destun archwiliad)

Cyfrif yn ôl rhyw, band cyflog, math o gontract a phatrwm gwaith aelodau'r tîm a gymerodd ran mewn cyfleoedd hyfforddi a ddarperir yn allanol yn ystod y flwyddyn.

Lefel Cyflog Blynyddol	Gwryw llawn amser parhaol	Benyw llawn amser parhaol	Benyw tymor penodol llawn amser	Benyw rhan amser parhaol	Benyw tymor penodol rhan amser	Cyfanswm
Gradd 1 £20 - 23k			1			1
Gradd 2 £25 - 28k		2				2
Gradd 3 £31 - 36k	1	1				2
Gradd 4 £39 - 44k		1		2		3
Gradd 5 £48 - 52k	1		1	1		2
Gradd 6 £59 - 63k						
Secondai taledig					1	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>2</b>	<b>4</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>1</b>	<b>12</b>

Cefnogwyd deuddeg o bobl i gymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi allanol o bob rhan o'r graddau, y rhywiau a'r patrymau gwaith.

Yn ogystal, gwnaethom gyflwyno sawl digwyddiad datblygu tîm cyfan yn 2019-20.

## Ystadegau Gweithlu Eraill

(ddim yn destun archwiliad)

Mae 13% o'n gweithlu wedi datgelu anabledd gyda hyder gan eu bod yn gwybod y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu fel sefydliad i'w cefnogi mewn gwaith.

Mae 32% o'n gweithlu naill ai'n disgrifo'u hunain fel rhai â sgiliau da yn y Gymraeg neu sgiliau canolradd.

Mae 77% o'n gweithlu'n disgrifo'u hunain fel Cymry neu Brydeinwyr, mae 23% o'n gweithlu yn cynrychioli cefndiroedd ethnig amrywiol eraill.

## Data Absenoldeb Salwch

(ddim yn destun archwiliad)

Mae ffigurau absenoldeb salwch yn cael eu casglu, eu monitro a'u cofnodi ar gyfer aelodau'r tîm a gyflogir yn uniongyrchol. Rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 roedd 22 o bobl ar gyfartaledd yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol ac adroddwyd bod y gyfradd absenoldeb salwch yn 0.86% o'r oriau a oedd ar gael (1.68% yn 2018-19). Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 44 diwrnod o absenoldeb salwch tymor oedd yn effeithio ar 8 aelod o'r tîm. Ni chafwyd unrhyw achosion o absenoldeb tymor hir yn y flwyddyn ariannol hon (absenoldeb yn para mwy na 4 wythnos).

## Taliadau oddi ar y gyflogres

(nad ydynt yn destun archwiliad)

Ni chafwyd unrhyw daliadau oddi ar y gyflogres yn y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020 (dim 2018-19).

### Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru  
Gorffennaf 6, 2020



# Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Senedd Cymru

## Barn

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan baragraff 21 o atodlen 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu sylweddol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol, a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o faterion 'Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar 31 Mawrth 2020 a'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd

Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen ar gyfer fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'n ofynnol i mi adrodd i chi yn eu cylch yn unol â'r ISAs (DU):

- lle nad yw'n briodol defnyddio cyfrifyddu fel busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu
- lle nad yw Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai fwrw amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r corff i barhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

## Gwybodaeth arall

Nid yw Deddfwriaeth a Chyfarwyddiadau a roddir i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi cynnwys a ffurf yr Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w gyflwyno gyda'r datganiadau ariannol.

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd arnynt. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad ynglŷn â'u sicrwydd.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall i ganfod unrhyw beth sy'n anghyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n anghywir ar sail yr wybodaeth a ddaeth i fy sylw, wrth gyflawni'r archwiliad neu sy'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth a gefais. Os ydych chi yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Adrodd ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Gan nad yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi cynnwys a ffurf yr Adroddiad Atebolrwydd, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu sydd i'w gyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni fedraf gadarnhau bod y Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi'n iawn. Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoy'r datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar gyfer Adroddiad Taliadau, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi paratoi adroddiad o'r fath ac yn fy marn i, mae'r rhan honno y mae'n ofynnol fel arfer i'w harchwilio wedi'i pharatoi yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a gyflwynwyd gyda'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol ac wedi'i pharatoi yn unol ag arweiniad Gweinidogion Cymru.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau materol berthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol a ddarperir gyda'r datganiadau ariannol na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion a ganlyn yr adroddir gennyf arnynt i chi, os, yn fy marn:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni;
- na ddatgelwyd gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch y taliadau a thrafodion eraill; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wneir o dan y ddeddf honno, ac am fodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg ac am y rheolaeth fewnol sydd ei hangen yn ôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i'w galluogi i baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes ymarferol, gan ddatgelu fel sy'n briodol, faterion sy'n berthnasol i fusnes ymarferol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes ymarferol oni bai y bernir bod hynny'n amhriodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warrant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol pe gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu'n gyfanredol, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o fy adroddiad archwilydd.

## Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol  
24 Heol yr Eglwys Gadeiriol  
Caerdydd  
CF11 9LJ

13 Gorffennaf 2020

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfeithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfeithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

## Datganiadau ariannol

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am y cyfnod  
01 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020

	Nodyn	1.4.19 hyd at 31.3.20	1.4.18 hyd at 31.3.19
		£000	£000
<b>Gwariant:</b>			
<b>Costau gweinyddol:</b>			
<b>Costau staff</b>	2	1,324	1,292
<b>Dibrisiant</b>	3,4	7	14
<b>Costau gweinyddol eraill</b>	3	432	412
		1,763	1,718
<b>Incwm:</b>			
<b>Incwm arall</b>	8	165	28
<b>Gwariant Net</b>		1,598	1,690
<b>Llog taladwy / derbyniadwy</b>		-	-
<b>Gwariant Net ar ôl llog</b>		1,598	1,690

	Nodyn	1.4.19 hyd at 31.3.20	1.4.18 hyd at 31.3.19
		£000	£000
<b>Gwariant Cynhwysfawr arall</b>			
<b>Enillion / (colled) net wrth ailbriso Offer a Chyfarpar</b>		-	-
<b>Cyfanswm Gwariant Cynhwysfawr am y flwyddyn</b>		1,598	1,690

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus. Nid oes unrhyw enillion na cholledion ac eithrio'r rhai yr adroddir arnynt yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r Comisiynydd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 119-128 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2020

			2020		2019
	Nodyn		£000		£000
<b>Asedau anghyfredol:</b>					
Eiddo, offer a chyfarpar	4		3		10
<b>Asedau cyfredol:</b>					
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	5	43		27	
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	6	369		421	
			412		448
<b>Cyfanswm yr asedau</b>					
			415		458
<b>Rhwymedigaethau cyfredol:</b>					
Masnach a symiau eraill sy'n daladwy	7		(153)		(162)
<b>Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol</b>					
			262		296
<b>Rhwymedigaethau hirdymor:</b>					
Darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau			(5)		(5)
<b>Cyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau</b>					
			257		291
<b>Ecwiti trethdalwr:</b>					
Cronfa gyffredinol			257		291

### Sophie Howe,

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a  
Swyddog Cyfrifyddu  
06 Gorffennaf 2020

Mae'r nodiadau ar dudalennau 119-128  
yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad Llif Arian am y cyfnod 01 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020

		1.4.19 hyd at 31.3.20	1.4.18 hyd at 31.3.19
	Nodyn	£000	£000
<b>Llif arian o weithgareddau gweithredu</b>			
Gwariant Net		(1,598)	(1,690)
Addasiad ar gyfer trafodion heblaw arian parod	3,4	7	14
(Cynnydd) / gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill	5	(16)	(25)
Cynnydd / (gostyngiad) mewn symiau taladwy masnach	7	(9)	50
Cynnydd / (gostyngiad) yn y ddarpariaeth		-	-
<b>All-llif arian parod net o weithgareddau gweithredol</b>			
		(1,616)	(1,651)
<b>Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi</b>			
Prynu eiddo, offer a chyfarpar	4	-	(9)
<b>All-llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi</b>			
		-	(9)
<b>All-llif arian net</b>			
		(1,616)	(1,660)
<b>Llif arian o weithgareddau cyllido</b>			
		-	-
<b>Cyllido Net</b>			
		1,564	1,480
Cynnydd / (gostyngiad) net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod	6	(52)	(180)
<b>Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod</b>			
		421	601
<b>Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod</b>			
		369	421

Mae'r nodiadau ar dudalennau 119-128  
yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y cyfnod 1 Ebrill 2019 hyd 31 Mawrth 2020

		1.4.19 hyd at 31.3.20	1.4.18 hyd at 31.3.19
	Nodyn	£000	£000
Balans ar 1 Ebrill 2019		291	501
<b>Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 2019-2020</b>			
Cyllid gan Lywodraeth Cymru		1,564	1,480
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn		(1,598)	(1,690)
<b>Balans ar 31 Mawrth 2020</b>		<b>257</b>	<b>291</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 119-128 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Nodiadau i'r cyfrifon

### 1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Paratowyd y datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnod o ddeuddeg mis yn diweddu ar 31 Mawrth 2020.

Mae'r polisiau cyfrifyddu a gynhwysir yn y FReM yn cymhwyso Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd neu fel y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fo'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol y Comisiynydd at y diben o roi golwg wir a theg. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn ddeunydd mewn perthynas â'r cyfrifon.

Mae fy nhîm wedi ystyried effaith safonau a dehongliadau a gyhoeddwyd ond nad ydynt eto'n effeithiol ac nad ydynt wedi'u mabwysiadu'n gynnar gan y Comisiynydd. Ac eithrio Prydlesi IFRS16 Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), mae'r Comisiynydd yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r Safonau a'r dehongliadau hyn yn y dyfodol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Nid oes modd amcangyfrif yn rhesymol ar hyn o bryd effaith IFRS16, a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) ond na chafodd ei fabwysiadu gan yr Undeb Ewropeaidd ac a fydd yn berthnasol o 2021-2022.

Disgrifir y polisiau cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd ar gyfer fy swyddfa isod.

#### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol oherwydd, yn fy marn i, ystyrir bod effaith ailbrisiu asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r sefydliad trwy gyfeirio at eu cost gyfredol yn amherthnasol.

### 1.2 Cyllid

Daw prif ffynhonnell gyllid fy swyddfa gan Lywodraeth Cymru trwy grant flynyddol, a gredydir i'r gronfa gyffredinol pan dderbynnir y grant. Cesglir arian hefyd o ffioedd am gefnogaeth, cyngor a chymorth a ddarperir gennyf i a fy nhîm o dan swyddogaethau'r Comisiynydd Adran 19 a) d) o'r Ddeddf.

### 1.3 Eiddo, offer a chyfarpar

Mae'r holl asedau anghyfredol wedi'u prasio ar gost hanesyddol (gweler 1.1 uchod). Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol yw £1,000. Mae niferoedd mawr o'r un math o ased wedi'u grwpio gyda'i gilydd wrth benderfynu a oeddent yn disgyn yn uwch neu'n is na'r trothwy.

### 1.4 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau anghyfredol mewn rhandaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig, fel a ganlyn:

- Offer TGCh 3 blynedd
- Dodrefn 3 blynedd

Codir dibrisiant blwyddyn lawn ym mlwyddyn y caffaeliad.

### 1.5 Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Incwm a gwariant gweithredu yw'r hyn sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu fy swyddfa. Mae'n cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn. Mae'r holl wariant yn cael ei ddsbarthu fel gwariant gweinyddol.

## 1.6 Treth ar Werth

Nid yw fy swyddfa wedi'i chofrestru ar gyfer TAW. Cyfrifir gwariant a phryniannau asedau sefydlog gyda TAW yn gynwysedig, gan na ellir adennill TAW.

## 1.7 Pensiynau

Yn gyffredinol, mae fy staff yn dod o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig. Mae cost elfen budd diffiniedig y cynllun yn cael ei chydabod yn systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n dwyn budd o wasanaethau gweithwyr trwy dalu symiau i'r PCSPS a gyfrifir ar sail gronnu. Mae atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn gost i'r PCSPS. O ran elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynllun, mae fy swyddfa yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn; codir y symiau hyn i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mlwyddyn y taliad.

## 1.8 Prydlesi

Mae prydlesi asedau lle mae fy swyddfa i raddau helaeth yn ysgwyddo'r holl risgiau a gwobrau perchnogaeth ased ar brydles yn cael eu cyfrif fel prydlesi cyllid. Nid oes gan fy swyddfa unrhyw brydlesi cyllid.

Codir rhenti prydles gweithredol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn symiau cyfartal dros dymor y brydles.

## 1.9 Adrodd segmentol

Mae fy swyddfa yn gweithredu yng Nghymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru. Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a nodiadau cysylltiedig yn adlewyrchu'r segmentau yr adroddir ynddynt ganlyniadau gweithredu.

### 1.10 Treuliau staff

Mae fy nghyfrifon yn darparu ar gyfer absenoldebau iawndal tymor byr megis gwyliau blynyddol na chymerwyd ar ddiwedd y flwyddyn yn unol ag IAS19.

### 1.11 Darpariaethau

Mae fy nghyfrifon yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu gytundebol sydd ag amseriad neu symiau ansicr ar ddyddiad y fantolen, ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth.

### 1.12 Arian parod ac arian cyfwerth ag arian parod

Mae gan fy swyddfa arian parod sy'n cael ei adneuo mewn cyfrif o fewn Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar ôl ei dderbyn. Nid oes gan fy swyddfa unrhyw arian mân.

## 2. Costau staff

Am y flwyddyn mae costau staff yn cynnwys:

	2019-20	2018-19
	£000	£000
Cyflogau	921	778
Costau Nawdd Cymdeithasol	95	81
Costau Pensiwn	228	160
Is-gyfanswm	1,244	1,019
Secondiadau mewnol a staff asiantaeth	80	273
<b>Cyfanswm Costau Net</b>	<b>1,324</b>	<b>1,292</b>

## 3. Costau gweinyddol eraill

	1.4.19 hyd at 31.3.20		1.4.18 hyd at 31.3.19	
	£000	£000	£000	£000
<b>3.1 Costau gweinyddol:</b>				
Adeiladau	52		43	
Swyddfeydd	181		134	
Hyfforddiant a recriwtio	14		23	
Teithio a Chynhaliaeth	25		28	
Tâl archwilydd allanol	16		16	
Tâl archwilydd mewnol	10		12	
Offer TGCh	31		43	
Gwaith prosiect	103		113	
		432		412
<b>3.2 Eitemau heblaw arian parod:</b>				
Tâl dibrisiant ar asedau cyffredin	7		14	
Colled wrth waredu asedau sefydlog	-		-	
Darpariaeth ar gyfer Dadfeiliadau	-		-	
		7		14
		439		426

## 4. Eiddo, offer a chyfarpar

	Offer TGCh	Dodrefn ac Offer Swyddfa	Cyfanswm
	£000	£000	£000
<b>Cost</b>			
Ar 1af Ebrill 2019	39	2	41
Ychwanegiadau	-	-	-
Gwarediadau	-	-	-
Ar 31ain Mawrth 2020	39	2	41
<b>Dibrisiant</b>			
Ar 1af Ebrill 2019	29	2	31
Codwyd yn y flwyddyn	7	-	7
Gwarediadau	-	-	-
Ar 31ain Mawrth 2020	36	2	38
Gwerth net ar y llyfrau ar 1af Ebrill 2019	10	-	10
Gwerth net ar y llyfrau ar 31ain Mawrth 2020	3	-	3

## 5. Derbyniadau masnach ac asedau cyfredol eraill

	31.03.20	31.03.19
	£000	£000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	14	10
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	14	4
Ased contract	14	13
Benthyciad gweithiwr	1	-
	43	27

Mae gwybodaeth am yr ased contract yn Nodyn 8.

## 6. Arian parod ac arian cyfwerth ag arian parod

	31.03.20	31.03.19
	£000	£000
Balans ar 1af Ebrill 2019	421	601
Newid net mewn balansau arian parod ac arian cyfwerth ag arian parod	(52)	(180)
Balans ar 31ain Mawrth 2020	369	421

Roedd yr holl falansau ar 31 Mawrth 2020 yn cael eu cadw mewn cyfrif o fewn Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

## 7. Taliadau masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	31.03.20	31.03.19
	£000	£000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Taliadau masnach	11	83
Croniadau	71	76
Atebolrwydd contract	71	3
	153	162

Mae gwybodaeth am atebolrwydd contract yn Nodyn 8.

## 8. Incwm, asedau contract a rhwymedigaethau eraill

Cynhyrchwyd incwm arall o ddarparu cyngor, cefnogaeth a chymorth ac fe'i datgelwyd yn unol â gofynion IFRS 15 yn 2019-20.

### Incwm arall

Manylion	Incwm arall oddi wrth	2019-20		2018-19	
		Swm (£)	Cyfanswm (£)	Swm (£)	Cyfanswm (£)
Secondiadau allanol	Llywodraeth Cymru	60,829	75,363	18,147	18,147
	Comisiynydd Plant Cymru	14,534		-	
Cyfraniad i Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol	Gwasanaethau Cartref y BBC	5,000	50,417	-	-
	Cynulliad Cenedlaethol Cymru	5,000		-	
	Cyfoeth Naturiol Cymru	5,000		-	
	Iechyd Cyhoeddus Cymru	5,000		-	
	Trafnidiaeth Cymru	5,000		-	
	Canolfan Mileniwm Cymru	5,000		-	
	Arup and Partners International Ltd.	3,333		-	
	Prifysgol De Cymru	3,333		-	
	Celsa	2,917		-	
	Costain	2,917		-	
	Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru	2,917		-	
	Principality	2,500		-	
	Scouts Cymru	2,500		-	
Cyfraniad i brosiectau ymchwil ar y cyd	Prifysgol Caerdydd	15,000	17,857	-	7,142
	Busnes yn y Gymuned	1,429		3,571	
	Llywodraeth Cymru	1,428		3,571	
Grant prosiect (incwm yr UE ar gyfer prosiect Caffael Moesegol)	Swyddfa Eiriolaeth Masnach Deg	5,646	5,646	-	-

Honorariwm	Sefydliad Dyfodol Cynulliad Cenedlaethol (De Korea)	2,941	4,656	-	300
	OECD	587		-	
	GWYL FFILM RHAGLENNI DOGFEN RHYNGWLADOL JI.HLAVA	426		-	
	Gŵyl Ryngwladol Manceinion	250		-	
	Gŵyl Dinas y Dyfodol	228		-	
	Partneriaeth Datblygu Diwylliannol Bryste (BCDP)	150		-	
	Gwasanaethau Cartref y BBC	75		300	
Cyfraniad i Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol (gweithgareddau ymchwil a datblygu rhyngwladol)	Llywodraeth Cymru	4,255	4,255	-	-
Ad-daliad costau teithio a chynhaliaeth	Llywodraeth Cymru	1,593	3,562	36	36
	Iechyd Cyhoeddus Cymru	1,272		-	
	Cenhedloedd Unedig	548		-	
	Carnegie UK	114		-	
	Prifysgol Abertawe	35		-	
Cytleoli swyddfa	Adeiladu Arbenigedd yng Nghymru	2,655	2,655	1,525	1,567
Incwm amrywiol arall	Llenyddiaeth Cymru	458	952	42	
	Barclaycard	282		-	
	Griffiths and Armour	212		-	
<b>Cyfanswm (£)</b>		<b>165,364</b>	<b>165,364</b>	<b>27,192</b>	<b>27,192</b>

## Asedau contract

	Disgrifiad o'r contract	2019-20			2018-19		
		Balans agoriadol: reffeniw y disgwyliid yn flaenorol iddo gael ei gydnabod yn y cyfnod cyfrifyddu	Reffeniw a gydnabuwyd yn y cyfnod cyfrifyddu	Reffeniw y disgwyliid iddo gael ei gydnabod o fewn y flwyddyn ariannol nesaf 2020-21	Balans agoriadol: reffeniw y disgwyliid yn flaenorol iddo gael ei gydnabod yn y cyfnod cyfrifyddu	Reffeniw a gydnabuwyd yn y cyfnod cyfrifyddu	Reffeniw y disgwyliid iddo gael ei gydnabod o fewn y flwyddyn ariannol nesaf 2019-20
		£000	£000	£000	£000	£000	£000
Llywodraeth Cymru	Contract secondiad allanol: (12 mis, Ionawr 2019 - Ionawr 2020)	45	-	-	-	13	45
Llenyddiaeth Cymru	Cyfraniad i swydd Bardd Preswyl (12 mis, Mawrth 2019 - Chwefror 2020)	1	-	-	-	-	1
Llywodraeth Cymru	Secondiad allanol: estyniad contract am 12 mis (Ionawr 2020 - Ionawr 2021)	-	14	47	-	-	-
<b>Cyfanswm</b>		<b>46</b>	<b>14</b>	<b>47</b>	<b>-</b>	<b>13</b>	<b>46</b>

## Rhwymedigaethau contract

	Disgrifiad o'r contract	2019-20			2018-19		
		Balans agoriadol: reffeniw y disgwyliid yn flaenorol iddo gael ei gydnabod yn y cyfnod cyfrifyddu	Reffeniw a gydnabuwyd yn y cyfnod cyfrifyddu	Reffeniw y disgwyliid iddo gael ei gydnabod o fewn y flwyddyn ariannol nesaf 2020-21	Balans agoriadol: reffeniw y disgwyliid yn flaenorol iddo gael ei gydnabod yn y cyfnod cyfrifyddu	Reffeniw a gydnabuwyd yn y cyfnod cyfrifyddu	Reffeniw y disgwyliid iddo gael ei gydnabod o fewn y flwyddyn ariannol nesaf 2019-20
		£000	£000	£000	£000	£000	£000
Llywodraeth Cymru a Busnes yn y Gymuned	Cyfraniad i brosiect ar y cyd	3	-	-	-	8	3
Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol	Cyfraniad i Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol	-	50	71	-	-	-
<b>Cyfanswm</b>		<b>3</b>	<b>50</b>	<b>71</b>	<b>-</b>	<b>8</b>	<b>3</b>

## 9. Ymrwymadau o dan brydlesi

Roedd y Comisiynydd wedi ymrwmo i wneud y taliadau canlynol mewn perthynas â phrydlesi gweithredol sy'n dod i ben

	2019-20		2018-19	
	£000		£000	
	Tir ac Adeiladau	Arall	Tir ac Adeiladau	Arall
<b>Rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredol:</b>				
O fewn blwyddyn	56	1	59	1
Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd	40	-	102	1
Ar ôl pum mlynedd	-	-	-	-
	<b>96</b>	<b>1</b>	<b>161</b>	<b>2</b>

Swm y taliadau pryddles a gydnabyddir ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu hwn yw £59,022 (£45,013 yn 2018-19).



## 10. Offerynnau cyllidol

Mae IFRS7, Offerynnau Ariannol, yn gofyn am ddatgelu rôl offerynnau cyllidol yn ystod y cyfnod yn y dasg o greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd natur anfasnachol fy ngweithgareddau a'r ffordd y mae fy ngweithrediadau yn cael eu hariannu, nid yw fy Swyddfa yn agored i risg ariannol i'r un graddau ag endidau busnes. Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan lawer mwy cyfyngedig yn y dasg o greu neu newid risg nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae IFRS7 yn fwyaf perthnasol iddynt. Mae gennyf bwerau cyfyngedig iawn i fenthg neu fuddsoddi cronfeydd dros ben ac mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac nid ydynt yn cael eu cadw ar gyfer newid y risgiau rwy'n eu hwynebu wrth ymgymryd â gweithgareddau.

### Risg hylifedd

Mae gofynion refeniw ac adnoddau cyfalaf net fy Swyddfa'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Felly nid yw fy Swyddfa yn agored i risgiau hylifedd sylweddol.

### Risg cyfradd llog

Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol fy Swyddfa yn agored i risgiau cyfradd llog.

### Risg Arian Tramor

Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol fy Swyddfa yn agored i risgiau arian tramor.

### Gwerthoedd teg

Nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr a gwerth teg asedau a rhwymedigaethau ariannol fy Swyddfa ar 31 Mawrth 2020.

## 11. Ymrwymadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2020 (31ain Mawrth 2019 - dim).

## 12. Rhwymedigaethau wrth gefn

Nid oedd unrhyw rhwymedigaethau wrth gefn ar 31 Mawrth 2020 (31 Mawrth 2019 - dim).

## 13. Trafodion partïon cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig; derbyniodd fy swyddfa y rhan fwyaf o'i chyllid gan Lywodraeth Cymru (£1.564 miliwn ar gyfer eleni a £1.480 miliwn yn y cyfnod cyfrifyddu blaenorol). Derbyniodd fy swyddfa incwm arall o £68k ynghyd â gwariant o £18k gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol (incwm £22k, gwariant £1k yn y cyfnod cyfrifyddu blaenorol).

Mae cyflogres fy swyddfa yn cael ei chontractio'n allanol i Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru (PSOW) a bu nifer fach o drafodion materol yn ystod y cyfnod, yn ymwneud â gweithredu cyflogres a phensiynau, gyda'r PSOW, Cyllid a Thollau EM a Swyddfa'r Cabinet.

Mae Nodyn 8 yn rhoi dadansoddiad o'r incwm a dderbyniwyd gan sefydliadau eraill mewn cysylltiad â gwaith fy Swyddfa. Nid oedd unrhyw drafodion o bwys gyda sefydliadau lle'r oedd gan uwch staff, neu unrhyw un o'u teulu, swyddi dylanwadol.

## 14. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau rhwng dyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol a'r dyddiad y llofnodwyd y cyfrifon sy'n effeithio ar y datganiadau hyn. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 06 Gorffennaf 2020 gan Sophie Howe

Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair,  
Caerdydd CF10 1AT

02921 677 400

Dyluniad: [www.yogicomms.uk](http://www.yogicomms.uk)